

MILLER

Research Evaluation Consulting

Prosiect ymchwil i gefnogi'r gwaith o gomisiynu adnoddau llythrennedd yn y dyfodol

Adroddiad

Adnodd

Tachwedd 2026

info@miller-research.co.uk

01873 851880

miller-research.co.uk/

Prosiect ymchwil i gefnogi'r gwaith o gomisiynu adnoddau llythrennedd yn y dyfodol: Strwythur yr Adroddiad

Kerry KilBride, Geof Andrews, Shannon Dukes, Lacee Meyer, Iestyn Allen / Miller Research (UK) Ltd.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Geof Andrews
geof@miller-research.co.uk

Pen-y-Wyrlod, Llanwytherin, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 8RG, UK

www.miller-research.co.uk | 01873 851880 | Twitter: @miller_research

MILLER
Research Evaluation Consulting

Crynodeb 7

1. **Cefndir** 13
   - Cyflwyniad 13
   - Cyd-destun polisi ac ymchwil 13
   - Heriau mewn llythrennedd a darllen er pleser 14
   - Nodau ac amcanion yr ymchwil 15
   - Trosolwg o'r dull ymchwil 15
   - Strwythur yr adroddiad 16
2. **Methodoleg** 17
   - Rhan 1: adolygiad tystiolaeth strwythuredig 17
   - Rhan 2: ymchwil i brofiad defnyddwyr 18
   - Cyfyngiadau 21
3. **Canfyddiadau** 23
   - Deilliannau llythrennedd 23
   - Blynyddoedd cynnar 25
   - Dysgwyr oedran ysgol gynradd 29
   - Dysgwyr oedran ysgol uwchradd 37
   - Darllen er pleser 44
   - Enghreifftiau rhyngwladol o fentrau sy'n hyrwyddo darllen er pleser 54
   - Arferion gorau ryngwladol: gwersi i Gymru 57
   - Rhaglenni yng Nghymru 59
   - Bylchau a diffygion mewn mentrau sy'n hyrwyddo darllen er pleser 63
   - Ymchwil ar fentrau sy'n hyrwyddo darllen er pleser 67

Ffactorau sy’n effeithio ar weithgarwch dysgwyr mewn mentrau a darllen er pleser yn gyffredinol.....74
Ffactorau sy’n effeithio ar weithgarwch rhieni/gofalwyr mewn mentrau 81
Llwyddiant canfyddedig mentrau sy'n hyrwyddo darllen er pleser.....86
Meysydd i'w gwella wrth hyrwyddo darllen er pleser 90
4. **Casgliadau ac Argymhellion**.....94
Ystyriaethau ac argymhellion i Adnodd a phartneriaid 99

Rhestr ffigurau

Ffigur 3.1: Rhaglenni a nodwyd gan randdeiliaid 61
Ffigur A: Meysydd darllen er pleser 104

GEIRFA

Geirfa

Talfyriad / Gair allweddol	Diffiniad
Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Term a ddefnyddir i ddisgrifio dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol ar gyfer eu dysgu, gan gynnwys y rheini sydd â chyflyrau megis dyslecsia neu anawsterau dysgu eraill.
Deilliant llythrennedd	Newid mesuradwy neu weladwy mewn sgiliau, ymddygiadau, hyder, cymhelliant neu weithgarwch llythrennedd.
Cwricwlwm i Gymru	Fframwaith y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru, sy'n pwysleisio hyblygrwydd, cynhwysiant a dulliau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr.
Dadansoddiad thematig	Dull dadansoddi data ansoddol a ddefnyddir i adnabod patrymau a themâu o fewn data.
Dadgodio	Y broses o drosi geiriau ysgrifenedig yn iaith lafar trwy adnabod y berthynas rhwng llythrennau a sain.
Darllen er pleser	Darllen a hunan-ddewisir ac a gymhellir gan fwynhad, diddordeb neu ystyr personol yn hytrach na chyfarwyddyd ffurfiol.
Dealltwriaeth darllen	Y gallu i ddeall, dehongli ac ymateb i ystyron testunau.
Gweithgarwch (llythrennedd)	Y graddau y mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau darllen a llythrennedd a rhyngweithio â nhw. Mae cymhelliant, mynediad, hyder, cymorth a'r amgylchedd yn dylanwadu ar hyn.
Llafaredd	Sgiliau iaith lafar, gan gynnwys siarad, gwrando, trafod a chyfathrebu.

GEIRFA

Llythrennedd aml-ddull	Mae'n ymwneud â gwahanol ffurfiau o ddarllen a chyfathrebu, gan gynnwys print, digidol, sain a chynnwys gweledol.
Llythrennedd digidol	Y gallu i ddefnyddio a deall testunau ac offer digidol, gan gynnwys e-lyfrau, darllen ar-lein ac offer llythrennedd a gefnogir gan Ddeallusrwydd Artiffisial.
Llythrennedd disgyblaethol	Dull lle caiff sgiliau llythrennedd (darllen, ysgrifennu, cyfathrebu) eu haddysgu o fewn cyd-destunau penodol i bwnc ar draws y cwricwlwm.
Llythrennedd dwyieithog / Dwylythrennedd	Datblygiad sgiliau darllen, ysgrifennu a siarad a gwrando mewn dwy iaith, yn benodol Cymraeg a Saesneg yng nghyd-destun yr adroddiad hwn.
Hygyrchedd allanol	Y gallu i gael gafael ar ddeunyddiau ac adnoddau darllen, gan gynnwys llyfrau, llyfrgelloedd, a fformatau digidol.
Hygyrchedd cynhenid	Gallu dysgwr i ymwneud yn llwyddiannus â darllen, gan gynnwys hyder, dealltwriaeth a sgiliau iaith.
Trawsieithu	Y defnydd o ieithoedd lluosog gan ddysgwyr i helpu deall a chyfathrebu ar draws gwahanol gyd-destunau.
Ymwybyddiaeth ffonemig	Is-set o ymwybyddiaeth ffonolegol sy'n cyfeirio at y gallu i glywed, adnabod, a defnyddio ffonemâu unigol, yr unedau lleiaf o sain mewn iaith.
Ymwybyddiaeth ffonolegol	Ymwybyddiaeth o strwythur sain iaith, gan gynnwys y gallu i adnabod a defnyddio seiniau mewn geiriau.
Ymyriad llythrennedd	Rhaglen strwythuredig neu ddull a gynlluniwyd i wella sgiliau llythrennedd megis darllen, ysgrifennu neu ddatblygiad iaith.

Crynodeb

i. Comisiynwyd Miller Research gan Adnodd i gynnal ymchwil i gefnogi'r gwaith o gomisiynu adnoddau llythrennedd yng Nghymru yn y dyfodol. Nod yr ymchwil oedd cryfhau dealltwriaeth Adnodd o dirwedd presennol adnoddau, ymyriadau a rhaglenni llythrennedd, eu heffeithiolrwydd, a sut maent yn cael eu profi gan ymarferwyr, dysgwyr, rhieni a gofalwyr. Canolbwyntiodd ar dystiolaeth o'r hyn sy'n cefnogi deilliannau llythrennedd ac ar sut mae defnyddwyr yn ymwneud â mentrau llythrennedd yn ymarferol, gan gynnwys y rhai a fwriedir i hyrwyddo darllen er pleser.

ii. Mae'r ymchwil wedi mabwysiadu dull cymysg, gan gyfuno adolygiad tystiolaeth strwythuredig ag ymchwil profiad defnyddiwr. Archwiliodd yr adolygiad tystiolaeth waith ymchwil sy'n bod eisoes ar adnoddau, ymyriadau a rhaglenni llythrennedd, gan gynnwys enghreifftiau rhyngwladol a thystiolaeth sy'n berthnasol i Gymru. Archwiliodd yr ymchwil profiad defnyddwyr sut mae ymarferwyr, dysgwyr, rhieni a gofalwyr yn cael mynediad at adnoddau a mentrau llythrennedd mewn gwahanol gyd-destunau, cyfryngau iaith a lefelau gweithgarwch. Mae'r canfyddiadau yn ansoddol yn bennaf a dylid eu deall fel rhai sy'n rhoi golwg fanwl yn hytrach na thystiolaeth ystadegol gynrychioladol.

iii. Un o ganfyddiadau allweddol yr ymchwil yw y dylid mabwysiadu dealltwriaeth eang o ddeilliannau llythrennedd. Er bod cywirdeb darllen, rhuglder, dealltwriaeth, geirfa, ysgrifennu a llafaredd yn parhau i fod yn deilliannau craidd, mae'r dystiolaeth hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd hyder, cymhelliant, mwynhad darllen, mynediad at lyfrau, arferion darllen teuluol, hyder dwyieithog, hunaniaeth a llesiant dysgwyr. Gellir grwpio'r deilliannau hyn yn 3 maes cysylltiedig:

- deilliannau craidd
- deilliannau gweithgarwch ac ymddygiad
- deilliannau o ran tegwch a chyd-destun.

iv. Mae'r fframio ehangach hwn yn bwysig oherwydd bod adnoddau ac ymyriadau yn fwy tebygol o gael effaith barhaus pan fyddant, yn ogystal â chefnogi sgiliau llythrennedd, yn cefnogi hefyd yr amodau sy'n galluogi plant a phobl ifanc i ymdrin â llythrennedd mewn ffyrdd ystyrlon a pharhaol.

v. Ar draws grwpiau oedran mae blaenoriaethau gwahanol. Ar gyfer plant rhwng 0 a 3 oed, mae cymorth effeithiol yn canolbwyntio ar iaith gynnar, darllen ar y cyd, caneuon, straeon, hyder rhieni a gofalwyr, ac amgylchedd llythrennedd y cartref. I ddysgwyr oedran cynradd, y flaenoriaeth yw cyfuno addysgu darllen, ysgrifennu, geirfa a llafaredd â mynediad at lyfrau deniadol, cymorth cynhwysol a chyfleoedd i ddatblygu mwynhad darllen. I ddysgwyr oedran uwchradd, yr angen yw cynnal cymhelliant a dewis wrth gryfhau darllen, ysgrifennu, llafaredd a llythrennedd beirniadol ar gyfer pynciau penodol ar draws y cwricwlwm.

vi. Ni ddylid trin darllen er pleser fel rhywbeth ar wahân i ddatblygiad llythrennedd. Mae mwynhad, dewis, hyder, perthnasedd a hunaniaeth â chysylltiad agos â pharodrwydd dysgwyr i ddarllen ac i gynnal arferion darllen. Mae dysgwyr yn fwy tebygol o gydweithredu pan fydd testunau ar gael iddynt sy'n adlewyrchu eu diddordebau, eu bywydau, eu hieithoedd a'u lefelau hyder, gan gynnwys ffurfiau amrywiol fel ffuglen, llyfrau ffeithiol, comics, barddoniaeth, geiriau caneuon, llyfrau sain, testunau digidol a darllen ffurf fer. Gellir tanseilio diddordeb lle mae darllen yn cael ei brofi fel rhywbeth sydd yn rhy anodd, rhy hir, rhy ffurfiol, yn cael ei asesu yn ormodol, neu wedi'i ddatgysylltu oddi wrth ddiddordebau dysgwyr.

vii. Mae y gallu i gael gafael ar lyfrau yn parhau i fod yn broblem fawr. Roedd rhanddeiliaid yn nodi bylchau o ran llyfrau o ansawdd uchel, priodol ar gyfer oedran a deniadol, yn enwedig i ddysgwyr hŷn, darllenwyr cyfrwng Cymraeg, darllenwyr cyndyn a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Canfu’r ymchwil bryderon hefyd am ddarpariaeth ysgolion a llyfrgelloedd cyhoeddus, cost llyfrau a thanysgrifiadau, ac effaith cyllidebau ysgolion cyfyngedig ar ansawdd

a ffresni'r deunyddiau darllen sydd ar gael. Yn ogystal â bod yn fater ymarferol, mae'r gallu i gael gafael ar adnoddau yn ymwneud â thegwch hefyd, yn enwedig i ddysgwyr a theuluoedd sydd â llai o lyfrau gartref neu lai o gyfleoedd i fynd i lyfrgelloedd, siopau llyfrau neu i gael at adnoddau taledig.

viii. Mae darpariaeth Gymraeg, dwyieithog ac amlieithog yn flaenoriaeth drawsbynciol. Mae bylchau mewn adnoddau cyfrwng Cymraeg, ffuglen Gymraeg ar gyfer dysgwyr hŷn, offer asesu a diagnosteg dwyieithog, a chymorth priodol i ddysgwyr ag ADY mewn cyd-destunau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Roedd rhanddeiliaid yn tynnu sylw hefyd at yr angen am adnoddau sy'n cael eu haddasu yn hytrach na'u cyfieithu'n syml, fel bod deunyddiau Cymraeg yn teimlo'n naturiol, yn ddiwylliannol ystyrlon ac yn briodol i oedran, diddordebau, tafodieithoedd a chyd-destunau dysgwyr. Yn fwy cyffredinol, mae'n bwysig cydnabod dwyieithrwydd ac amlieithrwydd fel asedau, a chefnogi dysgwyr i fanteisio ar Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd cartref eraill lle bo hynny'n berthnasol.

ix. Mae tirwedd amrywiol ond anwastad o gynlluniau llythrennedd a darllen yng Nghymru. Cyfeiriodd rhanddeiliaid at 51 o raglenni unigryw, ond ni fernir bod y rhain yn cynrychioli'r dirwedd lawn. Roedd y rhaglenni a grybwyllwyd yn canolbwyntio'n helaeth ar ddarpariaeth cyn-ysgol ac oedran cynradd, gyda chyfeiriad cyfyngedig iawn at raglenni sydd wedi'u hanelu at ddysgwyr oedran uwchradd. Roedd llawer o'r rhaglenni a nodwyd wedi'u cynhyrchu'n fasnachol, yn cael eu gweithredu gan yr ysgol, ac yn codi tâl am gael eu defnyddio. Gall mynediad at ymyriadau llythrennedd a darpariaeth darllen er pleser ddibynnu ar gapasiti cyllido sefydliadol, adnoddau cartrefi ac ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ar gael, yn hytrach nag ar sail anghenion dysgwyr yn unig.

x. Roedd rhanddeiliaid yn disgrifio'r ddarpariaeth bresennol fel un dameidiog, gwasgaredig ac anodd chwilio drwyddi. Roedd ymarferwyr, rhieni a rhanddeiliaid cwmpasu yn nodi diffyg cydlynu, tystiolaeth gyfyngedig o effaith, mentrau tymor byr neu untro, ac

ansicrwydd ynghylch pa raglenni sy'n cefnogi darllen er pleser yn hytrach na dim ond gwella sgiliau. Roedd pryder hefyd bod mwynhad darllen yn aml yn cael ei gysgodi gan ddarpariaeth sy'n canolbwyntio ar gyrhaeddiad neu ymyrraeth. Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos yr angen am ddull cenedlaethol mwy cydlynol sy'n cefnogi datblygu llythrennedd ac ennyn diddordeb mewn darllen, gan ei gwneud hi'n haws i ymarferwyr a theuluoedd ganfod adnoddau priodol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

xi. Mae gweithgarwch ymarferwyr yn dibynnu ar amser, capasiti, hyder, diwylliant ysgol a defnyddioldeb adnoddau. Roedd ymarferwyr yn gwerthfawrogi deunyddiau parod a hyblyg y gellir eu defnyddio heb addasiad helaeth, yn enwedig lle mae adnoddau'n fforddiadwy, yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ac yn addas ar gyfer gwahanol oedrannau, galluoedd a chyd-destunau. Fodd bynnag, nododd ymarferwyr hefyd rwystrau gan gynnwys amser cyfyngedig, darpariaeth dameidiog, adnoddau sydd wedi dyddio, diffyg hyder wrth ysgogi darllen er pleser, dysgu proffesiynol cyfyngedig, a deunyddiau cyfrwng Cymraeg annigonol. Nodwyd arweinwyr ysgolion, dysgu proffesiynol, canllawiau cliriach a'r gallu i gael gafael ar adnoddau addasadwy o ansawdd uchel fel galluogwyr pwysig.

xii. Mae diddordeb dysgwyr yn cael ei ddylanwadu gan hyder o ran llythrennedd a'r amgylchedd darllen ehangach. Roedd dysgwyr a rhanddeiliaid yn nodi rwystrau gan gynnwys sgiliau sylfaenol gwan, llyfrau sy'n rhy anodd sydd ddim yn apelgar, cywilydd ynghylch anawsterau darllen, diffyg cefnogaeth, pethau eraill yn tynnu sylw, gweithgareddau cystadleuol, costau, rhwystrau iaith ac anghenion dysgu ychwanegol. Roedd y galluogwyr yn cynnwys sgiliau sylfaenol cryf, profiadau darllen cyraeddadwy a gwerth chweil, cyfleoedd i ddewis, cynrychiolaeth, delweddau a chymorth gweledol, arferion darllen cartref, anogaeth oedolion, technoleg wedi ei ddefnyddio yn adeiladol, perchnogaeth deunyddiau, a dulliau creadigol fel drama, chwarae rhan, trafod, canu a pherfformio.

xiii. Yn yr un modd, mae ennyn diddordeb rhieni a gofalwyr yn dibynnu ar hyder, amser, cost, mynediad a chyfathrebu gan ysgolion. Gall fod rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi darllen ond er hynny'n dal i fod yn ansicr sut i gefnogi plant i fod eisiau darllen, yn enwedig pan nad ydynt yn teimlo fod ganddynt ddigon o amser, digon o hyder yn eu llythrennedd eu hunain, digon o sgiliau Cymraeg, neu ddigon o fynediad at lyfrau ac adnoddau. Gall canllawiau clir, ymarferol a anfeirniadol helpu rhieni a gofalwyr i ddeall sut i gefnogi darllen gartref heb fod angen gwybodaeth arbenigol. Mae ysgolion, llyfrgelloedd a mannau cymunedol yn rhannau pwysig o'r ecosystem ddarllen ehangach, yn enwedig lle maent yn cynnig llwybrau dibynadwy at adnoddau, gweithgareddau a chymorth.

xiv. Dylai ystyriaethau wrth gefnogi llythrennedd ac anogaeth i ddarllen yng Nghymru gydbwyso datblygiad sgiliau llythrennedd craidd gyda'r amodau ehangach sy'n galluogi plant a phobl ifanc i ymddiddori mewn darllen ac ysgrifennu mewn ffyrdd ystyrlon, parhaus a phleserus. Mae hyn yn gofyn am edrych y tu hwnt i adnoddau unigol er mwyn ystyried sut mae dysgwyr yn cael mynediad at lythrennedd a phrofi llythrennedd ar draws gwahanol gyd-destunau. Mae angen i adnoddau fod yn berthnasol, hygyrch ac ar gael yn Gymraeg a Saesneg, gyda chefnogaeth ymarferwyr a theuluoedd, ac wedi'u cysylltu ar draws lleoliadau cartref, ysgol a chymunedol. Lawn cyn bwysiced yw adeiladu sylfaen dystiolaeth gryfach trwy werthuso, gan helpu i ddeall beth sy'n gweithio i bwy ac ym mha gyd-destunau ledled Cymru.

xv. Gyda'i gilydd, gall y camau canlynol helpu i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn cael y gefnogaeth, y mynediad a'r cymhelliant i ddod yn ddarllenydd hyderus, gydol oes:

- Datblygu ymdriniaeth genedlaethol gydlynol o lythrennedd a darllen er pleser
- Adeiladu sylfaen dystiolaeth gryfach ar yr hyn sy'n gweithio yng Nghymru

- Arfogi ymarferwyr â'r wybodaeth a'r arweiniad sydd eu hangen i gefnogi llythrennedd a darllen er pleser yn effeithiol
- Gwella'r gallu i gael gafael ar adnoddau cynhwysol o ansawdd uchel
- Mynd i'r afael â bylchau yn y Gymraeg a'r ddarpariaeth ddwyieithog
- Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd
- Cryfhau cyfranogiad teulu a chymunedol mewn llythrennedd.

xvi. Er mwyn gweithredu'r camau hyn, cynigir yr argymhellion canlynol:

1. Dylai Adnodd weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i sefydlu dull cenedlaethol mwy cydgysylltiedig ar gyfer llythrennedd a darllen er pleser, gan leihau darnio a gwella eglurder i ymarferwyr a theuluoedd.
2. Ymgorffori gofynion gwerthuso wrth ddylunio a chomisiynu rhaglenni ac adnoddau.
3. Dylai Adnodd ystyried gweithio gyda Dysgu a phartneriaid eraill i roi canllawiau clir, hawdd eu dilyn i ymarferwyr ar ddulliau llythrennedd a darllen er pleser.
4. Blaenoriaethu comisiynu adnoddau llythrennedd o ansawdd uchel, hygyrch ac addasadwy sy'n rhad ac am ddim neu isel eu cost i ysgolion a theuluoedd. Dylai'r rhain adlewyrchu hunaniaethau, diddordebau a phrofiadau amrywiol, a chynnwys amrywiaeth o fformatau .
5. Comisiynu adnoddau Cymraeg a dwyieithog yn benodol ar gyfer cyd-destunau Cymraeg.
6. Adnodd i ystyried comisiynu a chaffael adnoddau a mentrau i gefnogi llythrennedd dysgwyr oedran uwchradd.
7. Gallai Adnodd weithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i gryfhau'r gefnogaeth i rieni a gofalwyr ac annog ymwneud â llythrennedd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

1. Cefndir

Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau prosiect ymchwil a gomisiynwyd gan Adnodd i gefnogi'r gwaith o gomisiynu adnoddau llythrennedd yn y dyfodol. Nod yr ymchwil oedd cryfhau dealltwriaeth Adnodd o dirwedd presennol adnoddau, ymyriadau a rhaglenni llythrennedd, eu heffeithiolrwydd, a sut maent yn cael eu profi gan ymarferwyr, dysgwyr a theuluoedd.

1.2 Gweledigaeth Adnodd yw bod gan bob dysgwr ac ymarferydd, waeth beth fo'u cefndir, fynediad at adnoddau addysgol o ansawdd uchel sy'n cefnogi llesiant, tanio dychymyg ac annog cariad gydol oes at ddysgu. Ei genhadaeth yw arwain a chydlynu'r ddarpariaeth o adnoddau dwyieithog hawdd eu defnyddio a'u haddasu sy'n cefnogi cyflawni'r Cwricwlwm i Gymru. O fewn y cyd-destun hwn, mae llythrennedd yn faes blaenoriaeth allweddol, gyda phwyslais penodol ar wella mynediad at adnoddau o ansawdd uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg a sicrhau bod yr adnoddau hyn yn ymateb i anghenion ymarferwyr a dysgwyr ledled Cymru.

1.3 Cynlluniwyd yr ymchwil hwn er mwyn cael darlun trylwyr seiliedig ar dystiolaeth o fynediad at adnoddau i gefnogi llythrennedd ac annog darllen er pleser. Canolbwyntiodd y prosiect ar ddeall "beth sy'n gweithio" mewn ymyriadau llythrennedd ac ar archwilio sut mae defnyddwyr yn ymwneud â mentrau llythrennedd yn ymarferol, gan gynnwys rhaglenni sy'n hyrwyddo darllen er pleser. Wrth wneud hynny, mae'r ymchwil yn cyfrannu at nod ehangach Adnodd o ddatblygu sylfaen dystiolaeth i arwain penderfyniadau comisiynu yn y dyfodol a chefnogi datblygu adnoddau llythrennedd cynhwysol o ansawdd uchel.

Cyd-destun polisi ac ymchwil

1.4 Mae'r astudiaeth hon wedi'i gosod o fewn cyd-destun ehangach o ddiwygiadau parhaus i addysg, gan gynnwys gweithredu'r Cwricwlwm

i Gymru, sy'n pwysleisio hyblygrwydd, cynhwysiant a dulliau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Mae cefnogi'r newid hwn yn gofyn bod adnoddau perthnasol, o ansawdd uchel, ar gael y gellir eu haddasu i ddiwallu anghenion amrywiol dysgwyr, gan gynnwys rhai mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg a dwyieithog.

1.5 Ar yr un pryd, mae'r dirwedd llythrennedd yn gymhleth ac yn esblygu. Mae tystiolaeth yn amlygu dewis eang o adnoddau a mentrau llythrennedd, sy'n rhychwantu gwahanol grwpiau oedran, lleoliadau a modelau cyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys ymyriadau llythrennedd strwythuredig sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau, a mentrau sy'n anelu at ennyn diddordeb, cymhelliant a darllen er pleser.

1.6 Mae deilliannau llythrennedd yn aml-ddimensiwn. Yn ogystal â sgiliau craidd fel cywirdeb darllen, rhuglder, dealltwriaeth ac ysgrifennu, maent hefyd yn cynnwys ymddygiadau ac agweddau ehangach, megis hyder, cymhelliant, amlder darllen, a mynediad at ddeunyddiau darllen. Mae'r deilliannau hyn yn rhyng-gysylltiedig, gan adlewyrchu'r berthynas rhwng sgiliau llythrennedd, ymddygiadau darllen, a deilliannau addysgol a llesiant ehangach.

Heriau mewn llythrennedd a darllen er pleser

1.7 Mae sawl her sy'n gysylltiedig â llythrennedd a darllen er pleser. Mae llwyddiant i ennyn diddordeb yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys ar fod adnoddau a deunyddiau priodol ar gael, gallu ymarferwyr, a chefnogaeth gan deuluoedd a chymunedau.

1.8 Roedd yr ymchwil hwn yn ymateb i heriau a nodwyd ar ddechrau'r prosiect, gan gynnwys:

- yr angen i fapio tirwedd amrywiol ac esblygol o adnoddau ac ymyriadau llythrennedd;
- yr angen i gyd-drafod yn effeithiol ag ymarferwyr, dysgwyr a theuluoedd ar draws gwahanol gyd-destunau a chyfryngau iaith;

- a'r angen i fanteisio ar dystiolaeth ryngwladol, yn enwedig o gyd-destunau dwyieithog, i arwain dulliau sy'n berthnasol i Gymru.

1.9 Roedd hefyd angen cydnabyddedig i ddeall yn well sut a pham mae gwahanol grwpiau yn ymwneud â mentrau llythrennedd, gan gynnwys y rhwystrau a'r galluogwyr sy'n dylanwadu ar gyfranogiad ac effaith.

Nodau ac amcanion yr ymchwil

1.10 Nod cyffredinol yr ymchwil hwn oedd cefnogi'r gwaith o gomisiynu adnoddau llythrennedd Adnodd yn y dyfodol trwy ddatblygu sylfaen dystiolaeth gadarn.

1.11 Yn benodol, roedd yr ymchwil yn ceisio:

- asesu effeithiolrwydd adnoddau, ymyriadau a rhaglenni llythrennedd wrth wella deilliannau llythrennedd;
- canfod yr arferion gorau yn rhyngwladol, yn enwedig o gyd-destunau dwyieithog, a allai arwain datblygiad adnoddau yng Nghymru;
- archwilio sut mae ymarferwyr, dysgwyr a theuluoedd yn ymwneud â mentrau llythrennedd, gan gynnwys y rhai sy'n hyrwyddo darllen er pleser;
- canfod rhwystrau a galluogwyr i ymwneud â'r mentrau hyn a ffactorau sy'n effeithio ar eu heffaith.

Trosolwg o'r dull ymchwil

1.12 Er mwyn ymdrin â'r nodau hyn, mabwysiadodd yr ymchwil ddull cymysg, wedi'i strwythuro ar draws dwy elfen ryng-gysylltiedig:

- Rhan 1: adolygiad systematig o dystiolaeth bresennol ar adnoddau, ymyriadau a rhaglenni llythrennedd, gan gynnwys enghreifftiau rhyngwladol;
- Rhan 2: ymchwil profiad defnyddiwr sy'n archwilio ymwneud â mentrau llythrennedd ymhlith ymarferwyr, dysgwyr a theuluoedd.

1.13 Cynlluniwyd y ddwy elfen hyn fel eu bod yn ategu ei gilydd. Mae canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth yn gosod y cyd-destun ar gyfer yr ymchwil empirig, tra bod yr ymchwil profiad defnyddwyr yn dangos sut mae mentrau llythrennedd yn cael eu profi yn ymarferol, gan gynnwys y ffactorau sy'n dylanwadu ar gyfranogi ac ar eu heffaith ganfyddedig.

Strwythur yr adroddiad

1.14 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Adran 2: Methodoleg – yn amlinellu'r dulliau dylunio ymchwil, casglu data a dadansoddi;
- Adran 3: Canfyddiadau – yn cyflwyno tystiolaeth o'r adolygiad llenyddiaeth a'r ymchwil profiad defnyddiwr;
- Adran 4: Casgliadau ac Argymhellion – yn tynnu'r hyn a ddysgwyd at ei gilydd a nodi goblygiadau ar gyfer comisiynu adnoddau llythrennedd yn y dyfodol.

2. Methodoleg

2.1 Fe wnaeth yr ymchwil hwn fabwysiadu dull cymysg sy'n cynnwys dau faes cyflenwol o waith, a wnaed law yn llaw â'i gilydd:

- Rhan 1: adolygiad tystiolaeth strwythuredig, yn archwilio ymchwil a wnaed eisoes ar adnoddau, ymyriadau a rhaglenni llythrennedd
- Rhan 2: ymchwil i brofiad defnyddwyr, yn archwilio sut mae ymarferwyr, dysgwyr a theuluoedd yn ymwneud â mentrau llythrennedd yn ymarferol.

2.2 Cynlluniwyd y ddau faes hyn i ymdrin ag agweddau gwahanol ond cysylltiedig ar nodau yr ymchwil. Roedd yr adolygiad tystiolaeth strwythuredig yn dadansoddi'r wybodaeth bresennol ar "beth sy'n gweithio", tra bod yr ymchwil profiad defnyddiwr yn rhoi darlun o sut mae adnoddau a rhaglenni llythrennedd yn cael eu cyrchu, eu defnyddio a'u profi ledled Cymru.

Rhan 1: adolygiad tystiolaeth strwythuredig

2.3 Roedd yr adolygiad tystiolaeth strwythuredig yn cynnwys proses systematig o nodi a chyfuno llenyddiaeth berthnasol ar adnoddau, ymyriadau a rhaglenni llythrennedd.

2.4 Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio'n bennaf ar lenyddiaeth a gyhoeddwyd o 2020 ymlaen, er bod ffynonellau dethol o 2010-2020 hefyd wedi'u cynnwys lle'r oedd hynny'n briodol. Rhoddwyd blaenoriaeth i dystiolaeth o Gymru, ochr yn ochr â gwledydd neu ranbarthau dethol a nodwyd fel enghreifftiau o'r arferion gorau neu fel rhai sy'n berthnasol i gyd-destun Cymru, yn enwedig mewn perthynas ag addysg ddwyieithog. Roedd chwiliadau'n cael eu harwain gan gyfuniadau o dermau sy'n ymwneud â sgiliau darllen, cyfarwyddyd darllen, ymyriadau darllen, rhaglenni darllen, rhaglenni addysgu, darllen er pleser, mwynhau darllen, deilliannau llythrennedd, sgiliau llythrennedd, dealltwriaeth darllen, datblygiad darllen, hyrwyddo llythrennedd, darllenwyr newydd, rhoi llyfrau fel anrhegion, mynediad

at lyfrau, darllen llyfrau ar y cyd, darllen llyfrau rhyngweithiol, rhaglenni darllen llyfrgelloedd, cymorth darllen digidol a seiliedig ar dechnoleg, asesiadau darllen rhyngwladol, deilliannau llythrennedd rhyngwladol, llythrennedd wedi pandemig, addysg wedi pandemig, llythrennedd dwyieithog, llythrennedd amlieithog, llythrennedd lluosieithog, ail iaith, PISA, yn ogystal â chynlluniau llyfrau penodol (Bookseed, Bookstart etc.). Roedd chwiliadau wedi'u targedu ac yn ailadroddus, gyda ffynonellau ychwanegol wedi'u nodi trwy lwybrau dyfynnu a chwiliadau dilynol ynghylch gwledydd a rhaglenni perthnasol.

2.5 Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y canlynol:

- tystiolaeth sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ymyriadau llythrennedd ar draws gwahanol grwpiau oedran
- rhaglenni a mentrau sy'n hyrwyddo darllen er pleser
- enghreifftiau rhyngwladol, gan gynnwys cyd-destunau dwyieithog ac amlieithog
- tystiolaeth sy'n berthnasol i'r cyd-destun Cymreig pan fo ar gael.

2.6 Roedd y ffynonellau yn cynnwys llenyddiaeth academaidd, adroddiadau gwerthuso, dogfennau polisi a thystiolaeth rhaglenni. Rhoddodd yr adolygiad bwyslais arbennig ar nodi tystiolaeth a oedd yn tynnu sylw at ganlyniadau llythrennedd craidd a deilliannau ennyn diddordeb ehangach, gan gynnwys ymddygiadau darllen, cymhelliant a mynediad at adnoddau.

2.7 Defnyddiwyd canfyddiadau'r adolygiad tystiolaeth ar gyfer:

- sefydlu fframwaith cysyniadol i ddeall deilliannau llythrennedd
- canfod themâu a dulliau effeithiol ar draws grwpiau oedran
- arwain y gwaith o gynllunio offer ymchwil sylfaenol a chanllawiau pwnc.

Rhan 2: ymchwil i brofiad defnyddwyr

2.8 Roedd yr ymchwil i brofiad defnyddwyr yn archwilio sut mae adnoddau a mentrau llythrennedd yn cael eu profi yn ymarferol gan ymarferwyr, dysgwyr a theuluoedd. Aethpwyd ati mewn modd aml-ddull ansoddol, gyda chefnogaeth arolwg ar raddfa fach.

2.9 Cynlluniwyd y gwaith maes i ddangos amrywiaeth o safbwyntiau ar draws grwpiau rhanddeiliaid ac archwilio:

- ymwybyddiaeth o raglenni ac adnoddau llythrennedd a'r defnydd ohonynt
- profiadau o ymwneud â mentrau darllen er pleser
- rhwystrau a galluogwyr sy'n effeithio ar gyfranogiad ac effaith
- gwahaniaethau rhwng cyfrwng iaith, lleoliad a graddau o ddiddordeb.

Samplu a recriwtio

2.10 Cafodd cyfranogwyr eu recriwtio trwy gyfuniad o ddulliau, yn rhai wedi'u targedu a rhai agored:

- cafodd rhanddeiliaid cwmpasu eu recriwtio trwy rwydweithiau Adnodd a chysylltiadau rhanddeiliaid
- cafodd ymarferwyr eu recriwtio trwy arolwg sgrinio a rannwyd trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol
- cafodd rhieni a gofalwyr eu recriwtio gan DJS Research trwy ddefnyddio cyfuniad o'u cronfa ddata bresennol a recriwtio cyfranogwyr ychwanegol
- Cafodd dysgwyr eu recriwtio trwy gysylltu'n uniongyrchol ag ysgolion ar sail oedran, cyfrwng iaith yr ysgol, a lleoliad.

2.11 Dosbarthwyd yr arolwg ymarferwyr i'r holl ymatebwyr i'r arolwg sgrinio o ymarferwyr na chafodd eu dewis ar gyfer cyfweliadau.

Dulliau gwaith maes

2.12 Roedd y gwaith maes yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- cyfweliadau â rhanddeiliaid (n=16)
- cyfweliadau ag ymarferwyr (n=16)
- arolwg ar-lein o ymarferwyr (n=12)

- grwpiau ffocws dysgwyr (n=3)
  - Un ysgol gynradd gyfrwng Cymraeg yng ngogledd-ddwyrain Cymru a gyflwynwyd gan Plant yng Nghymru (12 o gyfranogwyr)
  - Un ysgol gynradd gyfrwng Saesneg yn ne-ddwyrain Cymru a gyflwynwyd gan Plant yng Nghymru (18 o gyfranogwyr)
  - Un ysgol uwchradd gyfrwng Saesneg yn ne-ddwyrain Cymru a gyflwynwyd gan Miller Research (11 o gyfranogwyr).
- grwpiau ffocws rhieni / gofalwyr (n=6)
  - Grŵp 1: Saesneg, profiad/mynediad llythrennedd uchel (9 o gyfranogwyr)
  - Grŵp 2: Saesneg, profiad/mynediad llythrennedd isel (8 o gyfranogwyr)
  - Grŵp 3: Cymraeg, profiad/mynediad llythrennedd uchel (10 o gyfranogwyr)
  - Grŵp 4: Cymraeg, profiad/mynediad llythrennedd isel (9 o gyfranogwyr)
  - Grŵp 5: Saesneg, profiad/mynediad llythrennedd uchel (10 o gyfranogwyr)
  - Grŵp 6: Saesneg, profiad/mynediad llythrennedd isel (8 o gyfranogwyr).

2.13 Roedd grwpiau ffocws gyda rhieni a gofalwyr wedi eu strwythuro fel eu bod yn dangos amrywiaeth o safbwyntiau. Cynhaliwyd chwe sesiwn, gan gynnwys:

- pedwar wedi'u cyflwyno yn Saesneg a 2 yn Gymraeg
- grwpiau a gategoreiddiwyd fel rhai llythrennedd uwch neu lythrennedd is, yn seiliedig ar ymddygiadau a hunan-adroddwyd, gan gynnwys p'un a oedd eu plentyn(plant) yn y mis blaenorol wedi:
  - darllen llyfrau'n annibynnol
  - cael oedolyn neu riant yn darllen iddynt

- ymweld â llyfrgell neu ddewis llyfrau yn ystod y mis blaenorol.

2.14 Defnyddiwyd y dosbarthiad hwn i archwilio gwahaniaethau mewn ymwneud â llythrennedd a darllen er pleser.

Dadansoddi data

2.15 Dadansoddwyd data ansoddol o gyfweliadau a grwpiau ffocws gan ddefnyddio dadansoddiad thematig. Roedd hyn yn cynnwys:

- codio data i nodi themâu a phatrymau ailadroddus
- cymharu ymatebion ar draws gwahanol grwpiau cyfranogwyr
- canfod rhwystrau, galluogwyr a meysydd o brofiad cyffredin

2.16 Defnyddiwyd data meintiol o'r arolwg ymarferwyr i roi cyd-destun ychwanegol ac i helpu i ddehongli canfyddiadau ansoddol.

2.17 Dadansoddwyd canfyddiadau o'r adolygiad tystiolaeth strwythuredig a'r ymchwil profiad defnyddwyr ar wahân ac yna eu cymryd at ei gilydd i nodi elfennau o gysondeb ac o wahaniaeth rhwng tystiolaeth yn deillio o lenyddiaeth a thystiolaeth o brofiad bywyd.

Cyfyngiadau

2.18 Roedd yr ymchwil hwn yn ansoddol ei natur yn bennaf a'i fwriad oedd rhoi darluniau enghreifftiol manwl yn hytrach na chanfyddiadau ystadegol gynrychioliadol. Roedd maint y sampl ar gyfer yr arolwg ymarferwyr islaw'r targed.

2.19 Cafodd cyfranogwyr eu recriwtio trwy gyfuniad o rwydweithiau, cyfryngau cymdeithasol a phaneli ymchwil, a allai olygu bod y rhai a gymerodd ran yn ymwneud yn fwy â llythrennedd neu'n fwy parod i gymryd rhan mewn ymchwil na'r boblogaeth ehangach. Yn ogystal, cafodd ymatebion sy'n ymwneud â lefelau ymwneud â llythrennedd eu hunan-adrodd.

2.20 Ar gyfer Rhan 1, mae'r adolygiad tystiolaeth strwythuredig yn defnyddio amrywiaeth eang o astudiaethau a gwerthusiadau rhaglenni sydd ar gael eisoes. Mewn rhai achosion, roedd gwerthusiadau wedi'u cynnal neu eu comisiynu gan sefydliadau sy'n ymwneud â chynllunio neu

gyflwani rhaglenni, ac nid oedd eu hawduraeth bob amser yn gwbl annibynnol. Roedd y corff o dystiolaeth hefyd yn cynnwys cyfran uchel o ffynonellau a gynhyrchwyd gan gyhoeddwyr neu sefydliadau sydd â budd uniongyrchol mewn hyrwyddo mentrau darllen. Er bod y ffynonellau hyn yn rhoi darlun gwerthfawr, gall hyn gyflwyno tuedd posibl yn y dystiolaeth sydd ar gael.

2.21 Cymharol gyfyngedig hefyd yw'r dystiolaeth sy'n benodol i Gymru yn unig, gyda llawer o'r llenyddiaeth sydd ar gael wedi'i dynnu o gyd-destunau ledled y DU neu ryngwladol. O ganlyniad, dylid ystyried yn ofalus wrth drosglwyddo rhai canfyddiadau i gyd-destun Cymru.

3. Canfyddiadau

Deilliannau llythrennedd

3.1 At ddibenion yr ymchwil hwn, caiff canlyniad llythrennedd ei ddeall fel newid mesuradwy neu arsylwadwy mewn sgiliau llythrennedd, ymddygiad, hyder, cymhelliant, mynediad at lythrennedd neu weithgarwch llythrennedd ymhlith plant a phobl ifanc. Nid yw deilliannau llythrennedd wedi'u cyfyngu i welliannau mewn cyrhaeddiad ffurfiol neu sgoriau prawf. Maent hefyd yn cynnwys yr amodau ehangach sy'n galluogi plant a phobl ifanc i ddod yn ddarllenwyr, awduron a chyfathrebwyr hyderus, rheolaidd a llawn cymhelliant.

3.2 Mae'r diffiniad ehangach hwn yn bwysig oherwydd bod y dystiolaeth a adolygwyd yn dangos bod datblygiad llythrennedd yn dibynnu ar gyfuniad o ffactorau, rhai sy'n seiliedig ar sgiliau a rhai cymdeithasol, diwylliannol a chyd-destunol. Mae gwelliannau mewn rhuglder darllen, dealltwriaeth, geirfa ac ysgrifennu yn parhau i fod yn ganolog. Fodd bynnag, mae deilliannau fel mwynhad darllen, perchnogaeth llyfrau, arferion darllen teuluol, hyder dwyieithog, mynediad at adnoddau priodol, hunaniaeth a llesiant dysgwyr hefyd yn ddangosyddion pwysig o ran pa mor debygol yw ymyriadau llythrennedd o gael effaith ystyrlon a pharhaus.

3.3 Gellir dosbarthu'r deilliannau yn 3 maes er mwyn deall sut y gall adnoddau, rhaglenni ac ymyriadau wella llythrennedd.

3.4 Deilliannau craidd:

- Sgiliau a chyrhaeddiad darllen: cywirdeb darllen, rhuglder, dealltwriaeth, dadgodio, sgimio, sganio, ffurfio casgliadau, gwerthuso a darllen ar draws y cwricwlwm.
- Sgiliau llythrennedd sylfaenol: ymwybyddiaeth ffonolegol, ymwybyddiaeth ffonemig, adnabod llythrennau, enwi cyflym, adnabod geiriau, parodrwydd darllen cynnar a datblygiad iaith cynnar.

- Iaith, geirfa a llafaredd: ehangder geirfa, iaith lafar, cyfathrebu, siarad, gwrando, trafodaeth, hunanfynegiant a hyder mewn cyfathrebu llafar.
- Ysgrifennu a sillafu: sillafu, gramadeg, trawsgrifio, adeiladu brawddegau, cyfansoddi ysgrifennu, drafftio, adborth, creadigrwydd a hunanfynegiant ysgrifenedig.
- Llythrennedd digidol a'r cyfryngau: ymwneud ag e-lyfrau, testunau digidol, testun-i-leferydd, darllen ar-lein, offer llythrennedd a gefnogir gan ddeallusrwydd artiffisial (AI) a chydbwysedd rhwng darllen print a digidol.

3.5 Deilliannau o ran gweithgarwch ac ymddygiad:

- Darllen er pleser: mwynhad, cymhelliant, diddordeb, hunaniaeth ddarllen, agweddau cadarnhaol at lyfrau a pharodrwydd neu awydd i ddarllen yn annibynnol.
- Ymddygiadau ac arferion darllen: amlder darllen, darllen dyddiol, darllen ar y cyd, perchnogaeth llyfrau, defnyddio llyfrgelloedd, arferion darllen a chynnal diddordeb dros amser.
- Llythrennedd teuluol a chartref: rhiant yn darllen i blentyn, rhannu straeon, caneuon a rhigymau, hyder rhieni wrth ddarllen, arferion dysgu gartref a mynediad at lyfrau gartref.
- Deilliannau ehangach dysgwyr: hyder, llesiant, perthyn, hunanreoleiddio, gallu dysgwyr, hunaniaeth, cymhelliant, cyfranogiad ac ymwneud â'r ysgol.

3.6 Tegwch a deilliannau cyd-destunol

- Llythrennedd dwyieithog ac amlieithog: dwylythrennedd Cymraeg-Saesneg, trosglwyddo traws-ieithyddol, amlygiad iaith, hyder darllen Cymraeg, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chymorth i ddysgwyr amlieithog.
- Tegwch a mynediad: gwell mynediad at lyfrau, llyfrgelloedd, adnoddau digidol a chymorth llythrennedd i ddysgwyr yr effeithir arnynt gan dlodi, ADY, profiad gofal, cefndir iaith neu adnoddau cartref cyfyngedig.

Blynyddoedd cynnar

3.7 Prif fwriad ymyriadau llythrennedd ar gyfer plant 0 i 3 oed yw adeiladu'r sylfeini ar gyfer iaith, darllen a dysgu yn ddiweddarach. Ar yr oedran hwn, nid yw ymyriadau yn canolbwyntio ar addysg ddarllen ffurfiol. Yn hytrach, maent yn anelu at gryfhau'r amgylchedd llythrennedd cartref cynnar trwy annog rhieni a gofalwyr i siarad, canu, rhannu llyfrau a straeon, ac adeiladu arferion cadarnhaol ynghylch iaith a darllen o fisoedd cynnar bywyd.

3.8 Mae tystiolaeth o astudiaethau carfannau hydredol yn tynnu sylw at bwysigrwydd darllen ar y cyd yn gynnar. Canfu dadansoddiad o'r set ddata Growing Up in Ireland fod plant y darllenwyd iddynt yn 9 mis yn dangos geirfa fynegiannol gryfach yn 36 mis oed, hyd yn oed ar ôl rheoli ffactorau cymdeithasol-ddemograffig a llythrennedd cartref.

3.9 Yn yr un modd, canfu tystiolaeth hydredol o'r Quebec Longitudinal Study of Child Development fod cyfoethogi llythrennedd cartref cynnar yn ddwy oed yn gysylltiedig â lefelau uwch o frwdfrydedd yn yr ystafell ddosbarth a'r ysgol yn ddiweddarach yn ystod plentyndod a glasoed.

3.10 Prif bwrpas ymyriadau llythrennedd ar gyfer y grŵp oedran hwn yw creu'r amodau lle gall iaith a llythrennedd cynnar ddatblygu. Mae hyn yn cynnwys cefnogi'r plentyn a'r oedolion o'u cwmpas.

3.11 Mae'r dibenion yn cynnwys:

- datblygu iaith, geirfa, lleferydd a chyfathrebu cynnar
- annog darllen, caneuon, rhigymau, straeon a sgwrsio ar y cyd
- adeiladu cysylltiadau cadarnhaol â llyfrau a darllen
- cryfhau'r cwlwm rhwng gofalwr a phlentyn a rhyngweithio ymatebol
- cynyddu mynediad at lyfrau ac adnoddau llythrennedd yn y cartref
- cefnogi rhieni a gofalwyr i deimlo'n hyderus yn rhannu llyfrau a straeon

- helpu teuluoedd i sefydlu arferion darllen a rhannu straeon rheolaidd
- lleihau anghydraddoldeb cynnar cyn i blant ddechrau'r ysgol
- cefnogi parodrwydd ysgol a datblygiad llythrennedd yn ddiweddarach

3.12 Mae gwerthusiadau o raglenni blynyddoedd cynnar yn rhoi darlun ymarferol o'r deilliannau hyn. Er enghraifft, canfu'r rhaglen Bookseed yn Iwerddon fanteision sy'n ymwneud â pherthynas gofalwr a phlentyn, datblygiad iaith ac ymwneud cynnar â llyfrau, gyda rhieni yn adrodd am fwy o fwynhad o ddarllen ar y cyd ac ymddygiadau darllen amlach.

3.13 Yn yr un modd, mae tystiolaeth yn y DU o'r rhaglenni BookTrust , gan gynnwys Bookstart a Storytime, yn dangos bod darllen cynnar ar y cyd yn helpu i ddyfnhau perthynas, cyfathrebu, a datblygiad cynnar, yn enwedig i deuluoedd ar incwm isel a'r rhai sy'n wynebu anfantais.

3.14 Yn y DU ac yn rhyngwladol, mae ymyriadau ar gyfer plant 0 i 3 oed fel arfer yn cael eu cyflawni trwy rieni, gofalwyr a gwasanaethau blynyddoedd cynnar dibynadwy, yn hytrach nag yn uniongyrchol i blant trwy addysgu ffurfiol.

3.15 Mae'r modelau cyflawni mwyaf cyffredin yn cynnwys:

- cynlluniau anrhegu llyfrau
- canllawiau ac arddangosiadau darllen ar y cyd
- cyflawni drwy llyfrgelloedd neu leoliadau iechyd cyhoeddus
- rhaglenni cymorth i rieni
- ymyriadau amgylchedd dysgu cartref

3.16 Mae anrhegu llyfrau fel anrhegion yn ddull cyffredin. Ledled y DU, mae Bookstart yn darparu llyfr a deunyddiau darllen i deuluoedd ynghyd ag arddangosiad byr o ddarllen ar y cyd gan yr ymwelydd iechyd. Yng Nghymru mae hyn yn ystod ymweliad iechyd i bob plentyn pan fo'n 6 mis a 27 mis oed, yn Lloegr mae pob plentyn yn gymwys rhwng 0 a 12 mis oed gyda'r cyflwyno yn amrywio'n lleol, ac yng Ngogledd Iwerddon mae hyn yn cael ei gyflwyno gan ymwelwyr iechyd yn ystod y 12 mis

cyntaf. Yn yr Alban yr hyn sy'n cyfateb yw Bookbug gyda Bag Baban pan fo'n bythefnos i 5 wythnos oed a Bag Plentyn Bach yn 13 i 15 mis oed, fel arfer yn cael ei roi gan ymwelydd iechyd. Dyma enghraifft o sut y gellir integreiddio rhoi llyfrau'n anrheg ag ymweliadau presennol gweithwyr iechyd cyhoeddus.

3.17 Mae modelau eraill o roi llyfrau fel anrhegion yn gweithredu dros gyfnod hirach. Mae gwerthusiad o Lyfrgell Dychymyg Dolly Parton mewn dinas ddifreintiedig yn Lloegr, yn cymharu teuluoedd a oedd wedi derbyn llyfrau am wahanol gyfnodau o amser gyda theuluoedd nad oeddent yn rhan o'r rhaglen. Roedd y rhaglen yn darparu llyfrau o enedigaeth i 5 oed, gyda'r nod o ddylanwadu ar ddiddordeb plant mewn gweithgareddau llythrennedd ac ymddygiadau rhieni'n darllen i blant.

3.18 Roedd Bookseed yn lwerddon hefyd yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus dibynadwy fel llwybrau darparu. Cyflwynwyd y rhaglen trwy wiriadau iechyd babanod ac roedd yn cynnwys nyrsys iechyd cyhoeddus a llyfrgellwyr, gyda data wedi'i gasglu gan rieni a rhanddeiliaid yn ystod blwyddyn gyntaf bywyd baban.

3.19 Mae cymorth ar gyfer darllen ar y cyd yn fodel cyflawni pwysig arall. Profodd Noble et al. (2020) yn Lloegr ymyriadau darllen rhyngweithiol gyda phlant rhwng 2 a hanner oed a 3 oed . Canfu'r astudiaeth fod gofalwyr o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol yn gallu mabwysiadu ymddygiadau darllen rhyngweithiol ar y cyd, gan awgrymu y gall y model hwn ddylanwadu ar arfer oedolion yn llwyddiannus ar draws cyd-destunau teuluol amrywiol.

3.20 Fodd bynnag, dylid nodi nad oedd hyn yn cynhyrchu effaith fesuradwy sylweddol ar sgiliau iaith plant o fewn cyfnod yr astudiaeth. Er y gall ymyriadau darllen ar y cyd fod yn effeithiol wrth newid ymddygiad gofalwyr, dengys hyn y gallai gwelliannau mewn deilliannau iaith plant ofyn am weithredu mwy hirdymor, mwy o ddwysedd, neu gymorth ychwanegol cyn y gellir canfod effeithiau mesuradwy.

3.21 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y dulliau mwyaf effeithiol ar gyfer y grŵp oedran hwn yn canolbwyntio ar gryfhau'r amgylchedd llythrennedd

yn y cartref. Mae deilliannau yn cael eu gweld yn fwyaf cyson mewn ymddygiadau rhieni a theuluoedd, gan gynnwys cynnydd mewn amlder darllen, gwell hyder, ac arferion darllen mwy strwythuredig.

3.22 Mae'r casgliad o'r adolygiad llenyddiaeth ar raglenni llythrennedd blynyddoedd cynnar yn amlygu pwysigrwydd y canlynol:

3.23 Dechrau'n gynnar: Mae tystiolaeth o astudiaethau hydredol yn dangos bod ymddygiadau darllen cynnar (e.e. darllen i blant yn 9 mis oed) yn gysylltiedig â datblygiad geirfa dda mewn blynyddoedd dilynol. Mae tystiolaeth rhaglenni y DU, gan gynnwys Bookstart, yn dangos bod teuluoedd sy'n dechrau darllen yn gynharach yn fwy tebygol o gynnal arferion darllen dros amser.

3.24 Cyfuno mynediad at lyfrau â chanllawiau: Mae ymyriadau sy'n cyfuno darparu llyfrau â chanllawiau i rieni a gofalwyr yn fwy effeithiol na darparu llyfrau yn unig. Mae'r treial Bookstart+ yng Ngogledd Iwerddon yn dangos sut y gall cyfuno rhoddion llyfrau gydag arddangosiad darllen ar y cyd ddylanwadu ar agweddau rhieni at ddarllen. Mae tystiolaeth gan Bookseed hefyd yn amlygu rôl ymarferwyr (e.e. gweithwyr iechyd a llyfrgellwyr) wrth gefnogi rhieni i ddefnyddio llyfrau yn effeithiol.

3.25 Canolbwyntio ar ddarllen teuluol a rhyngweithiol: Mae tystiolaeth o raglenni blynyddoedd cynnar yn dangos bod darllen ar y cyd yn cefnogi rhyngweithio rhwng gofalwr a phlentyn, gan gynnwys ymddygiadau ymatebol fel siarad, pwyntio ac ymateb i arwyddion y plentyn. Mae tystiolaeth rhaglenni'r DU, gan gynnwys raglenniBookTrust, yn pwysleisio bod darllen ar y cyd yn rhoi cyd-destun strwythuredig ar gyfer adeiladu perthynas a chefnogi dysgu cynnar.

3.26 Cefnogi rhieni a gofalwyr yn uniongyrchol: Mae tystiolaeth o raglenni'r DU, gan gynnwys y rhai a ddarperir gan BookTrust a'r Ymddiriedolaeth Llythrennedd Cenedlaethol, yn dangos y gall cefnogi rhieni a gofalwyr yn uniongyrchol gynyddu hyder, annog darllen yn amlach, a helpu teuluoedd i sefydlu arferion. Er enghraifft, mae ymyriadau penodol a gyflwynir gan yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol, gan gynnwys Early Words Together (Lloegr), Early Words Together at Two

(Lloegr), a First Words Together (Lloegr), yn darparu cymorth strwythuredig i wella'r amgylchedd dysgu cartref a datblygiad iaith cynnar.

3.27 Targedu teuluoedd sy'n wynebu rhwystrau: Mae tystiolaeth y DU yn amlygu'r ffaith bod rhwystrau i gymryd rhan yn cynnwys amser, cost, mynediad at adnoddau a darpariaeth leol gyfyngedig. Mae ymyriadau wedi'u targedu at deuluoedd sy'n wynebu'r rhwystrau hyn yn cynnwys rhaglenni a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Cenedlaethol (e.e. Early Words Together, Early Words Together at Two a First Words Together), ochr yn ochr ag elfennau wedi'u targedu o fewn darpariaeth BookTrust, megis pecynnau anghenion ychwanegol ac adnoddau dwy iaith o fewn Bookstart.

3.28 Cynnal cefnogaeth dros amser: Mae tystiolaeth hydredol a lled-arbrofol yn awgrymu bod ymwneud yn fwy hirdymor â chynlluniau anrhegu llyfrau yn gysylltiedig â rhyngweithiadau darllen amlach. Er enghraifft, roedd teuluoedd sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni hirdymor fel Llyfrgell Dychymyg Dolly Parton yn fwy tebygol o ddarllen bob dydd na'r rhai sy'n cymryd rhan am gyfnodau byrrach.

Dysgwyr oedran ysgol gynradd

3.29 I ddibenion yr adroddiad hwn, mae oedran ysgol gynradd yn cael ei drin fel oddeutu 3 i 11 oed, sy'n cwmpasu addysg cyn-ysgol a chynradd hyd at ddiwedd Blwyddyn 6. Mae'r dystiolaeth a ddyfynnir yn cyfeirio at blant rhwng 3 a 5, 5 i 7, 7 i 11, 5 i 11, 6 i 12, 7 i 11, a samplau ehangach o ysgolion cynradd.

3.30 Bwriad ymyriadau llythrennedd ar gyfer plant oedran ysgol gynradd yw cryfhau'r elfennau craidd, sef darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando, gan hefyd ddatblygu hyder, cymhelliant a mwynhad mewn llythrennedd. Yn wahanol i ymyriadau ar gyfer plant 0 i 3 oed, mae ymyriadau oedran ysgol gynradd yn aml yn cynnwys addysgu sgiliau llythrennedd, megis ffoneg, dadgodio, rhuglder, dealltwriaeth, geirfa, sillafu a chyfansoddi gwaith ysgrifenedig. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn dangos bod darllen er pleser yn gysylltiedig â gwell cyrhaeddiad llythrennedd,

datblygiad geirfa a deilliannauaddysgol ehangach. Dengys arolwg ledled y DU a thystiolaeth hydredol fod plant sy'n darllen yn rheolaidd er pleser yn fwy tebygol o berfformio'n dda mewn darllen ac ysgrifennu, ac o ddangos lefelau uwch o ymroddiad wrth ddysgu.

3.31 Prif ddiben ymyriadau llythrennedd yn ystod y blynyddoedd cynradd yw sicrhau bod plant yn datblygu'r sgiliau, yr hyder a'r arferion sydd eu hangen i ddod yn ddarllenwyr, awduron a chyfathrebwyr rhugl, llawn cymhelliant ac annibynnol. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth gyffredinol ar gyfer pob dysgwr a chymorth wedi'i dargedu ar gyfer plant sy'n cael anawsterau neu mewn perygl o syrthio'n ôl.

3.32 Mae'r dibenion yn cynnwys:

- datblygu siarad, gwrando, geirfa a dealltwriaeth ehangach o iaith
- addysgu ffoneg, dadgodio a chydnabod geiriau
- cefnogi rhuglder darllen a dealltwriaeth ddarllen
- datblygu sillafu, gramadeg, trawsgrifio ac adeiladu brawddegau
- cefnogi cyfansoddi, cynllunio, drafftio a golygu gwaith ysgrifenedig
- annog darllen er pleser a darllen annibynnol
- adeiladu hyder, cymhelliant a hunaniaeth ddarllen gadarnhaol
- gwella mynediad at lyfrau o ansawdd uchel ac apelgar
- cefnogi dysgwyr sydd ag ADY, dyslecsia, Saesneg fel Iaith Ychwanegol neu anghenion llythrennedd ychwanegol
- cefnogi datblygiad llythrennedd Cymraeg, Saesneg a dwyieithog
- lleihau bylchau sy'n gysylltiedig â thlodi, cefndir iaith, anghenion ychwanegol neu fynediad cyfyngedig at lyfrau yn y cartref

3.33 O fewn y Cwricwlwm i Gymru, mae llythrennedd wedi'i leoli fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu ac fel sgil trawsbynciol gorfodol. Mae hyn yn golygu bod disgwyl i ddatblygiad dysgwyr mewn gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu gael ei ddatblygu,

ei ymestyn a'i gymhwyso ar draws y cwricwlwm, yn hytrach na'i gyfyngu i un maes pwnc. I ddysgwyr sy'n gweithio o fewn Camau Dilyniant 1, 2 a 3, mae hyn yn darparu sylfaen glir ar gyfer dilyniant mewn iaith lafar, darllen ac ysgrifennu, gan gynnwys gallu dysgwyr i wrando ac ymateb, datblygu geirfa, deall a dehongli iaith lafar ac ysgrifenedig, darllen gyda mwy o hyder, ac ysgrifennu ar gyfer gwahanol ddibenion a chynulleidfaoedd. Mae canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru hefyd yn cydnabod ymwybyddiaeth ffonolegol a ffonomeg fel sgiliau gwybyddol pwysig wrth ddysgu darllen, ac yn rhoi pwyslais ar eu datblygu'n systematig.

3.34 Mae canllawiau'r Education Endowment Foundation (EEF) yn Lloegr yn dangos tystiolaeth ddefnyddiol ehangach sy'n gyson â phwyslais y Cwricwlwm i Gymru ar ddatblygiad iaith, darllen ac ysgrifennu. Er ei fod wedi'i strwythuro o amgylch system ysgolion Lloegr, mae ei ganllawiau ar gyfer Cyfnod Allweddol 1 (sy'n cyfateb i oedrannau dosbarth derbyn i Flwyddyn 2 yng Nghymru) yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu sgiliau siarad a gwrando dysgwyr, defnyddio dull cytbwys sy'n ennyn diddordeb mewn darllen, gweithredu ffoneg systematig, addysgu strategaethau dealltwriaeth darllen, cefnogi ysgrifennu, a defnyddio ymyriadau strwythuredig o ansawdd uchel ar gyfer dysgwyr sy'n cael anawsterau. Yn yr un modd, mae ei ganllawiau ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 (sy'n cyfateb i Flynyddoedd 3 i 6 yng Nghymru) yn pwysleisio addysgu o ansawdd uchel, cyfleoedd helaeth i ymarfer darllen ac ysgrifennu, datblygu iaith, darllen rhugl, dealltwriaeth trwy fodelu ac ymarfer â chymorth, cyfansoddi gwaith ysgrifenedig, trawsgrifio a chymorth wedi'i dargedu ar sail anghenion disgyblion. Mae ei negeseuon craidd yn cefnogi pwynt mwy cyffredinol sy'n gyson â Chwricwlwm i Gymru. Mae datblygiad llythrennedd effeithiol yn dibynnu ar gefnogaeth ystyrlon a blaengar ar gyfer iaith lafar, darllen, dealltwriaeth ac ysgrifennu, law yn llaw â chymorth wedi'i dargedu lle bo angen cymorth ychwanegol ar ddysgwyr i gamu ymlaen.

3.35 Ar gyfer plant oedran cynradd, mae ymyriadau llythrennedd fel arfer yn cael eu cyflawni trwy gyfuniad o ddarpariaeth ysgol, cymorth wedi'i dargedu, a gwasanaethau cymunedol a llyfrgell ehangach.

3.36 Mae'r modelau cyflawnimwyaf cyffredin yn cynnwys:

- addysgu llythrennedd a chyflawni'r cwricwlwm yn yr ystafell ddosbarth
- ymyriadau grŵp bach neu un-i-un penodol
- rhaglenni ac ymgyrchoedd darllen er pleser
- mynediad at lyfrau a chynlluniau anrhegion
- darpariaeth llyfrgell a chymunedol
- mentrau cydweithio â rhieni a theuluoedd

3.37 Y dull canolog ar gyfer y grŵp oedran hwn yw addysgu llythrennedd mewn modd penodol, strwythurol ac uniongyrchol. Mae adolygiad Panel Ymgyngorol Tystiolaeth Addysg Fyd-eang (GEEAP) ar addysgu darllen effeithiol mewn gwledydd incwm isel a chanolig yn dod i'r casgliad bod cyfarwyddyd darllen strwythuredig, gyda chefnogaeth arweiniad athrawon a deunyddiau cysylltiedig, yn gwella deilliannau llythrennedd yn gyson. Er bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar dystiolaeth fyd-eang o gyd-destunau incwm isel a chanolig, mae ei bwyslais ar gyfarwyddyd penodol, deunyddiau cysylltiedig a chymorth athrawon yn berthnasol i ddatblygu adnoddau llythrennedd cynradd.

3.38 Ym mlynyddoedd cynnar addysg gynradd, yn aml mae addysgu llythrennedd strwythuredig yn cynnwys ymwybyddiaeth ffonolegol, ffoneg, dadgodio, adnabod geiriau a dealltwriaeth gynnar. Mae canllawiau Cyfnod Allweddol 1 EEF yn argymell ffoneg systematig, law yn llaw â siarad a gwrando, strategaethau dealltwriaeth a datblygu ysgrifennu. Ar gyfer plant rhwng 7 ac 11 oed, mae canllawiau Cyfnod Allweddol 2 EEF yn rhoi mwy o bwyslais ar ddarllen rhugl, dealltwriaeth darllen trwy fodelu ac ymarfer â chymorth, datblygu iaith, cyfansoddi ysgrifenedig a chymorth wedi'i dargedu i ddysgwyr sy'n cael anawsterau.

3.39 Llwybr cyflawni arall yw darllen er pleser a diwylliant darllen ysgol. Mae adroddiad Estyn yn 2021 ar gaffael yr iaith Gymraeg yn nodi strategaethau llwyddiannus ysgol-gyfan ar gyfer hyrwyddo darllen er pleser, gan gynnwys darllen i ddysgwyr, darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddarllen yn uchel, rhannu nofelau cyflawn a chaniatáu amser i ddarllen yn annibynnol bob dydd. Mae deunydd briffio y BookTrust (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon) yn 2024 ar allu darllen plant ysgol gynradd hefyd yn tynnu sylw at y rôl sylweddol y mae athrawon yn ei chwarae wrth feithrin mwynhad darllen. Mae'n nodi bod mwynhad plant o ddarllen yn lleihau wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol gynradd, a bod darllen ar y cyd a chymorth athrawon yn bwysig wrth feithrin mwynhad.

3.40 Dull arall yw mynediad at lyfrau a darpariaeth llyfrgelloedd. Canfu gwerthusiad Prydeinig yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Cenedlaethol, Libraries for Primaries fod buddsoddiad mewn llyfrgelloedd ysgolion, hyfforddiant athrawon ac adnoddau newydd wedi gwella darpariaeth llyfrgelloedd, mynediad plant at lyfrau o ansawdd uchel, mwynhad darllen, hyder ac amlder darllen. Canfu hefyd dystiolaeth addawol o well cyrhaeddiad darllen, yn enwedig i blant sydd â'r angen mwyaf am gefnogaeth.

3.41 Mae rhai ymyriadau yn defnyddio dulliau creadigol a pherfformiad. Canfu adolygiad systematig a meta-ddadansoddiad Mastrothanasis et al., gan edrych yn bennaf ar astudiaethau a gynhaliwyd yn America, law yn llaw â nifer llai o Asia ac Ewrop, fod Theatr y Darllenwyr yn cael effeithiau cadarnhaol ar sgiliau darllen, yn enwedig rhuglder a dadgodio, gydag effeithiau cadarnhaol ar ddealltwriaeth yn gyffredinol. Canfu hefyd effeithiau manteisiol ar gymhelliant, gweithgarwch a hyder darllen, gan awgrymu y gall dulliau creadigol gefnogi sgiliau llythrennedd craidd ac ymddygiadau darllen cadarnhaol.

3.42 Mae ymyriadau sy'n seiliedig ar dechnoleg hefyd yn ymddangos yn y dystiolaeth, er bod y canfyddiadau'n gymysg. Canfu meta-ddadansoddiad Alqahtani yn 2024, gan ddibynnu i raddau helaeth ar astudiaethau yn yr Unol Daleithiau gyda rhywfaint o dystiolaeth

ryngwladol ehangach, fod ymyriadau sy'n seiliedig ar dechnoleg ar gyfer dysgwyr oedran elfennol ag anawsterau darllen wedi cael effaith gadarnhaol gymedrol ar ganlyniadau darllen. Fodd bynnag, ni chanfu gwerthusiad gan Microsoft Immersive Reader yn ystafelloedd dosbarth Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4 y DU a gynhaliwyd gan RAND (sefydliad ymchwil dielw, amhleidiol yn yr Unol Daleithiau) unrhyw effaith sylweddol ar gyrhaeddiad darllen, gyda heriau wrth weithredu ymyriadau o'r fath gan gynnwys defnydd anghyson, hyfforddiant cyfyngedig i athrawon, diffyg adnoddau TG ac anawsterau technegol. Mae hyn yn awgrymu bod technoleg yn fwyaf tebygol o helpu pan fydd yn cael ei gweithredu'n dda, yn hygyrch, yn cael ei chefnogi gan hyfforddiant ac wedi'i integreiddio i arferion addysgu ehangach.

3.43 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod angen i ymyriadau llythrennedd oedran cynradd effeithiol gyfuno addysgu sgiliau penodol â chyfleoedd ar gyfer ymarfer, mwynhad, mynediad a chefnogaeth. Y sefyllfa lle mae effaith yn fwyaf tebygol yw pan fydd ymyriadau yn mynd i'r afael â deilliannau llythrennedd craidd a'r ffactorau gweithgarwch a thegwch ehangach sy'n dylanwadu ar ddatblygiad llythrennedd plant.

3.44 Y meysydd pwysig ar gyfer cymorth llythrennedd i blant oedran ysgol gynradd yw:

3.45 Addysgu darllen ac ysgrifennu mewn modd penodol a strwythuredig: Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cefnogi addysgu darllen ac ysgrifennu mewn modd penodol, strwythuredig trwy leoli llythrennedd fel sgil drawsgwricwlaidd gorfodol, gyda dilyniant wedi'i gynllunio mewn gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu, gan gynnwys iaith lafar, ymwybyddiaeth ffonolegol, strategaethau darllen, dealltwriaeth, sillafu, gramadeg ac ysgrifennu at wahanol ddibenion. Mae adroddiadau canllawiau Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 EEF ill dau yn pwysleisio addysgu elfennau llythrennedd craidd yn uniongyrchol, gan gynnwys ffoneg, dadgodio, dealltwriaeth, darllen rhugl, cyfansoddi ysgrifenedig, trawsgrifio ac adeiladu brawddegau. Yn yr un modd, mae adolygiad tystiolaeth GEEAP yn canfod bod cyfarwyddyd darllen

strwythuredig, arweiniad athrawon a deunyddiau cydnaws yn gysylltiedig â gwell deilliannau darllen.

3.46 Asesu anghenion disgyblion a thargedu cymorth yn ofalus: Mae canllawiau EEF yn argymell defnyddio gwybodaeth o ansawdd uchel am alluoedd cyfredol dysgwyr i ddewis y camau nesaf ar gyfer addysgu a darparu ymyriadau strwythuredig i ddysgwyr sy'n cael anawsterau. Canfu Pegram et al. (2022), mewn astudiaeth o ymyriadau a ddefnyddiwyd mewn clwstwr o ysgolion yng Nghymru, mai cyfyngedig yw tystiolaeth gyhoeddedig o effaith achosol llawer o ymyriadau ysgol, gan dynnu sylw at yr angen i ysgolion ddewis ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth gryfach a chysylltiadau cliriach â deilliannau dysgwyr.

3.47 Datblygu mwynhad darllen law yn llaw â sgiliau darllen: Mae tystiolaeth Aerila a Merisuo-Storm o'r Ffindir yn amlygu pwysigrwydd diddordeb, pleser, llwyddiant, lefelau darllen priodol, lleoedd darllen cyfforddus, amser i ganolbwyntio a gweithgareddau darllen cymdeithasol amrywiol. Mae Theatr y Darllenwyr hefyd yn ymddangos yn addawol oherwydd ei fod yn cefnogi rhuglder a dadgodio tra'n cryfhau cymhelliant, diddordeb a hyder. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu na ddylid trin addysgu sy'n seiliedig ar sgiliau a dulliau sy'n canolbwyntio ar fwynhad fel nodau ar wahân.

3.48 Gwella mynediad at lyfrau apelgar o ansawdd uchel: Canfu adroddiad 2025 yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Cenedlaethol ar berchnogaeth llyfrau plant a phobl ifanc fod cysylltiad cryf rhwng plant sydd â'u llyfrau eu hunain a mwy o fwynhad darllen, darllen amlach a hunan-ganfyddiad cryfach o'u gallu i ddarllen. Yn yr un modd, mae gwerthusiad Libraries for Primaries yn awgrymu y gall gwella llyfrgelloedd a mynediad at lyfrau gryfhau ymddygiadau darllen ac y gall gefnogi cyrhaeddiad, yn enwedig i ddysgwyr sydd â'r angen mwyaf am gefnogaeth.

3.49 Helpu athrawon ac ysgolion i greu diwylliant darllen parhaus: Mae papur briffio BookTrust yn 2024 ar allu darllen plant ysgol gynradd yn nodi bod athrawon yn ddylanwadol iawn wrth feithrin mwynhad darllen plant. Canfu adroddiad caffael yr iaith Gymraeg Estyn 2021 fod ysgolion

effeithiol yn blaenoriaethu meithrin cariad at ddarllen a llenyddiaeth trwy strategaethau ysgol gyfan, modelu rôl oedolion, darllen yn uchel, darllen yn annibynnol a chyflwyno testunau cyflawn. Fodd bynnag, mae Estyn hefyd yn rhybuddio y gellir tanseilio mwynhad darllen pan fydd ymarferwyr yn dibynnu mewn modd rhy anhyblyg ar gynlluniau darllen neu pan nad oes strategaeth ysgol gyfan ar gyfer dadgodio, geirfa nac ymateb i destunau.

3.50 Cefnogi arferion llythrennedd teuluol a chartref: Fel mewn plant oedran iau, mae darllen ar y cyd, hyder rhieni a mynediad at lyfrau yn bwysig er mwyn adeiladu arferion darllen parhaus ymhlith dysgwyr oedran ysgol gynradd. Er bod rhywfaint o'r dystiolaeth hon yn dechrau cyn yr ysgol gynradd, mae'n parhau i fod yn berthnasol i blant iau ysgolion cynradd, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio i'r ysgol pan fydd angen i rieni gydbwyso darllen a bennir gan yr ysgol â darllen ar y cyd er mwynhad.

3.51 Cynllunio ar gyfer cyd-destunau dwyieithog a Chymraeg: Canfu adroddiad Estyn yn 2021 ar gaffael y Gymraeg y gall lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ddatblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr yn llwyddiannus, ond roedd yn tynnu sylw hefyd at yr angen i feithrin mwynhad darllen, datblygu sgiliau darllen uwch a darparu cyfleoedd ar gyfer trawsieithu ar draws y cwricwlwm. Mae gwaith Hadden-Purnell yn 2025 ar ddysgwyr dwyieithog mewn addysg gynradd Gymraeg yn pwysleisio pwysigrwydd ystyried llythrennedd sylfaenol yn y Gymraeg a'r Saesneg, tra bod Rhys a Thomas (2013) yn dangos bod amlygiad i'r ddwy iaith a'u defnyddio yn chwarae rhan bwysig mewn geirfa a datblygiad darllen plant dwyieithog.

3.52 Sicrhau bod cymorth i ddysgwyr ag ADY, dyslecsia neu anghenion llythrennedd ychwanegol yn deg yn y Gymraeg a'r Saesneg: Mae tystiolaeth o Gymru (Packer a Rhys (2025) yn dangos prinder adnoddau Cymraeg, asesiadau safonedig ac ymarferwyr cymwys sy'n gallu siarad Cymraeg i gefnogi dysgwyr ag ADY, yn enwedig mewn llythrennedd. Yn yr un modd, mae Thomas et al. (2023) yn dadlau bod angen i offer a dulliau asesu ar gyfer plant dwyieithog ystyried ieithoedd a phroffiliau iaith unigol. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod angen i adnoddau

llythrennedd i Gymru fod yn hygyrch, yn ddwyieithog ac yn addas ar gyfer dysgwyr ag anghenion amrywiol.

Dysgwyr oedran ysgol uwchradd

3.53 Ar gyfer yr adroddiad hwn, caiff oedran ysgol uwchradd ei drin fel oddeutu 12 i 16 oed (sef oedran cwblhau addysg orfodol), tra'n cydnabod bod sawl ffynhonnell berthnasol yn defnyddio ystodau oedran sy'n gorgyffwrdd megis 10 i 14, 11 i 16, 13 i 18, 15 oed, neu Flynyddoedd saith i 13. Felly, mae'r dystiolaeth yn fwyaf perthnasol i ddysgwyr yn y cyfnod pontio o ddosbarthiadau uwch yr ysgol gynradd i dosbarthiadau gwaelod ysgolion uwchradd, ac ar draws prif flynyddoedd ysgol uwchradd.

3.54 Bwriad ymyriadau llythrennedd i ddysgwyr oedran uwchradd yw helpu pobl ifanc i ddarllen, ysgrifennu, siarad a gwrando yn hyderus ar draws y cwricwlwm, gan hefyd fynd i'r afael â'r dirywiad mewn mwynhad darllen a'r lleihad mewn gweithgarwch o wirfodd sy'n digwydd yn aml yn ystod y glasoed. Ar y cam hwn, mae llythrennedd yn ymwneud â mwy na dysgu darllen, gan ei fod hefyd ynghylch darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando mewn ffyrdd cynyddol gymhleth ar draws pynciau, fformatau a chyd-destunau.

3.55 Prif ddiben ymyriadau llythrennedd yn ystod blynyddoedd ysgol uwchradd yw sicrhau bod dysgwyr yn gallu cyrchu, deall a chyfleu gwybodaeth ar draws y cwricwlwm, gan hefyd gynnal cymhelliant a hyder fel darllenwyr, awduron a chyfathrebwyr.

3.56 Mae'r dibenion yn cynnwys:

- gwella dealltwriaeth darllen, rhuglder, geirfa a sgiliau darllen uwch
- helpu dysgwyr i ddarllen testunau cynyddol gymhleth penodol i bwnc
- cryfhau ansawdd ysgrifennu, cynllunio, drafftio, gramadeg, sillafu a chyfansoddi
- datblygu sgiliau siarad, gwrando, trafod, cyflwyno a hunanfynegiant

- cefnogi darllenwyr sy'n cael anawsterau, yn enwedig wrth bontio i'r ysgol uwchradd
- cynnal darllen er pleser yn ystod y glasoed
- adeiladu hyder, cymhelliant, hunaniaeth ac annibyniaeth dysgwyr
- lleihau bylchau sy'n gysylltiedig â thlodi, rhywedd, ADY, cefndir iaith neu fynediad at lyfrau
- cefnogi datblygiad llythrennedd Cymraeg, Saesneg, dwyieithog ac amlieithog
- helpu dysgwyr i ymdrin yn feirniadol â thestunau digidol ac offer llythrennedd a gefnogir gan AI

3.57 Mae adroddiadau Estyn ar fedrau darllen Cymraeg a Saesneg o 10 i 14 oed yn dangos pam fod y cyfnod hwn yn bwysig. Canfu'r adroddiad darllen Saesneg fod llawer o ddysgwyr yn defnyddio sgiliau darllen sylfaenol, megis sgimio, sganio a lleoli gwybodaeth, ond dim ond tua'u hanner sy'n defnyddio sgiliau darllen uwch yn hyderus. Canfu hefyd fod mwynhad darllen yn gostwng i'r mwyafrif o ddysgwyr rhwng 10 a 14 oed. Daeth yr adroddiad darllen Cymraeg i gasgliadau tebyg, gan nodi bod llawer o ddysgwyr wedi defnyddio sgiliau darllen Cymraeg sylfaenol yn llwyddiannus, ond nad oedd sgiliau darllen uwch ym mlynyddoedd saith i naw wedi datblygu cystal oherwydd nad oedd gan ddysgwyr yn cael cyfleoedd defnyddiol i ddatblygu darllen ar draws y cwricwlwm. Mae'r ddau adroddiad hefyd yn tynnu sylw at gynllunio gwan ar gyfer pontio rhwng Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7.

3.58 Mae canllawiau'r EEF ar wella llythrennedd mewn ysgolion uwchradd yn pwysleisio hefyd fod llythrennedd yn allweddol ar gyfer dysgu ar draws pob pwnc. Mae'n dadlau y dylid cefnogi llythrennedd mewn ysgolion uwchradd trwy lythrennedd disgyblaethol, cyfarwyddyd geirfa benodol, strategaethau darllen, cymorth ysgrifennu a dulliau penodol i bwnc yn hytrach na chael ei drin fel cyfrifoldeb adrannau Saesneg a Cymraeg yn unig.

3.59 Ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd, mae ymyriadau llythrennedd fel arfer yn cael eu cyflawni trwy gyfuniad o ddulliau ysgol gyfan, addysgu penodol i bwnc, cymorth wedi'i dargedu a gweithgareddau cyfoethogi ehangach.

3.60 Mae'r modelau modelau cyflawni mwyaf cyffredin yn cynnwys:

- strategaethau llythrennedd ysgol gyfan a dulliau trawsgwricwlaidd
- addysgu llythrennedd penodol i bwnc (llythrennedd disgyblaethol)
- ymyriadau wedi eu targedu ar gyfer grwpiau bach neu un-i-un
- rhaglenni darllen er pleser a mentrau mynediad at lyfrau
- rhaglenni sy'n canolbwyntio ar ysgrifennu a chyfathrebu
- llafaredd a gweithgareddau siarad a gwrando
- dulliau digidol a chyfryngol o ymdrin â llythrennedd

3.61 Un model canolog yw llythrennedd disgyblaethol, lle mae athrawon yn helpu dysgwyr i ddeall sut mae darllen, ysgrifennu a chyfathrebu yn gweithio o fewn gwahanol bynciau. Mae adroddiad Estyn ar sgiliau darllen Saesneg yn argymell y dylai ymarferwyr gael dysgu proffesiynol o ansawdd uchel gan arweinwyr ysgolion am strategaethau seiliedig ar dystiolaeth i ddatblygu sgiliau darllen disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae canllawiau'r EEF ar lythrennedd ysgolion uwchradd yn argymell y dylid cefnogi pob athro i addysgu myfyrwyr sut i ddarllen, ysgrifennu a chyfathrebu'n effeithiol yn eu pynciau. Mae hyn yn cynnwys addysgu geirfa benodol i bwnc, cefnogaeth i ddarllen testunau cymhleth, modelu strategaethau fel rhagfynegi a chwestiynu, a chael gwared yn raddol ar gynorthwyon er mwyn hyrwyddo annibyniaeth.

3.62 Mae'n bwysig fod cymorth wedi'i dargedu'n benodol ar ddysgwyr sy'n ei chael yn anodd, yn enwedig o gwmpas pontio. Mae briff tystiolaeth yr EEF, gan Higgins et al., sy'n canolbwyntio ar y pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd yn Lloegr ac sy'n defnyddio dystiolaeth ehangach o weddill Prydain ac o dramor, yn dangos bod y bwlch darllen mewn plant 11 oed yn gyson a pharhaus a'i fod yn annhebygol o gael ei

gau gan un dull. Mae'n awgrymu bod cefnogi dysgwyr sy'n ei chael yn anodd yn gofyn am ymdrech drylwyr ar draws y cwricwlwm a chyfuniad o ddulliau. Yn yr un modd, canfu adolygiad Baye et al. o dystiolaeth o'r Deyrnas Unedig a'r Unol Daleithiau ar raglenni darllen uwchradd mai effeithiau cymharol fach a gaiff y mwyafrif o raglenni, ond bod tiwtora, dysgu cydweithredol a rhai rhaglenni sy'n canolbwyntio ar ysgrifennu yn dangos deilliannau mwy addawol.

3.63 Mae ymyriadau llythrennedd eilaidd hefyd yn cael eu darparu trwy strategaethau darllen er pleser ac ennyn diddordeb. Mae adroddiad 2026 yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Cenedlaethol, Teenage reading: (Re)framing the challenge (sy'n seiliedig ar eu Arolwg Llythrennedd Blynyddol ledled y DU) yn dadlau bod y glasoed yn gyfnod allweddol ar gyfer ymwneud â darllen, gyda mwynhad darllen a darllen dyddiol yn gostwng yn sydyn wrth i bobl ifanc fynd yn hŷn. Fodd bynnag, mae hefyd yn canfod bod llawer o bobl ifanc yn eu harddegau yn dal i werthfawrogi darllen ar gyfer dysgu, ymlacio, dihangfa, llesiant a deall y byd. Yr her yw bod darllen yn dod yn anoddach i'w gynnal oherwydd pwysau amser, gweithgareddau sy'n cystadlu â'i gilydd, newidiadau i drefn arferol, a diffygpherthnasedd neu ddewis cyfyngedig yn cyfyngu ar fynediad.

3.64 Fel mewn blynyddoedd ysgol cynradd, mae mynediad at lyfrau a dewis o lyfrau yn fecanweithiau cyflawni pwysig. Canfu adroddiad yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Cenedlaethol yn 2025 ar berchnogaeth llyfrau fod graddau perchnogaeth yn is ymhlith plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, bechgyn, dysgwyr hŷn a phlant yng Nghymru a rhai o ranbarthau Lloegr o'i gymharu â'r DU gyfan. Mae hyn yn awgrymu y dylai ymyriadau ysgol uwchradd barhau i fynd i'r afael â mynediad at ddeunyddiau darllen deniadol, yn hytrach na chymryd yn ganiataol mai mater yn y blynyddoedd cynnar neu'r cyfnod ysgol gynradd yw mynediad at lyfrau.

3.65 Mae llythrennedd digidol a llythrennedd a gefnogir gan AI yn gyd-destunau cyflawni sy'n dod i'r amlwg. Canfu adroddiad 2025 yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Cenedlaethol ar ddefnydd pobl ifanc o AI

cynhyrchiol yn y DU fod pobl ifanc rhwng 13 a 18 oed yn defnyddio AI i gefnogi gwaith cartref, ysgrifennu, geirfa, sillafu, crynhoi a deall testunau. Fodd bynnag, roedd hefyd yn codi pryderon ynghylch copïo allbynnau AI, gweithgarwch beirniadol gwannach ymhlith dysgwyr iau a dysgwyr sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, a'r risg o ddibyniaeth yn hytrach nag annibyniaeth. Mae hyn yn awgrymu bod angen i ymyriadau llythrennedd mewn ysgolion uwchradd gefnogi defnydd beirniadol, moesegol a myfyriol o offer digidol.

3.66 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod angen i ymyriadau llythrennedd effeithiol mewn ysgolion uwchradd gyfuno addysgu penodol, arferion penodol i bwnc, cefnogaeth wedi'i dargedu i ddarllenwyr sy'n ei chael yn anodd a dulliau sy'n gwneud darllen ac ysgrifennu yn berthnasol i fywydau pobl ifanc yn eu harddegau.

3.67 Y camau gweithredu pwysig ar gyfer cefnogi dysgwyr oedran ysgol uwchradd yw:

3.68 Trin llythrennedd fel cyfrifoldeb ysgol gyfan a thrawsgwricwlaidd. Mae adroddiadau darllen Cymraeg a Saesneg Estyn ill dau yn nodi'r angen am ddatblygiad mwy cyson o sgiliau darllen ar draws y cwricwlwm. Yn yr adroddiad ar ddarllen Cymraeg, gwelwyd y cyfleoedd mwyaf buddiol i ddatblygu sgiliau darllen mewn gwersi Cymraeg, sesiynau iaith a rhai pynciau dyniaethau, ond nid oedd sgiliau darllen uwch wedi'u datblygu cystal lle nad oedd gan ddysgwyr gyfleoedd pwrpasol ar draws y cwricwlwm. Yn yr un modd, mae canllawiau llythrennedd ysgolion uwchradd yr EEF yn dadlau y dylid ymgorffori llythrennedd o fewn addysgu pwnc trwy lythrennedd disgyblaethol.

3.69 Addysgu geirfa, darllen ac ysgrifennu yn benodol o fewn pynciau: Mae'r canllawiau EEF yn argymell cyfarwyddyd geirfa benodol, yn enwedig ar gyfer iaith academaidd a phenodol i bwnc, ac addysgu strategaethau darllen megis gweithredu gwybodaeth flaenorol[1], rhagfynegi a chwestiynu. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod dysgwyr uwchradd yn

[1] Helpu dysgwyr i feddwl ynghylch yr hyn maen nhw eisoes yn ei wybodaeth am bwnc, math o destun, gair, syniad neu brofiad cyn iddynt gychwyn darllen neu ddysgu rhywbeth newydd.

ymdrin fwyfwy â thestunau a chysyniadau arbenigol sy'n gofyn am fwy na gallu darllen cyffredinol.

3.70 Cefnogi darllenwyr sy'n cael anawsterau trwy gyfuniad o ymyriadau yn hytrach nag un rhaglen: Mae Higgins et al. yn dod i'r casgliad bod y bwlch darllen ar adeg pontio yn eang ac ystyfnig, ac nad oes un dull yn debygol o fod yn ddigonol ar ei ben ei hun. Mae adolygiad Baye et al. yn awgrymu bod tiwtora, dysgu cydweithredol, rhaglenni sy'n canolbwyntio ar ysgrifennu, cymhelliant, perthnasau, dysgu cymdeithasol-emosiynol a phersonoli yn nodweddion cyffredin o ymyriadau darllen uwchradd mwy addawol.

3.71 Cynnal cymhelliant, dewis a pherthnasedd darllen yn ystod y glasoed: Mae adroddiad yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Cenedlaethol yn 2026 ar ddarllen ymhlith yr arddegau yn awgrymu bod pobl ifanc yn eu harddegau yn fwy tebygol o ddal ati i ddarllen pan fydd yn teimlo'n berthnasol, yn hawdd ei ddeall, wedi'i gyfeirio ac yn dod â budd. Mae adroddiad 2025 ar ddarllen yn y DU yn dadlau yn yr un modd fod ailennyn diddordeb plant a phobl ifanc yn gofyn am ddulliau personol, hyblyg sy'n rhoi dewis, cysylltu darllen â diddordebau ac arferion cyfryngau ehangach, ac yn cynnig mynediad at ddeunyddiau print a digidol apelgar.

3.72 Mynd i'r afael â mynediad at lyfrau a deunyddiau darllen i ddysgwyr hŷn: Mae tystiolaeth yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol ar berchnogaeth llyfrau yn dangos bod plant a phobl ifanc sydd â'u llyfrau eu hunain yn fwy tebygol o fwynhau darllen, darllen yn aml a gweld eu hunain fel darllenwyr da. Mae hyn yn arbennig o berthnasol lle mae graddau is o berchnogaeth ymhlith dysgwyr hŷn, bechgyn, dysgwyr sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a phlant yng Nghymru (o'i gymharu â gweddill y DU).[2]

3.73 Defnyddio ysgrifennu fel llwybr i ddatblygu llythrennedd a hunanfynegiant: Canfu adroddiad EEF Slavin et al. o dystiolaeth Lloegr

[2] Mae ffigurau ar gyfer Cymru yn seiliedig ar 1.8% o ymatebion i Arolwg Llythrennedd Blynyddol yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol. Mae'r nodweddion eraill yn ymwneud â'r DU gyfan ond yn berthnasol i gyd-destun Cymru.

a'r Unol Daleithiau ar ddulliau ysgrifennu ym Mlynyddoedd 3 i 13 ganlyniadau cyfartalog cadarnhaol i raglenni ysgrifennu. Roedd nodweddion rhaglenni cryfach yn cynnwys dysgu cydweithredol, dulliau strwythuredig o ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau llenyddol, asesu gan gymheiriaid a hunanasesu, cydbwyso ysgrifennu â darllen, datblygu cymhelliant i ysgrifennu a mwynhau hunanfynegiant, addysgu penodol ynghylch confensiynau mewn cyd-destun, a datblygiad proffesiynol parhaus a helaeth i athrawon.

3.74 Cryfhau cyfleoedd siarad a gwrando: Canfu adroddiad 2025 yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol ar siarad a gwrando yn y DU fod llawer o blant a phobl ifanc yn teimlo'n hyderus mewn cyfathrebu bob dydd, ond bod hyder yn wannach mewn hunanfynegiant, siarad cyhoeddus, cyflwyniadau a sgiliau llafaredd ymarferol eraill, yn enwedig yn ystod y glasoed cynnar. Mae plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn graddio eu hunain yn is ar draws meysydd siarad a gwrando, tra bod ymatebion athrawon yn awgrymu bod gweithgareddau siarad a gwrando yn llai cyson mewn ysgolion uwchradd. Mae hyn yn dangos yr angen am gyfleoedd llafaredd strwythuredig ar draws y cwricwlwm uwchradd.

3.75 Cefnogi gweithgarwch dwyieithog a Cymraeg mewn ffyrdd ystyrlon, perthnasol: Canfu adroddiad Estyn ar ddarllen Cymraeg yn 2024 fod lleiafrif o ddysgwyr wedi colli hyder i gyfathrebu a darllen yn Gymraeg yn dilyn y pandemig, a bod llai o gynlluniau neu lwyfannau darllen cyfrwng Cymraeg na rhai cyfrwng Saesneg. Canfu astudiaeth Rhys a Smith o'r Gymraeg fel ail iaith yn 2022 fod myfyrwyr yn aml yn profi datgysylltiad rhwng gwersi Cymraeg ysgol a'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd, gyda barn fod gwersi'n canolbwyntio gormod ar arholiadau ac nad ydynt yn gysylltiedig yn ddigonol â defnydd, hyfedredd nac o werthfawrogiad iaith. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod angen i adnoddau llythrennedd Cymraeg oedran uwchradd fod yn ddiddorol, yn ymarferol, bod digonedd ohonynt a'u bod yn gysylltiedig â defnydd iaith mewn bywyd go iawn.

3.76 Gwella cynrychiolaeth ac amrywiaeth mewn testunau: Canfu astudiaeth astudiaeth Olive, Maelor a Davies yn 2024 ar addysgu llenyddiaethau

mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru fod menywod ac awduron o liw yn cael eu tangynrychioli yn y testunau a addysgwyd, heb ddim pobl o liw yn awduron testunau Cymraeg wedi'u cofnodi yn y sampl. Mae awduron yr astudiaeth yn dadlau y gall diffyg amrywiaeth effeithio'n negyddol ar ymdeimlad o berthyn, byd-olwg, hunan-ddelwedd, perthynas â darllen a chyrhaeddiad addysgol dysgwyr. Mae hyn yn awgrymu y dylai adnoddau ysgolion uwchradd gefnogi dewisiadau testun mwy amrywiol, cynhwysol a chynrychioliadol yn y Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol.

3.77 Cefnogi llythrennedd digidol ac AI beirniadol: Mae tystiolaeth yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Cenedlaethol yn y DU ar ddefnydd pobl ifanc o AI cynhyrchiol yn awgrymu y gall AI gefnogi geirfa, sillafu, crynhoi a deall testunau, ond gall hefyd annog gor-ddibyniaeth neu gopïo. Mae tystiolaeth OECD ar ddyfeisiau digidol yn Ffrainc hefyd yn rhybuddio y gall defnydd hamdden o ddyfeisiau yn yr ysgol dynnu sylw dysgwyr a bod hyn yn gysylltiedig â pherfformiad is a llai o ymdeimlad o berthyn, tra gall defnydd digidol sy'n gysylltiedig â dysgu fod yn fuddiol pan gaiff ei gefnogi'n dda. Mae hyn yn golygu y dylid defnyddio offer digidol yn fwriadol, gydag arweiniad oedolion, nodau llythrennedd clir a sylw i annibyniaeth a meddwl beirniadol.

Darllen er pleser

3.78 Mae'r adrannau blaenorol wedi ystyried ymyriadau llythrennedd yn ôl grŵp oedran, gan gynnwys rôl darllen cynnar ar y cyd, addysgu strwythuredig, cymorth wedi'i dargedu, diwylliannau darllen ysgolion, llythrennedd disgyblaethol a darpariaeth ddwyieithog. Mae'r adran hon yn canolbwyntio'n benodol ar y dulliau trawsbynciol sy'n ymddangos fwyaf perthnasol i wella deilliannau gweithgarwch ac ymddygiad a chanlyniadau tegwch a chyd-destun.

3.79 Mae'r deilliannau hyn yn bwysig oherwydd nad yw datblygiad llythrennedd yn cael ei ddylanwadu gan addysgu sgiliau yn unig. Mae plant a phobl ifanc yn fwy tebygol o ymwneud â darllen, ysgrifennu a chyfathrebu pan fydd ganddynt fynediad at adnoddau deniadol, yn

teimlo'n hyderus, yn gweld llythrennedd yn berthnasol i'w bywydau, ac yn dod ar draws deunyddiau sy'n adlewyrchu eu hunaniaethau, eu hieithoedd a'u diddordebau. Mae'r dystiolaeth yn dangos hefyd fod rhwystrau ymarferol a strwythurol yn effeithio ar y gallu i ennyn eu diddordeb, gan gynnwys tlodi, mynediad cyfyngedig at lyfrau, diffyg amser, hyder isel, anghysondeb iaith, cynrychiolaeth gyfyngedig, anghenion dysgu ychwanegol a mynediad anghyfartal at gymorth.

Rhoi dewis er mwyn gwneud darllen yn rhywbeth pleserus ac ystyrlon

3.80 Neges gyson yw bod mwynhad a dewis yn allweddol er mwyn ennyn diddordeb mewn darllen. Mae tystiolaeth Adran Addysg y DU ar ddarllen er pleser yn tynnu sylw at berthynas gadarnhaol rhwng amlder darllen, mwynhad a chyrhaeddiad darllen, gan hefyd nodi bod dewis a diddordeb yn bwysig wrth ddatblygu darllen er pleser. Mae hefyd yn nodi perthynas â rhieni, athrawon a llyfrgelloedd fel dylanwadau pwysig ar deithiau darllen plant.

3.81 Mae tystiolaeth yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Cenedlaethol o 2025 yn awgrymu yn yr un modd bod ailennyn diddordeb plant a phobl ifanc yn gofyn am ddulliau personol a hyblyg sy'n rhoi dewis iddynt, cysylltu darllen â'u diddordebau a'u harferion cyfryngau ehangach, ac am ddarparu mynediad at ddeunyddiau print a digidol deniadol. Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd adroddwyd bod mwynhad darllen a darllen dyddiol ar lefelau hanesyddol isel ymhlith pobl ifanc wyth i 18 oed.

3.82 O ran pobl ifanc yn eu harddegau, mae Teenage reading: (Re)framing the challenge yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Cenedlaethol yn dadlau bod y glasoed yn gyfnod allweddol ar gyfer ymwneud â darllen a bod llawer o bobl ifanc yn eu harddegau yn dal i werthfawrogi darllen er gwaethaf heriau cynyddol i wneud hynny. Mae hyn yn awgrymu bod angen i strategaethau ennyn diddordeb disgyblion oedran uwchradd adlewyrchu bywydau go iawn pobl ifanc, yn hytrach na chymryd yn ganiataol bod ymddieithrio yn golygu nad yw pobl ifanc yn gwerthfawrogi darllen.

3.83 Mae dulliau effeithiol yn cynnwys:

- rhoi dewis ystyrlon i ddysgwyr dros yr hyn maen nhw'n ei ddarllen
- cynnig testunau sy'n cysylltu â diddordebau, hunaniaethau a bywydau bob dydd dysgwyr
- cynnwys fformatau amrywiol, megis ffuglen, ffeithiol, comics, barddoniaeth, geiriau caneuon, llyfrau sain, testunau digidol a darllen ffurfiau byrion
- cydnabod darllen digidol ac anffurfiol fel rhan o fywydau llythrennedd pobl ifanc
- osgoi dulliau sy'n gwneud i ddarllen deimlo fel asesu neu waith ysgol gorfodol yn unig
- cefnogi dysgwyr i ddarganfod y testun, y fformat neu'r pwynt mynediad cywir ar eu cyfer nhw

Meithrin hyder a hunaniaeth lythrennedd gadarnhaol

3.84 Mae cysylltiad agos rhwng diddordeb dysgwyr a'r graddau maen nhw'n teimlo'n llwyddiannus ac yn gweld eu hunain fel darllenwyr, awduron a chyfathrebwyr. Mae dadansoddiad yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Cenedlaethol o sylwadau plant a phobl ifanc eu hunain am ddarllen yn dangos bod graddau eu diddordeb darllen yn dibynnu ar deimladau, hyder, arferion, cefnogaeth, mynediad ac amgylchedd. Mae darllenwyr brwd yn aml yn disgrifio darllen fel gweithgaredd llawen ac ystyrlon ac sy'n tawelu'r meddwl, tra bod darllenwyr cyndyn yn fwy tebygol o'i brofi fel rhywbeth diflas, anodd, amherthnasol, sy'n gofyn am ymdrech neu sy'n orfodol.

3.85 Mae hyn yn awgrymu y dylai ymyriadau, yn ogystal â darparu adnoddau, hefyd helpu dysgwyr i brofi darllen fel rhywbeth cyraeddadwy ac sy'n ystyrlon iddyn nhw'n bersonol. Gall dulliau creadigol a chymdeithasol fod yn ddefnyddiol yn hyn o beth. Er enghraifft, mae tystiolaeth ar Theatr y Darllenwyr yn dangos manteision ar gyfer cymhelliant, ennyn diddordeb a hyder, ochr yn ochr â rhuglder darllen a dadgodio. Mae tystiolaeth yn y DU gan Letterbox Club y BookTrust

hefyd yn tynnu sylw at fwynhad, hyder ac ymdeimlad o berthyn a adroddwyd gan blant ar ôl derbyn parseli llyfrau wedi'u cyfeirio'n unigol.

3.86 Mae dulliau effeithiol yn cynnwys:

- darparu deunyddiau sy'n addas ar gyfer hyder dysgwyr yn ogystal â'u lefel ddarllen
- cynnig fformatau hygyrch i ddarllenwyr cyndyn neu sy'n cael anawsterau
- defnyddio ymatebion creadigol, perfformio, adrodd straeon, barddoniaeth a thrafodaeth
- dathlu ymdrech, cynnydd ac ymateb personol
- osgoi arferion sy'n gwneud i ddysgwyr deimlo'n agored i gael eu barnu
- helpu plant a phobl ifanc i weld eu hunain fel darllenwyr, awduron a chyfathrebwyr galluog

Cyfuno mynediad ag anogaeth a chefnogaeth barhaus

3.87 Mae mynediad at lyfrau yn bwysig, ond mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw mynediad ar ei ben ei hun bob amser yn ddigonol. Mae ymyriadau yn ymddangos yn gryfach pan fydd llyfrau yn cael eu cyfuno ag anogaeth, arweiniad, arferion, trafodaeth neu gefnogaeth ddibynadwy.

3.88 Canfu Adroddiad Effaith rhaglen BookTrust ar gyfer Babanod a Phlant Cyn Oed Ysgol, sy'n cwmpasu Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, fod y rhaglen wedi ysgogi teuluoedd i ddarllen neu rannu llyfrau a straeon yn amlach, helpu rhai i sefydlu arferion darllen, a chynyddu hyder rhieni. Yn yr un modd, canfu Bookseed yn Iwerddon fanteision yn ymwneud â pherthynas gadarnhaol rhwng rhieni a babanod, cefnogaeth i ddatblygiad iaith a datblygu diddordeb cyffredinol mewn llyfrau, gyda rhai rhieni yn dechrau darllen yn gynharach ac yn fwy rheolaidd gyda'u baban.

3.89 Canfu gwerthusiad o Lyfrgell Dychymyg Dolly Parton mewn dinas yn y DU fod teuluoedd sydd wedi cofrestru am flwyddyn neu fwy yn adrodd am ryngweithiadau darllen rhiant-plentyn yn fwy aml na theuluoedd nad ydynt yn derbyn llyfrau, ac yn fwy tebygol o ddarllen bob dydd na'r rhai

sydd wedi'u cofrestru am lai na blwyddyn. Mae hyn yn awgrymu y gall rhoddion llyfrau parhaus ddylanwadu ar ymddygiadau llythrennedd cartref yn fwy effeithiol na darpariaeth untro.

3.90 Fodd bynnag, mae gwerthusiadau o roi llyfrau i blant mewn gofal yn dangos nad yw darparu llyfrau o reidrwydd yn ddigon ynddo'i hun i wella deilliannau. Ni chanfu gwerthusiad Mooney et al. o'r Letterbox Club yng Ngogledd Iwerddon unrhyw dystiolaeth o effaith ar ganlyniadau a fesurwyd, a daeth i'r casgliad nad yw bwriadau da yn ddigon heb ddamcaniaeth glir o newid a chefnogaeth gan ofalwyr maeth. Yn yr un modd, ni chanfu gwerthusiad Connolly et al. o Reading Together yn Lloegr unrhyw dystiolaeth o effeithiolrwydd, er bod yr awduron yn nodi y gallai pandemig Covid-19 a'r cyfnod clo cenedlaethol fod wedi effeithio ar weithredu a deilliannau.

3.91 Mae dulliau effeithiol yn cynnwys:

- cysylltu darpariaeth adnoddau â chanllawiau, anogaeth neu weithgarwch wedi'i hwyluso
- sicrhau bod oedolion yn gwybod sut i ddefnyddio adnoddau gyda phlant a phobl ifanc
- gwneud i adnoddau deimlo'n bersonol, cyffrous ac yn addas i'w hoedran
- cynnal gweithgarwch dros amser yn hytrach na dibynnu ar ddarpariaeth untro
- cynnwys dilyniant o ran cyswllt, trafodaeth, anogaeth neu weithgareddau ar y cyd
- sicrhau bod gan fentrau ddamcaniaeth glir o newid

Mynd i'r afael â mynediad anghyfartal at lyfrau, llyfrgelloedd a chyfleoedd darllen

3.92 Mae sicrhau tegwch yn dibynnu'n rhannol ar gyfleoedd plant a phobl ifanc i gael mynediad at lyfrau ac amgylcheddau sy'n gyfoethog o ran llythrennedd. Yn ôl adroddiad 2025 yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Cenedlaethol, mae perchnogaeth llyfrau yn is ymhlith rhai plant, gan gynnwys rhai yng Nghymru o'i gymharu â chyfartaledd y DU, gydag

effaith gysylltiedig negyddol debygol ar fwynhad ac amlder darllen, a gallu darllen hunan-ganfyddedig.

3.93 Mae tystiolaeth o raglenni ysgolion a llyfrgelloedd cyhoeddus hefyd yn dangos pwysigrwydd cyfleoedd darllen am ddim a hygyrch. Canfu gwerthusiad Libraries for Primaries fod buddsoddi mewn llyfrgelloedd ysgolion, hyfforddiant ac adnoddau wedi gwella mynediad plant at lyfrau o ansawdd uchel, mwynhad darllen, hyder ac amlder darllen, gyda thystiolaeth addawol o well cyrhaeddiad darllen i blant sydd â'r angen mwyaf am gefnogaeth.

3.94 Mae dulliau effeithiol yn cynnwys:

- darparu mynediad am ddim neu ar gost isel at lyfrau ac adnoddau deniadol
- targedu dysgwyr sydd â llai o lyfrau gartref
- buddsoddi mewn llyfrgelloedd ysgolion, llyfrgelloedd dosbarth a chysylltiadau â llyfrgelloedd cyhoeddus
- sicrhau bod casgliadau llyfrau yn gyfredol, amrywiol ac yn briodol i'w hoedran
- cefnogi grwpiau sydd â lefelau is o berchnogaeth llyfrau, gan gynnwys dysgwyr hŷn, bechgyn a dysgwyr sy'n derbyn prydau ysgol am ddim
- trin mynediad at lyfrau fel mater o degwch, nid fel mater adnoddau yn unig

Defnyddio llwybrau dibynadwy a lleol i gyrraedd teuluoedd a chymunedau

3.95 I deuluoedd sy'n wynebu rhwystrau, gall sut y caiff ymyrraeth ei chyflwyno fod yr un mor bwysig â'r hyn sy'n cael ei ddarparu. Mae tystiolaeth gan Bookseed yn Iwerddon, rhaglenni BookTrust ac ymgyrch Start for Life yr Ymgyrch Llythrennedd Cenedlaethol yn Lloegr yn tynnu sylw at werth llwybrau cyflwyno dibynadwy, gan gynnwys gwasanaethau iechyd, llyfrgelloedd, darparwyr blynyddoedd cynnar, canolfannau teuluoedd, ysgolion, partneriaid lleol, gwirfoddolwyr a hyrwyddwyr llythrennedd.

3.96 Gall y llwybrau hyn helpu i gyrraedd teuluoedd nad ydynt efallai yn ceisio cymorth llythrennedd, yn enwedig lle mae rhwystrau yn cynnwys cost, trafnidiaeth, diffyg hyder, darpariaeth leol gyfyngedig neu ansicrwydd ynghylch sut i gefnogi llythrennedd plant.

3.97 Mae dulliau effeithiol yn cynnwys:

- darparu trwy wasanaethau a lleoliadau y mae teuluoedd eisoes yn eu defnyddio
- gweithio gydag ysgolion, llyfrgelloedd, ymwelwyr iechyd, canolfannau teuluoedd a phartneriaid cymunedol
- defnyddio hyrwyddwyr, ymarferwyr a gwirfoddolwyr lleol
- ymgorffori cymorth llythrennedd mewn darpariaeth ehangach i deuluoedd a chymunedol
- cynllunio cymorth o amgylch anghenion, rhwystrau a chryfderau pob cymuned leol
- lleihau'r baich ar deuluoedd i ganfod a deall y gefnogaeth sydd ar gael

Sicrhau bod cynrychiolaeth yn ystyrlon ac wedi'i ymgorffori

3.98 Mae cynrychiolaeth yn bwysig ar gyfer ennyn diddordeb a sicrhau tegwch. Mae gwaith BookTrust ar gynrychiolaeth yn y DU yn dadlau y gall amrywiaeth mewn straeon, cymeriadau a darluniau effeithio ar sut mae darllenwyr ifanc yn gweld eu hunain a'i fod yn gallu ysgogi plant i ddarllen. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth hefyd yn tynnu sylw at fylchau parhaus yng nghynrychioladwyedd llenyddiaeth plant. Fel y gwelwyd uchod, mae hyn yn arbennig o berthnasol yng Nghymru.

3.99 Mae dulliau effeithiol yn cynnwys:

- cynnwys cymeriadau, awduron, darlunwyr, cymunedau a lleoliadau amrywiol
- sicrhau bod cynrychiolaeth yn bresennol ar draws straeon a ffurfiau llenyddol cyffredin, nid testunau sy'n seiliedig ar bynciau penodol yn unig (lle mai hunaniaeth, profiad neu fater cymdeithasol penodol yw prif ffocws y plot)

- creu amrywiaeth mewn adnoddau Cymraeg yn ogystal â rhai Saesneg
- cynnwys testunau sy'n adlewyrchu gwahanol ethnigrwydd, ieithoedd, strwythurau teuluol, galluoedd ac ardaloedd
- defnyddio ymweliadau awduron a modelau rôl i gefnogi dyhead a chymhelliant
- osgoi cynrychiolaeth symbolaidd neu sy'n canolbwyntio ar broblemau

Cynllunio ar gyfer cyd-destunau Cymraeg, Saesneg ac amlieithog

3.100 Ar gyfer Cymru, rhaid i ganlyniadau cydraddoldeb a chyd-destun gynnwys cyd-destun iaith. Mae'r dystiolaeth yn dangos pwysigrwydd cefnogi dwylythrennedd Cymraeg-Saesneg, cydnabod profiadau iaith gartref dysgwyr a sicrhau bod adnoddau, offer asesu a chymorth cyfrwng Cymraeg ar gael ar draws ystodau oedran ac anghenion dysgwyr. Mae hefyd yn tynnu sylw at fylchau mewn adnoddau, cynlluniau darllen, offer asesu a chymorth arbenigol, yn enwedig i ddysgwyr ag ADY.

3.101 Mae tystiolaeth ryngwladol hefyd yn cadarnhau gwerth dulliau dwyieithog. Mae astudiaethau o Iwerddon a Gwlad y Basg yn awgrymu y gall trochi mewn ieithoedd lleiafrifol gefnogi llythrennedd mewn ieithoedd mwyafrif a lleiafrifol. Mae tystiolaeth o Gatalwnia ac ymchwil amlieithog ehangach yn pwysleisio ymhellach bwysigrwydd cydnabod repertoire ieithyddol llawn dysgwyr, yn hytrach na thrin amlieithrwydd fel diffyg.

3.102 Mae dulliau effeithiol yn cynnwys:

- darparu adnoddau o ansawdd uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg
- cefnogi trosglwyddo rhwng ieithoedd
- cydnabod profiad iaith gartref a hunaniaeth amlieithog
- defnyddio trawsieithu lle bo'n briodol
- datblygu adnoddau Cymraeg ar gyfer ystod ehangach o oedrannau, galluoedd ac anghenion

- sicrhau bod offer asesu a diagnostig yn addas ar gyfer dysgwyr dwyieithog
- cefnogi hyder a mwynhad wrth ddarllen Cymraeg, yn ogystal â chyrhaeddiad

Lleihau rhwystrau ymarferol a strwythurol i gymryd rhan

3.103 Nid yw graddau isel o gymryd rhan yn cael ei achosi bob amser gan ddiddordeb isel. Gall teuluoedd a dysgwyr wynebu rhwystrau ymarferol a strwythurol sy'n ei gwneud hi'n anoddach cymryd rhan mewn gweithgareddau llythrennedd. Mae tystiolaeth yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Cenedlaethol ledled y DU ar gefnogaeth rhieni i lythrennedd plant ifanc yn nodi rhwystrau fel amser, cost, trafnidiaeth, darpariaeth leol gyfyngedig a diffyg cefnogaeth. Mae tystiolaeth BookTrust ar blant sy'n profi bregusrwydd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon hefyd yn dangos y gall teuluoedd maeth, perthnasau a theuluoedd mabwysiadu wynebu rhwystrau cyffredinol i ddarllen ochr yn ochr â phwysau ychwanegol.

3.104 Mae dulliau effeithiol yn cynnwys:

- darparu adnoddau am ddim neu ar gost isel
- cynnig llwybrau hyblyg i gymryd rhan
- darparu canllawiau syml ac ymarferol
- lleihau dibyniaeth ar drafnidiaeth, gweithgareddau taledig neu hyder uchel gan rieni
- cynllunio adnoddau ar gyfer teuluoedd sydd ag amser cyfyngedig
- cefnogi cyd-destunau maeth, perthnasau, mabwysiadu a theuluoedd bregus
- rhoi'r grym a'r dewis i blant o ran sut maen nhw'n cymryd rhan

Defnyddio offer digidol yn gynhwysol ac yn ofalus

3.105 Gall fformatau digidol ehangu mynediad ac anogaeth i rai dysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n llai cyfarwydd â phrint. Mae tystiolaeth yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Cenedlaethol ar dueddiadau darllen print

a digidol yn y DU yn awgrymu bod darllen digidol bellach yn rhan sylweddol o lythrennedd bob dydd plant a phobl ifanc ac y gall hyn fod yn arbennig o bwysig i rai darllenwyr mwy cyndyd, bechgyn a phlant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim.

3.106 Fodd bynnag, ni ellir dibynnu bod offer digidol yn effeithiol ynddo'i hun. Ni chanfu tystiolaeth ar Immersive Reader Microsoft unrhyw effaith gyffredinol sylweddol ar gyrhaeddiad, yn rhannol oherwydd defnydd anghyson, athrawon heb hyfforddiant digonol, problemau technegol a diffyg adnoddau TG. Mae tystiolaeth ar AI cynhyrchiol hefyd yn awgrymu manteision a risgiau posibl, gan gynnwys cefnogaeth i eirfa, sillafu a chrynhoi, ond pryderon am gopïo, gor-ddibyniaeth ac gweithgarwch beirniadol gwannach ymhlith rhai grwpiau.

3.107 Mae dulliau effeithiol yn cynnwys:

- gwerthfawrogi darllen print a digidol yn yr ysgol, yn y cartref ac yn y gymuned
- defnyddio fformatau digidol i ehangu mynediad i ddysgwyr sy'n dangos llai o ddiddordeb
- rhoi arweiniad clir i oedolion a bod yn glir ynghylch pa sgiliau neu ymddygiadau llythrennedd y bwriedir i'r offeryn digidol eu cefnogi
- osgoi atebion technoleg yn unig
- cefnogi defnydd o AI beirniadol, moesegol a myfyriol
- mynd i'r afael â bylchau o ran mynediad digidol, hyder a seilwaith
- sicrhau bod offer digidol yn cefnogi annibyniaeth yn hytrach na dibyniaeth

3.108 Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod gwella deilliannau llythrennedd yn gofyn am ddull cytbwys sy'n ymdrin â sgiliau llythrennedd craidd a'r amodau ehangach sy'n galluogi plant a phobl ifanc i ymwneud â llythrennedd. Ar draws y 3 cham oedran, mae'r pwyslais yn newid: i blant 0 i 3 oed, y flaenoriaeth yw adeiladu iaith gynnar, arferion darllen ar y cyd a hyder rhieni; ar gyfer plant oedran

ysgol gynradd, mae'n cyfuno addysgu llythrennedd penodol â mwynhad darllen, mynediad at lyfrau a chymorth cynhwysol; ac ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd, mae'n cynnal diddordeb wrth gryfhau darllen penodol i bwnc, ysgrifennu, llafaredd a llythrennedd beirniadol ar draws y cwricwlwm.

3.109 Ar draws pob oedran, y dulliau mwyaf addawol yw'r rhai sy'n cyfuno mynediad, ansawdd, perthnasedd, cysondeb a chefnogaeth. Mae adnoddau llythrennedd yn fwy tebygol o wneud gwahaniaeth parhaol pan fyddant yn ddiddorol, yn briodol i oedran, ar gael yn Gymraeg a Saesneg, yn cynnwys hunaniaethau ac anghenion gwahanol ddysgwyr, ac yn cael eu cefnogi gan ymarferwyr, teuluoedd, llyfrgelloedd, gwasanaethau iechyd a phartneriaid cymunedol. Y goblygiad ar gyfer datblygu adnoddau yn y dyfodol yw na ddylai ymyriadau llythrennedd ganolbwyntio'u holl ymdrechion ar gael dysgwyr i allu darllen ac ysgrifennu'n well fel yr unig nod, ond hefyd ar eu hawydd i ymwneud â llythrennedd, sicrhau bod ganddyn nhw fynediad cyfartal at yr adnoddau cywir, a'u bod yn teimlo'n hyderus wrth eu defnyddio, ac yn gallu meithrin arferion llythrennedd parhaol yn y cyd-destunau lle maent yn byw ac yn dysgu.

Enghreifftiau rhyngwladol o fentrau sy'n hyrwyddo darllen er pleser

3.110 Roedd yr adolygiad llenyddiaeth ac, i raddau llai, yr ymgynghori ansoddol â rhanddeiliaid (a drafodir ymhellach ymlaen yn yr adroddiad hwn) yn nodi amrywiaeth o enghreifftiau rhyngwladol a ddefnyddir i hyrwyddo darllen er pleser. Roedd y rhain yn cynnwys rhaglenni rhoi llyfrau fel anrhegion, mentrau mewn llyfrgelloedd, ymyriadau mynediad digidol, prosiectau ysgogi darllen, ac arferion diwylliannol ehangach. Roedd rhanddeiliaid (yn enwedig rhai a holwyd yn y cyfweliadau cwmpasu ac ymarferwyr) hefyd yn amlygu enghreifftiau lle'r oedd canfyddiad o ddarllen yn cael ei ymgorffori mewn hunaniaeth genedlaethol neu fywyd bob dydd. Er enghraifft, roedd un rhanddeiliad yn tynnu sylw at Catalwnia, lle mae Diada de Sant Jordi / Dydd San Siôr, sydd hefyd yn cael ei adnabod fel Diwrnod Llyfrau a Rhosynnau,

yn ymwneud â thraddodiad o roi llyfrau a rhosynnau fel anrhegion. Roedd rhanddeiliaid yn cyfeirio hefyd at y Ffindir a Gwlad yr Iâ fel gwledydd lle'r oedd darllen yn cael ei ddisgrifio fel rhywbeth sydd wedi'i normaleiddio'n ddiwylliannol. Gyda'i gilydd, mae'r enghreifftiau hyn yn awgrymu bod rhanddeiliaid yn gweld cyd-destun diwylliannol ehangach fel rhywbeth perthnasol yn y ffordd y caiff darllen er pleser ei annog, law yn llaw â rhaglenni a mentrau ffurfiol.

3.111 Roedd sawl enghraifft o'r adolygiad llenyddiaeth yn canolbwyntio ar roi llyfrau fel anrhegion yn y blynyddoedd cynnar a chydweithio â theuluoedd. Yn Iwerddon, mae'r rhaglen Bookseed yn darparu pecynnau anrhegion llyfrau cynnar trwy ymweliadau iechyd plant, gan gefnogi perthynas gadarnhaol rhwng rhieni a phlentyn, datblygiad iaith a diddordeb plant mewn llyfrau. Yn yr un modd, mae rhaglen Bookstart yr Iseldiroedd yn darparu llyfrau i fabanod, canllawiau darllen cynnar, ac aelodaeth llyfrgell am ddim, gyda thystiolaeth ddilynol sy'n dangos manteision ieithyddol mwy hirdymor cyn dechrau darllen ffurfiol. Mae tystiolaeth rhaglen ar Lyfrgell Dychymyg Dolly Parton yn dangos ei bod yn gweithredu yn yr Unol Daleithiau, Canada, y DU, Awstralia, a Gweriniaeth Iwerddon, ac wedi dosbarthu dros 152 miliwn o lyfrau ar draws y gwledydd hyn ym mis Ionawr 2021. Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos sut mae anrhegion llyfrau wedi cael eu defnyddio yn rhyngwladol, fel yng Nghymru, i gynyddu mynediad cynnar at lyfrau ac annog arferion darllen gartref.

3.112 Roedd yr adolygiad llenyddiaeth hefyd yn nodi mentrau sy'n canolbwyntio ar gynnal mynediad at ddeunyddiau darllen y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Canfu tystiolaeth o raglenni darllen haf llyfrgelloedd cyhoeddus yn yr Unol Daleithiau fod dysgwyr sy'n cymryd rhan yn osgoi colli darllen yn yr haf ac yn dychwelyd i'r ysgol gyda mwy o gymhelliant, mwynhad a hyder. Rhoddodd ymyriad teclyn e-ddarllen yn yr Almaen fynediad at lyfrau digidol i blant 11-12 oed, gyda thystiolaeth gwerthuso yn dangos cynnydd mewn diddordeb darllen a pherfformiad academaidd, gan gynnwys dealltwriaeth ddarllen. Mae'r Letterbox Club, un o raglenni BookTrust yn y DU, hefyd yn darparu parseli o lyfrau,

gweithgareddau a deunyddiau ysgrifennu i blant bregus a rhai sy'n derbyn gofal er mwyn annog darllen gartref. Mae'r enghreifftiau hyn yn amlygu pwysigrwydd mynediad, yn enwedig i ddysgwyr sydd â llai o ddeunyddiau darllen gartref, yn ystod cyfnodau y tu allan i ddarpariaeth arferol ysgol, neu lle y gall dysgwyr wynebu rhwystrau ychwanegol rhag darllen.

3.113 Roedd enghreifftiau eraill o'r adolygiad llenyddiaeth yn canolbwyntio ar gynyddu cymhelliant a mwynhad trwy ddewis a darllen cymdeithasol. Yn y Ffindir, hyrwyddodd prosiectau JEKKU a LUKUINTO fwynhad darllen trwy ddewis llyfrau, gweithgareddau darllen cymdeithasol, a deunyddiau darllen amrywiol; roedd LUKUINTO yn ymwneud â bron i 15,000 o blant. Cyfeiriodd rhanddeiliaid hefyd at yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Cenedlaethol fel enghraifft o sefydliad sy'n darparu mentrau darllen er pleser yn y DU. Mae ei raglenni'n cynnwys y Rhaglen Darllenwyr Ifanc, sy'n cefnogi dewis llyfrau a mwynhad darllen, a Game Changers, sydd â'r nod o ail-ennyn diddordeb myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio o ddarllen.

3.114 Roedd rhai enghreifftiau yn tynnu sylw hefyd at y berthynas rhwng darllen, iaith a hunaniaeth. Mae'r adolygiad llenyddiaeth yn nodi rhaglen cymorth darllen ar ôl ysgol yn Catalwnia a oedd yn galluogi plant i ddefnyddio Catalaneg, Sbaeneg ac ieithoedd cartref mewn gweithgareddau darllen. Roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod hyn yn cefnogi ymwneud â hunaniaeth trwy ganiatáu i blant dynnu ar ieithoedd a phrofiadau a oedd yn ystyrlon iddynt. Nododd rhanddeiliaid hefyd Wlad y Basg fel cymharydd perthnasol i Gymru, gan adlewyrchu tensiynau tebyg rhwng iaith leiafrifol ac iaith â goruchafiaeth / iaith fyd-eang. Nododd rhanddeiliaid fod Gwlad y Basg yn rhoi pwyslais ar *"addasu yn hytrach na chyfieithu"* adnoddau, yn enwedig er mwyn sicrhau bod deunyddiau yn adlewyrchu iaith a diwylliant lleol.

3.115 Roedd tystiolaeth rhanddeiliaid hefyd yn rhybuddio rhag cymryd yn ganiataol y gellid trosglwyddo mentrau rhyngwladol llwyddiannus yn uniongyrchol i Gymru. Dywedodd un rhanddeiliad y "*gellir cyflwyno ymyriadau yng Nghymru, ond dim ond trwy addasu yn hytrach na*

mabwysiadu". Roedd hyn yn adlewyrchu barn ehangach y gallai enghreifftiau rhyngwladol gynnig deunyddiau dysgu defnyddiol ond byddai angen eu haddasu i gyd-destun penodol Cymru, gan gynnwys diwylliannau darllen lleol, fod adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gael, cost, seilwaith, a gwahaniaethau yn y ffordd y mae teuluoedd a dysgwyr yn ymwneud â darllen. Felly, roedd enghreifftiau rhyngwladol yn cael eu hystyried fel ffynonellau o ddysgu ac ysbrydoli yn hytrach na modelau i'w copïo fel y maent.

Arferion gorau ryngwladol: gwersi i Gymru

3.116 Mae'r gwersi y gall Cymru eu dysgu o enghreifftiau rhyngwladol yn cynnwys:

3.117 Dwyieithrwydd fel caffaeliad ar gyfer datblygu llythrennedd. Mae tystiolaeth ryngwladol o gyd-destunau dwyieithog a lleiafrifol yn awgrymu y gall datblygiad llythrennedd mewn un iaith gefnogi deilliannau iaith a dysgu ehangach, cyn belled â bod adnoddau ac addysgeg wedi'u cynllunio'n fwriadol. I Gymru, mae hyn yn golygu osgoi diffyg golwg ar ddysgwyr dwyieithog ac yn hytrach dylunio adnoddau sy'n cefnogi dysgwyr i ddatblygu hyder a chymhwysedd yn y Gymraeg a'r Saesneg.

3.118 Cydnabod pwysigrwydd cefnogi dwylythrennedd trwy helpu dysgwyr i drosglwyddo sgiliau rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Dylai adnoddau helpu dysgwyr i wneud cysylltiadau ar draws ieithoedd, yn hytrach na thrin pob iaith ar wahân. Gallai hyn gynnwys cysylltiadau penodol rhwng geirfa, dadgodio, dealltwriaeth, gramadeg, morffoleg a strategaethau darllen. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu datblygu adnoddau sy'n helpu ymarferwyr a dysgwyr i ddeall sut y gall sgiliau a ddatblygir mewn un iaith gefnogi datblygiad llythrennedd mewn iaith arall.

3.119 Mae angen addasu adnoddau dwyieithog, nid eu cyfieithu'n unig, yn enwedig lle mae angen i adnoddau adlewyrchu iaith, diwylliant a hunaniaeth leol. I Gymru, mae hyn yn golygu y dylai adnoddau cyfrwng Cymraeg deimlo'n naturiol ac yn ddiwylliannol ystyrlon yn eu rhinwedd

eu hunain, yn hytrach nag ymddangos fel fersiynau wedi'u cyfieithu o ddeunyddiau Saesneg.

3.120 Darparu cymorth ffonolegol parhaus i ddysgwyr dwyieithog sydd â dyslecsia neu anawsterau darllen. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng Nghymru oherwydd efallai y bydd angen cymorth ar ddysgwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac oherwydd anghysondeb yn y graddau mae offer asesu, adnoddau diagnostig a chymorth arbenigol cyfrwng Cymraeg ar gael. Dylai datblygu adnoddau yn y dyfodol felly gynnwys cymorth hygyrch, dwyieithog ar gyfer dadgodio, ymwybyddiaeth ffonolegol, rhuglder a dealltwriaeth, gan gynnwys i ddysgwyr ag ADY neu anghenion llythrennedd ychwanegol.

3.121 Gall mannau anffurfiol a chymunedol gefnogi anogaeth. Mae enghreifftiau rhyngwladol yn dangos y gellir hyrwyddo darllen er pleser y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth trwy lyfrgelloedd, rhaglenni ar ôl ysgol, digwyddiadau diwylliannol ac arferion cymunedol ehangach. I Gymru, mae hyn yn awgrymu na ddylid dylunio adnoddau llythrennedd ar gyfer defnydd ffurfiol yn yr ystafell ddosbarth yn unig. Dylent hefyd helpu teuluoedd, llyfrgelloedd, partneriaid cymunedol a mannau dysgu anffurfiol i wneud darllen yn weladwy, yn bleserus ac yn hygyrch.

3.122 Dylai dysgwyr allu defnyddio Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd cartref eraill lle bo hynny'n berthnasol. Mae tystiolaeth o gyd-destunau amlieithog yn awgrymu y gall caniatáu i blant a phobl ifanc ddefnyddio eu repertoire ieithyddol llawn gefnogi gweithgarwch, hunaniaeth a chreu ystyr. Yng Nghymru, nid i ddwylythrennedd Cymraeg-Saesneg yn unig mae hyn yn berthnasol, ond hefyd i ddysgwyr amlieithog y mae eu hieithoedd cartref yn rhan o'u bywydau llythrennedd.

3.123 Dylai adnoddau gynnwys cynrychiolaeth amrywiol ac ystyrlon i gefnogi hunaniaeth a chymhelliant. Mae dysgwyr yn fwy tebygol o ymwneud â darllen pan fo testunau yn adlewyrchu eu bywydau, eu cymunedau, eu diddordebau a'u dyheadau. Mae hyn yn cynnwys cynrychiolaeth ar draws adnoddau Cymraeg, Saesneg ac amlieithog.

3.124 Dylai Cymru ddechrau'n gynnar trwy ddarllen ar y cyd, rhoi llyfrau'n anrhegion, caneuon, straeon a rhyngweithio rhwng rhieni a gofalwyr a phlant. Mae enghreifftiau rhyngwladol o anrhegion llyfrau a blynyddoedd cynnar yn dangos gwerth cyflwyno llyfrau ac arferion darllen cyn addysg ffurfiol.

3.125 Dylid darparu adnoddau trwy lwybrau dibynadwy, gan gynnwys ymwelwyr iechyd, ysgolion, llyfrgelloedd a phartneriaid cymunedol. Nid yw mynediad yn ymwneud yn unig â sicrhau bod adnoddau yn bodoli, ond hefyd a ydynt yn cyrraedd y plant, teuluoedd ac ymarferwyr sydd eu hangen. Gall darparu trwy lwybrau lleol dibynadwy helpu i leihau rhwystrau sy'n gysylltiedig â chost, hyder, trafnidiaeth, iaith ac ymwybyddiaeth.

3.126 Dylid cyfuno mynediad at lyfrau ac adnoddau llythrennedd eraill gyda chanllawiau, anogaeth a chymorth dilynol. Mae'r dystiolaeth ryngwladol yn awgrymu bod darparu llyfrau neu adnoddau yn annhebygol o fod yn ddigonol ar ei ben ei hun. Mae mwy o effaith yn debygol lle mae oedolion yn cael eu helpu i ddefnyddio adnoddau yn hyderus, lle mae plant yn cael eu hannog i ddewis a mwynhau darllen, a lle mae mentrau'n cael eu cynnal dros amser.


3.127 Ar y cyfan, y wers i Gymru yw y dylai adnoddau llythrennedd fod yn ddwyieithog, cynhwysol, diwylliannol ystyrlon ac ymarferol hygyrch. Dylent gefnogi llythrennedd Cymraeg a Saesneg, cydnabod profiadau iaith ehangach dysgwyr amlieithog, darparu cymorth teg i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol, a helpu teuluoedd, ymarferwyr a chymunedau i adeiladu arferion darllen parhaol. Y nod ddylai fod i addasu'r egwyddorion cryfaf o arferion rhyngwladol i gyd-destun ieithyddol, diwylliannol ac addysgol Cymru ei hun.

Rhaglenni yng Nghymru

3.128 Rhwng y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws gyda'r holl randdeiliaid, crybwyllwyd cyfanswm o 51 o raglenni unigryw. Er nad yw hyn o reidrwydd yn cyfateb i'r holl fentrau sy'n cefnogi llythrennedd a darllen yng Nghymru, mae'n debygol o adlewyrchu'r prif rai sy'n gyfarwydd i

athrawon a rhanddeiliaid eraill. Mae'r adran hon yn cyflwyno adolygiad o'r rhaglenni hyn trwy ddadansoddi pedair thema: oedran, math o raglen, datblygwr a dull cyflawni, a chostau. Mae'n bwysig pwysleisio bod rhaglenni a drafodir yn yr adran hon yn cynrychioli ymwybyddiaeth a/neu ddefnydd ymhlith rhanddeiliaid sy'n ymwneud â'r ymchwil hwn yn unig ac nad ydynt o reidrwydd yn cynrychioli'r dirwedd lawn o raglenni llythrennedd neu fentrau sy'n hyrwyddo darllen er pleser sydd ar gael yng Nghymru.

Ffigur 3.1: Rhaglenni a nodwyd gan randdeiliaid



ALLWEDD: Mae '**X**' yn dynodi'r prif raglen, datblygwr, partner darparu a model cost. Er enghraifft, os yw rhaglen yn cynnig mynediad am ddim a mynediad drwy dâl, ond bod y mynediad drwy dâl yn cynnig mwy o nodweddion, bydd '**X**' yn cael ei roi wrth y categori mynediad drwy dâl. Mewn rhai achosion, mae X yn ymddangos mewn mwy nag un categori am nad oes gwahaniaeth clir rhwng yr opsiynau sydd ar gael. *Bwriad y tabl hwn yw rhoi trosolwg bras o'r rhaglenni a drafodir, at ddibenion enghreifftiol.*

3.129 Mae oedran yn ffordd sylfaenol o ddosbarthu cwmpas y rhaglenni a drafodir gan randdeiliaid. Canfu'r dadansoddiad fod y gyfran fwyaf o'r rhaglenni a nodwyd ar gael ar lefel cyn-ysgol (52%), gyda rhaglenni oedran ysgol gynradd yn cyfrif am bron i draean (32%), rhaglenni sydd wedi'u hanelu at ddysgwyr oedran ysgol uwchradd yn ddim ond 2% a rhaglenni pob oedran yn ffurfio'r 14% sy'n weddill. Mae'n bwysig nodi na wnaeth rhanddeiliaid gyfeirio at raglenni sydd ar gael yn bennaf ar gyfer dysgwyr sydd wedi gorffen addysg orfodol yn 16 oed a hŷn, sy'n dangos mai ymhlith darllenwyr rhwng 0 a 12 oed yn bennaf y caiff syniadau o ddarllen er pleser eu hymgorffori. Mae cyfle i naill ai greu rhaglenni ychwanegol neu wella ymwybyddiaeth o ddarllen er pleser ac ymyrraeth llythrennedd ar gyfer oedrannau 12 oed a hŷn.

3.130 Mae'r rhan fwyaf o'r rhaglenni a grybwyllir gan randdeiliaid wedi'u bwriadu ar gyfer ymyrraeth llythrennedd (72%). Fodd bynnag, mae rhywfaint o orgyffwrdd cyfyngedig mewn rhaglenni sy'n ymddangos eu bod wedi'u datblygu i wella llythrennedd a mwynhad darllen (12%). Mewn pedwar achos, ymddengys bod rhaglenni yn cwmpasu'n benodol y ddau lwybr dysgu. Mae'r rhain yn awgrymu gor-ddibyniaeth ar ddatblygu sgiliau llythrennedd i ddatblygu ymdeimlad o ddarllen er pleser mewn dysgwyr ifanc.

3.131 Mae'r rhaglenni a nodwyd gan randdeiliaid yn cael eu cyflwyno gan yr ysgol a'u datblygu'n fasnachol yn bennaf. O'r 50 o raglenni y gwyddom amdanynt, mae 36 yn cael eu cynhyrchu'n fasnachol, lle mai dim ond 14 rhaglen sydd o dan arweiniad y llywodraeth neu elusennau. Mae dulliau cyflwyno yn dangos dibyniaeth gref ar addysgu sefydliadol, gyda 35 o raglenni wedi'u cyflwyno'n bennaf trwy leoliadau ysgol, o'i gymharu â 18 rhaglen a gyflwynir trwy fodelau cymunedol neu gartref. Yn aml, mae rhaglenni yn gofyn am danysgrifiadau taledig neu becynnau hyfforddi a all greu annhegwch o mewn mynediad neu fwynhad darllen oherwydd rhwystrau posibl o ran costau.

3.132 Mae goruchafiaeth y rhaglenni mynediad â thâl yn drawiadol, gyda 34 o'r rhaglenni a nodwyd ond ar gael ar gost i ymarferwyr neu aelwydydd.

Er bod rhywfaint o wybodaeth am gostau rhaglenni unigol nad oedd ar gael yn gyhoeddus, gallai costau amrywio o £20 am ychydig o daflenni gwaith neu lyfrau, i £6,000+ ar gyfer hyfforddiant neu gynlluniau gwersi addysgu. O ystyried mai dim ond 14 o'r rhaglenni sydd wedi'u nodi fel rhai sy'n hygyrch a rhad ac am ddim i raddau helaeth, mae tystiolaeth yn awgrymu y gall mynediad at ymyrraeth llythrennedd a darllen er pleser ddibynnu ar gapasiti cyllido sefydliadol ac adnoddau cartrefi yn hytrach nag ar angen yn unig. Mae hyn yn creu'r potensial ar gyfer annhegwch mynediad i ysgolion prin eu hadnoddau a theuluoedd tlotach yng Nghymru. Fodd bynnag, o ystyried bod canfyddiadau'n tarddu o set gyfyngedig o randdeiliaid, gall canfyddiadau gynrychioli diffyg ymwybyddiaeth hefyd o adnoddau sydd ar gael am ddim ymhlith rhieni ac athrawon fel ei gilydd. Os yw hyn yn wir, efallai y bydd cyfleoedd i ehangu ac ymgorffori gwybodaeth am raglenni darllen sydd ar gael.

3.133 Mae sylwadau'r rhanddeiliaid yn dangos dibyniaeth gref ar ddeunyddiau a ddatblygwyd yn fasnachol y codir tâl amdanynt ac a gaiff eu darparu mewn lleoliadau ysgol. Yn arferol, mae adnoddau ar gael yn fwyaf tebygol i blant 0-12 oed, lle mae'n ymddangos bod gan blant hŷn lai o fynediad at raglenni ymyrraeth llythrennedd a rhaglenni darllen er pleser. Mae hyn yn awgrymu bod llwybrau llai hygyrch i gefnogi darllen er pleser mewn modd cynaliadwy wrth i blant fynd yn hŷn. Gall fod cyfleoedd i ehangu marchnata ar gyfer rhaglenni darllen, datblygu rhaglenni ar gyfer dysgwyr 12 oed a hŷn, a dilysu nifer yr adnoddau rhad ac am ddim neu'n hygyrch mewn modd arall i gyfoethogi darllen er pleser yng Nghymru.

Bylchau a diffygion mewn mentrau sy'n hyrwyddo darllen er pleser

3.134 Roedd rhanddeiliaid yn nodi sawl diffyg canfyddedig o ran mentrau pwrpasol sydd â'r nod o annog darllen er pleser yn ogystal â'r dirwedd ehangach a fwriedir i gefnogi llythrennedd ac ysgogi cariad gydol oes at ddarllen.

3.135 Pryder i randdeiliaid ac ymarferwyr cwmpasu yw'r dystiolaeth gyfyngedig o effaith rhaglenni presennol, yn enwedig mewn perthynas â'u heffeithiolrwydd wrth gael plant a dysgwyr i ddarllen er pleser: *"ychydig iawn ohonyn nhw (y mentrau), os o gwbl, sydd wedi cael eu profi'n ddigonol "* (rhanddeiliad cwmpasu)

3.136 Roedd llawer yn cydnabod yr heriau wrth wneud hyn, yn rhannol oherwydd – yn wahanol i welliannau mewn llythrennedd – mae mwynhad darllen yn rhywbeth anodd ei fesur. Yn ogystal, nid yw mentrau yn gweithredu ar wahân i'w gilydd, ond yn hytrach mae ysgolion yn aml *yn "pentyrru pethau ar ben ei gilydd",* gan ei gwneud hi'n anodd priodoli.

3.137 Gwaethygir y broblem hon gan y ffaith bod mentrau neu raglenni ffurfiol yn aml yn rhai tymor byr ac untro yn hytrach na'u bod yn cael eu cyfuno a'u cynnal dros amser. Roedd rhieni yn feirniadol o natur tymor byr rhai mentrau, sy'n rhedeg *"am ychydig wythnosau"* ac yna'n *"mynd i'r gwellt".* Yn ogystal â chreu heriau wrth asesu deilliannau, gall hyn hefyd gyfyngu ar yr effaith gyffredinol.

3.138 Roedd nifer o ymarferwyr yn disgrifio'r ddarpariaeth bresennol fel *"tameidiog", "mewn seilos"* neu *"gwasgaredig, heb fawr o gydlynu ".* Awgrymwyd bod ysgolion yn wynebu cynnig aneglur o ran yr hyn y gallant gael gafael arnynt, gan ei gwneud hi'n anodd canfod pa raglenni sy'n cefnogi darllen er pleser o gymharu â gwella sgiliau. Lle mae cost yn gysylltiedig â'r mentrau, mae hyn yn gwaethygu'r mater, yng nghyd-destun y cyllidebau cyfyngedig iawn sydd gan ysgolion.

3.139 O ran pa fentrau sydd ar gael, roedd llawer o'r rhai a gyfrannodd at yr ymchwil yn tynnu sylw at bwyslais annigonol ar gymhelliant ac ar fwynhad darllen. Dywedodd un rhanddeiliad cwmpasu fod y ddarpariaeth yn aml *yn "canolbwyntio ar ymyrryd, yn hytrach na bod wedi'i chynllunio i feithrin mwynhad"* ac y gall darllen er pleser *"fynd ar goll yng nghanol ffoneg ac ymyriadau sy'n canolbwyntio ar gyrhaeddiad."* Roedd rhieni yn teimlo bod rhaglenni yn aml yn canolbwyntio ar *"wobrau allanol" yn* hytrach na meithrin *"cymhelliant*

cynhenid" neu *"fwynhad parhaus"* tra bod ymarferwyr yn awgrymu y gall sesiynau hir, *"gorstrwythuredig"* neu *"anhyblyg"* leihau mwynhad ac arwain at ddysgwyr sy'n ymddieithrio â darllen allan o ddewis. Awgrymwyd hefyd nad yw athrawon o reidrwydd yn cael hyfforddiant ar sut i ysgogi ac ysbrydoli darllen er pleser.

3.140 Roedd teimlad helaeth ymhlith ymarferwyr, rhieni a rhanddeiliaid cwmpasu bod nifer y mentrau sydd ar gael i hyrwyddo darllen yn gostwng gydag oedran. Tra bod pwyslais cryf ar flynyddoedd cynnar (ar ffurf cynlluniau llyfrau fel rhoddion, a grwpiau darllen rhieni a phlant bach, er enghraifft) *"does dim byd ar gael i bobl ifanc yn eu harddegau"* (rhiant). Mae'r canfyddiad hwn yn cael ei gadarnhau gan broffil oedran targed y mentrau a nodwyd gan randdeiliaid, fel y disgrifir yn yr adran uchod.

3.141 Roedd un rhanddeiliad cwmpasu yn nodi rhagdybiaeth sef, unwaith y bydd plant yn gallu darllen, nid oes angen cymorth arnynt mwyach gyda darllen er pleser, tra bod rhieni mewn un grŵp yn teimlo y gall cefnogaeth gyda darllen gan ysgolion *"ddiflannu"* unwaith y bydd dysgwyr yn dod *yn "ddarllenwyr rhydd".*

3.142 Mae rhan o'r broblem yn ymwneud â'r mathau o lyfrau sydd ar gael a diffyg llyfrau sy'n briodol i'w hoedran i blant hŷn (o ran pwnc) sydd â sgiliau llythrennedd gwannach ond *"nad ydynt eisiau cael eu gweld fel darllenwyr llyfrau babanod"* (ymarferydd).

3.143 Cyfeiriodd sawl ymarferydd a rhanddeiliad at yr hyn a ddisgrifiodd un athro mewn ysgol arbennig fel "*diffyg difrifol o adnoddau priodol ar gyfer ADY [a] deunyddiau cyfyngedig iawn sy'n addas i ddysgwyr hŷn ag oedi gwybyddol."* Awgrymwyd, er y gall adnoddau fod *yn "rhy blentynnaidd eu dyluniad"* y gallant fod yn *"wybyddol anhygyrch i ddysgwyr ADY".*

3.144 Datgelodd yr ymchwil safbwyntiau gwrthgyferbyniol ar rôl ac effaith darpariaeth ddigidol; mae rhai yn awgrymu bod y twf mewn llwyfannau digidol wedi *"disodli buddsoddiad mewn llyfrau ffisegol"* (rhanddeiliad cwmpasu) tra bod eraill yn awgrymu bod mentrau presennol yn canolbwyntio gormod ar ddarllen traddodiadol seiliedig ar lyfrau ac nad

ydynt yn adlewyrchu sut mae plant yn darllen heddiw mewn gwirionedd, sef *"yr agwedd amlfoddol o ddarllen"* (rhanddeiliad cwmpasu).

3.145 Roedd barn fod cost ariannol tanysgrifiadau i lwyfannau digidol a llyfrau ffisegol yn broblem sy'n effeithio ar lawer o ysgolion yng Nghymru. Mae cyllidebau cyfyngedig yn golygu nad yw ysgolion yn gallu parhau i brynu *"llyfrau newydd, perthnasol sy'n adlewyrchu bywydau a diddordebau plant"* (rhanddeiliad cwmpasu).

3.146 Roedd rhieni'n disgrifio *"cyllidebau ysgol cyfyngedig"* yn arwain at *"lyfrau hen ac wedi'u difrodi"* tra bod ymarferydd yn cyfeirio at lyfrau sy*'n "hen-ffasiwn a ddim mewn cyflwr da"* mewn llawer o ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar. Mae hyn yn creu cyfle a gollir i ysbrydoli plant a phobl ifanc i ddewis llyfrau i'w darllen sy'n gyfoes ac o ddiddordeb iddynt.

3.147 Yn ogystal ag ysgolion sy'n brin o ddewis digonol o lyfrau o ansawdd digonol, awgrymwyd bod lleihad mewn mynediad at lyfrgelloedd yn tanseilio dyheadau i hyrwyddo darllen er pleser. I ardaloedd gwledig yn arbennig gall fod *"problemau mynediad lle mae llyfrgelloedd lleol wedi cau"* a bod unrhyw ddewis arall *"2 daith bws i ffwrdd"* ac felly nid yw'n *"realistig"* (rhanddeiliad cwmpasu). Hyd yn oed lle mae llyfrgelloedd cyhoeddus ar gael, gallant fod â llai o oriau a/neu fod yn llyfrgelloedd heb stoc ddigonol: *"Naill ai does gan lyfrgelloedd mo'r llyfrau, neu does dim llyfrgelloedd lleol."* (rhanddeiliad cwmpasu).

3.148 Roedd nifer helaeth o randdeiliaid, rhieni ac ymarferwyr yn tynnu sylw at fylchau mewn ffuglen Gymraeg. Cyfeiriwyd at ddiffyg llyfrau Cymraeg o ansawdd uchel i bobl ifanc yn eu harddegau, sy'n arwain at ddysgwyr hŷn *yn "newid"* i'r Saesneg *"i gael at awduron a llyfrau maen nhw eisiau eu darllen."* (rhanddeiliad cwmpasu).

3.149 Roedd rhai rhanddeiliaid yn feirniadol o'r diffyg amrywiaeth o fathau llenyddol mewn ffuglen cyfrwng Cymraeg. Er enghraifft straeon sy'n gysylltiedig â chwaraeon, ffuglen wyddonol neu'r celfyddydau creadigol. Yn fwy cyffredinol, awgrymwyd nad yw testunau Cymraeg bob amser yn

briodol i'w hoedran, gan fod naill ai'n *"rhy syml"* neu'n *"rhy ffurfiol",* sy*'n "peri rhieni a phlant i ymddieithrio"* (rhiant).

3.150 Roedd cwynion eraill mewn perthynas â darpariaeth ffuglen Gymraeg i blant a phobl ifanc a nodwyd yn yr ymchwil yn cynnwys anghysondebau rhanbarthol mewn rhai nofelau, er enghraifft y defnydd o dafodiaith y gogledd neu leoliadau yn y gorllewin a all eithrio dysgwyr o ardaloedd eraill o Gymru, a gor-ddibyniaeth ar lyfrau a gyfieithwyd o'r Saesneg, yn hytrach na llyfrau a ysgrifennwyd yn wreiddiol yn Gymraeg.

3.151 Awgrymodd un rhanddeiliad fod rhaglenni llythrennedd fel arfer yn rhagdybio dysgwr ag un iaith ac nad ydynt bob amser wedi'u cynllunio gyda dilyniannu dwyieithog mewn golwg**.**

Ymchwil ar fentrau sy'n hyrwyddo darllen er pleser

Ymchwil yng Nghymru

3.152 Er mai amcan y cwestiwn hwn oedd archwilio ymwybyddiaeth o unrhyw ymchwil neu werthusiadau o fentrau sy'n hyrwyddo darllen er pleser, yr enghreifftiau a ddyfynnwyd yn y rhan fwyaf o achosion oedd ymyriadau llythrennedd (ee rhaglenni sy'n canolbwyntio ar ffoneg a sgiliau dadgodio, cywirdeb darllen, rhuglder a dealltwriaeth) a werthuswyd yn hytrach na mentrau sydd â'r nod o ddatblygu diddordeb dysgwyr mewn darllen allan o ddewis. Un enghraifft a ddyfynnwyd oedd Research Informed Literacy with Language (RILL), a lansiwyd yn ystod pandemig COVID-19 ac sy'n canolbwyntio ar ddatblygu iaith a llythrennedd. Mae'r rhaglen wedi'i gwerthuso'n ddiweddar (deilliannau i'w cyhoeddi eto), gyda chyllid gan Sefydliad Nuffield a Llywodraeth Cymru.

3.153 Cyfeiriodd lleiafrif o randdeiliaid at enghreifftiau o ymchwil neu werthusiadau o fentrau cyfoethogi, er mai gwybodaeth gyfyngedig oedd ganddynt am ganfyddiadau neu gasgliadau o'r ymchwil:

> *"Rwy'n gwybod bod Sefydliad yr Uwch Gynghrair yn gwerthuso eu rhaglen [Sêr Cynradd yr Uwch Gynghrair], ond nid wyf yn gwybod a yw deilliannau llythrennedd wedi'u cynnwys."* (rhanddeiliad cwmpasu)

"Mae'r Ymddiriedolaeth Llythrennedd Cenedlaethol wedi cynnal ymchwil ar ymyriadau fel Diwrnod y Llyfr y Byd a Her Darllen yr Haf."
(rhanddeiliad cwmpasu)

3.154 Cyfeiriodd rhanddeiliad cwmpasu arall at *"werthusiadau dulliau cymysg"* o Bookstart, Pori Drwy Stori a'r Letterbox Club a 3 ton o arolwg cenedlaethol o ymddygiadau darllen plant.

3.155 Mae'r adborth cyfyngedig gan randdeiliaid yn dangos bod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn canolbwyntio ar *pam* fod darllen (ac i raddau llai darllen er pleser) yn bwysig, nid *beth* sy'n gwneud rhaglen yn effeithiol. Yr unig eithriad i hyn a grybwyllwyd yw adroddiadau Estyn 2023 a 2024 ar ddatblygu sgiliau darllen (Saesneg a Chymraeg, yn y drefn honno), a oedd yn nodi llythrennedd cryfach a mwy o ymwneud â darllen mewn ysgolion sydd â llyfrgelloedd ac iddynt adnoddau da ac a ddefnyddir yn helaeth.

Ymchwil rhyngwladol

3.156 Roedd i'r ymchwil hwn y nod hefyd o ganfod unrhyw ymwybyddiaeth o enghreifftiau rhyngwladol o ymchwil i fentrau sy'n hyrwyddo darllen er pleser. Yn yr achos hwn, dim ond rhanddeiliaid cwmpasu a rannodd enghreifftiau, ac ym mhob achos ond un, dyfynnwyd ymchwil sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ymyriadau neu raglenni llythrennedd yn hytrach na mentrau a fwriedir i ysbrydoli darllen allan o ddewis.

3.157 Roedd enghreifftiau a grybwyllwyd gan randdeiliaid cwmpasu yn cynnwys:

- Ymchwil rhyngwladol i'r dadansoddiad syml o ddarllen (Simple View of Reading – SVR)
- Ymchwil i effaith tystiolaeth diwygio llythrennedd ar lefel system yn Seland Newydd a Mississippi.
- Ymchwil rhyngwladol i fanteision gwybyddol ac addysgol darllen print (o'i gymharu â darllen ar sgrin), a oedd yn cynnwys gwell dealltwriaeth, sgiliau cadw a darllen ar raddfa uwch; fodd bynnag, ni roddwyd unrhyw gyfeiriad at wledydd penodol a gynhwyswyd yn yr ymchwil.

3.158 Yr unig enghraifft o ymchwil i fenter sy'n hyrwyddo darllen er pleser a grybwyllwyd mewn cyfweliadau oedd adolygiad o raglenni dwys darllen er pleser a gynhaliwyd gan yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Cenedlaethol yn Lloegr, a ddangosodd enillion cyrhaeddiad tymor byr a chynnydd mwy hirdymor mewn darllen er pleser.

Bylchau mewn ymchwil i fentrau sy'n hyrwyddo darllen er pleser

3.159 Gofynnwyd hefyd i randdeiliaid am eu hymwybyddiaeth o unrhyw fylchau yn y dystiolaeth ymchwil bresennol ar fentrau sydd â'r nod o annog darllen er pleser. Unwaith eto, roedd llawer yn dehongli'r cwestiwn hwn fel un sy'n ymwneud ag ymchwil i raglenni llythrennedd, naill ai yn ogystal â, neu'n hytrach na, mentrau cyfoethogi.

3.160 Ymhlith y rhai a atebodd y cwestiwn hwn[3], roedd cyfeiriadau helaeth at ddiffyg meincnodi, asesiad gwerth am arian na gwerthusiad cymharol: *"does dim sail dystiolaeth gynhwysfawr ar lefel system ar beth sy'n gweithio orau yng Nghymru. [Dylai] mynd i'r afael â'r bwlch hwn fod yn flaenoriaeth bwysig i Lywodraeth Cymru ac Adnodd."* (rhanddeiliad cwmpasu)

3.161 Awgrym un rhanddeiliad cwmpasu oedd, er bod astudiaethau peilot *"yn dangos dangosyddion cadarnhaol",* nid yw hyn yn cael ei gadarnhau gan werthusiad hirdymor, ar raddfa fawr, o effaith.

3.162 Roedd rhanddeiliad cwmpasu arall yn awgrymu bod y dystiolaeth ymchwil sydd ar gael yn seiliedig yn bennaf ar dystiolaeth anecdotaidd neu adborth gan Estyn: *"... mae tystiolaeth yn aml ar sail arferion neu arolygon yn hytrach nag o astudiaethau arbrofol ar raddfa fawr."* (rhanddeiliad cwmpasu)

3.163 Nodwyd bylchau penodol yn y dystiolaeth ymchwil o ran:

- Effeithiolrwydd darllen print o gymharu â darllen digidol wrth gefnogi datblygiad llythrennedd ac yn annog darllen er pleser
- Yr hyn sy'n gweithio mewn ysgolion difreintiedig a rhai sy'n perfformio'n is (y canfyddiad oedd bod pwyslais y dystiolaeth

[3] Daeth bron pob ymateb sylweddol i'r cwestiwn hwn gan randdeiliaid cwmpasu.

ymchwil bresennol ar ysgolion sy'n perfformio'n uwch mewn ardaloedd mwy llewyrchus)

- Ymchwil i ddulliau system gyfan: *"[mae] bwlch mewn tystiolaeth sy'n archwilio dulliau cydlynol a chyfannol sy'n cysylltu ysgolion, teuluoedd, llyfrgelloedd a chymunedau, yn hytrach nag ymyriadau ystafell ddosbarth ar wahân."* (rhanddeiliad cwmpasu)
- Ymchwil ar adnoddau llythrennedd Cymraeg o gymharu â rhai Saesneg a dilyniant dwyieithog.
- Tystiolaeth sy'n benodol i Gymru, gyda data *"yn aml wedi'i gyfuno â Lloegr"* ac yn cynnwys *"ychydig iawn o ymatebwyr o Gymru... [gan ei gwneud hi] yn anodd deall beth sy'n benodol i Gymru."* (rhanddeiliad cwmpasu)

Ffactorau sy'n effeithio ar weithgarwch ymarferwyr mewn mentrau

Rhwystrau

3.164 Yn ôl llawer o randdeiliaid cwmpasu, rhwystr mawr i ymarferwyr rhag cymryd rhan mewn mentrau llythrennedd oedd yr amser a'r capasiti sydd ar gael mewn ysgolion. Dywedodd ymarferwyr eu hunain hefyd fod amser cyfyngedig yn cyfyngu ar eu gallu i chwarae rhan lawn mewn mentrau, addasu adnoddau yn greadigol neu deilwra cymorth i anghenion dysgwyr unigol. Yn hytrach, roedd yn ofynnol yn aml i staff flaenoriaethu gofynion gweithredol a chwricwlwm o ddydd i ddydd. Roedd hyn yn arbennig o amlwg lle roedd rhaglenni darllen er pleser yn cael eu hystyried fel pe baent yn ychwanegol at gyfrifoldebau addysgu craidd, yn hytrach nag fel rhan annatod o ddarpariaeth llythrennedd. Nododd ymarferwyr eraill hefyd fod y cwricwlwm prysur yn cyfyngu ar gyfleoedd i ymgorffori gweithgareddau fel ymweliadau â llyfrgelloedd mewn amserlenni ysgol sydd eisoes yn brysur.

3.165 Roedd y graddau'r adnoddau ar gael hefyd yn cael ei nodi fel ffactor pwysig sy'n cyfyngu ar barodrwydd ymarferwyr i gymryd rhan. Roedd ymarferwyr yn amlinellu sut roedd gwybodaeth gyfyngedig ymhlith staff

ynghylch ble i ganfod llenyddiaeth o ansawdd uchel a chynrychioliadol i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth. Nodwyd diffyg ymwybyddiaeth o fentrau ac iddynt y nod o hyrwyddo darllen er pleser sydd ar gael (o'i gymharu â'r rhai sy'n ymwneud yn benodol ag addysgeg llythrennedd) ymhlith ymarferwyr hefyd fel ffactor sy'n effeithio ar eu gallu i gymryd rhan. Adroddodd rhai ymarferwyr mai cyfyngedig oedd eu profiad o raglenni perthnasol, gydag un yn dweud "*Ni fyddwn yn dweud fy mod wedi dod ar draws cymaint â hynny [rhaglenni sy'n benodol ar gyfer hyrwyddo darllen er pleser]*".

3.166 Roedd yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu disgrifio hefyd fel rhai hen neu "*ddim yn addas i'r diben*", gyda chyllid cyfyngedig yn cyfyngu ar allu ysgolion i ddiweddaru deunyddiau fel eu bod yn adlewyrchu diddordebau a phrofiadau dysgwyr yn well (ymarferydd).

3.167 Nodwyd bod diffyg adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gael yn bryder arbennig, gydag ymarferwyr yn adrodd nad oedd y ddarpariaeth bresennol yn ddigonol i gefnogi gweithgarwch cyson mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

3.168 Roedd lleihad mewn seilwaith llyfrgell a gwasanaethau llyfrau hefyd yn cael ei weld fel rhywbeth sy'n cyfrannu at lai o fynediad at adnoddau, gan gyfyngu ar yr hyn y gall ymarferwyr ei ddefnyddio i gefnogi darllen er pleser.

3.169 Roedd rhwystr arall yn ymwneud â'r anghysondeb canfyddedig rhwng yr adnoddau sydd ar gael a'r Cwricwlwm i Gymru. Adroddodd ymarferwyr fod rhai adnoddau a ddatblygwyd yn Lloegr yn gosod disgwyliadau y gwelwyd eu bod yn uwch na'r rhai yng Nghymru. Roedden nhw hefyd yn nodi heriau wrth geisio cyfateb labeli grwpiau blwyddyn Saesneg â chyfnodau dilyniant yng Nghymru. Soniodd sawl ymarferydd nad yw'r adnoddau presennol yn gyson â'r Cwricwlwm i Gymru ei hun. Nid yw sgiliau llythrennedd craidd o reidrwydd yn cael eu meithrin yn gynyddol na'n benodol ar draws y cwricwlwm, ac, i un ymarferydd, mae dulliau creadigol yn ymddangos yn anghydnaws â gofynion TGAU.

3.170 Roedd agweddau personol ymarferwyr tuag at ddarllen hefyd yn effeithio ar eu parodrwydd ei gymryd rhan. Thema ailadroddus gan randdeiliaid cwmpasu oedd bod rhai ymarferwyr nad ydynt yn darllen er pleser eu hunain, a all ei gwneud hi'n anoddach iddynt ddangos esiampl o frwdfrydedd dros ddarllen neu argymell testunau yn hyderus i ddysgwyr. Nododd un rhanddeiliad cwmpasu hefyd raniad yn ôl pynciau mewn ymwneud â mentrau darllen, gan nodi nad yw ymarferwyr mewn pynciau STEM byth yn cymryd rhan. Roedd y farn fod rhai ymarferwyr yn brin o hyder mewn cefnogi darllen y tu hwnt i sgiliau technegol fel ffoneg a geirfa. Roedd hyn yn gysylltiedig â chanfyddiad gan randdeiliad cwmpasu arall bod "*athrawon mewn ofn a dychryn ... dydyn nhw ddim yn gweld eu hunain fel athrawon ieithoedd."*

3.171 Roedd cyfraniad ymarferwyr yn dibynnu hefyd ar y diwylliant darllen ehangach o fewn ysgolion. Mewn rhai ysgolion, gwelwyd bod gweithgarwch yn cael ei gyfyngu gan absenoldeb "*diwylliant darllen ysgol gyfan*" (rhanddeiliad cwmpasu) ac arweinyddiaeth nad oedd yn blaenoriaethu darllen er pleser.

3.172 Yn olaf, dywedodd rhanddeiliad cwmpasu y gall deilliannau mentrau darllen er pleser fod yn anodd eu mesur, a'i bod yn aml yn ofynnol i ysgolion ddangos cynnydd trwy ganlyniadau mesuradwy.

Galluogwyr

3.173 Fe wnaeth ymarferwyr hefyd nodi amrywiaeth o ffactorau a oedd yn ei gwneud yn haws iddynt chwarae rhan mewn mentrau llythrennedd. Un galluogydd allweddol oedd mynediad at ddeunyddiau parod y gellid eu defnyddio heb fod angen addasu llawer arnynt. Roedd hyn yn arbennig o bwysig gan fod prinder amser a chapasiti yn cael eu nodi fel rhwystrau mawr rhag cymryd rhan. Roedd ymarferwyr i raddau helaeth yn gwerthfawrogi rhaglenni a mentrau a oedd yn cynnig hyblygrwydd ac y gellid eu integreiddio'n naturiol i weithdrefnau ystafell ddosbarth, megis gweithgareddau darllen ar y cyd neu sesiynau dyddiol byr. Roedd rhai ymarferwyr hefyd yn canfod bod adnoddau llythrennedd ar-lein yn galluogi gweithgarwch, gan bwysleisio'r amrywiaeth o adnoddau sydd ar

gael yn ddigidol a'r potensial i blatfformau digidol gefnogi gwahanol ffyrdd o ddysgu. Roedd ffafriaeth glir hefyd i ddeunyddiau parod sydd ar gael mewn darpariaeth aml-gyfrwng, ac sy'n fforddiadwy i ysgolion eu defnyddio'n gyson.

3.174 Nodwyd mynediad at ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel hefyd fel galluogwr pwysig. Adroddodd un rhanddeiliad cwmpasu y gallai hyfforddiant helpu i feithrin hyder wrth gefnogi llythrennedd y tu hwnt i sgiliau sylfaenol fel ffoneg, dadgodio a geirfa. Y farn gan randdeiliaid cwmpasu oedd bod cymorth strwythuredig a pharhaus yn arbennig o bwysig lle'r oedd yn helpu ymarferwyr i ddeall sut i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol a'u haddasu i anghenion dysgwyr. Yn ogystal, roedd rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau ac mewn rhwydweithiau yn cael ei weld fel ffordd o rannu arferion effeithiol.

3.175 Roedd ymarferwyr hefyd yn amlygu pwysigrwydd canllawiau a thystiolaeth gliriach am yr hyn sy'n gweithio. I un ymarferydd, gall dulliau sy'n dangos yn gyflym eu bod yn gweithio helpu i annog defnydd parhaus a'i gwneud hi'n haws i ymarferwyr barhau gyda menter.

3.176 Roedd cymorth arweinwyr ysgolion hefyd yn allweddol fel galluogydd gweithgarwch. Yn ôl rhanddeiliaid cwmpasu, lle roedd uwch arweinwyr yn mynd ati'n fwriadol i flaenoriaethu llythrennedd a darllen er pleser, roedd ymarferwyr yn fwy tebygol o deimlo bod y gwaith hwn yn cael ei werthfawrogi a'i ddiogelu. Mae cymorth arweinwyr hefyd yn bwysig wrth greu'r amodau ymarferol ar gyfer gweithgarwch, gan gynnwys dyrannu cyllideb, darparu amser, trefnu staff llanw a galluogi staff i fynychu hyfforddiant perthnasol.

3.177 Cafodd adnoddau priodol i oedran eu nodi fel ffactor sy'n cefnogi gweithgarwch llythrennedd. Roedd ymarferwyr a rhanddeiliaid cwmpasu yn tynnu sylw at bwysigrwydd systemau sy'n cysylltu llyfrau â chyfnod darllen dysgwyr, yn hytrach na dibynnu ar gategoreiddio ar sail oedran yn unig. Ar yr un pryd, mae angen i adnoddau deimlo'n briodol i oedran o ran themâu, cyflwyniad a diddordebau. Pwysleisiodd ymarferwyr hefyd yr angen am fformatau addas ar draws gwahanol oedrannau, gan

gynnwys llyfrau gwydn a seiliedig ar chwarae ar gyfer lleoliadau blynyddoedd cynnar.

3.178 Yn olaf, roedd ymarferwyr yn mynegi ffafriaeth glir i ddeunyddiau a rhaglenni sy'n gyson â'r Cwricwlwm i Gymru a blaenoriaethau llythrennedd ehangach. Roedd mentrau yn cael eu hystyried yn fwy defnyddiol lle gellid defnyddio adnoddau ar draws y cwricwlwm, yn hytrach na bod yn gyfyngedig i wersi llythrennedd neu iaith ar wahân. Roedd hyn yn bwysig wrth helpu ymarferwyr i osod darllen a llythrennedd fel rhan o addysgu a dysgu ehangach, yn hytrach nag fel gweithgaredd ychwanegol sy'n cystadlu â gofynion presennol y cwricwlwm.

Ffactorau sy'n effeithio ar weithgarwch dysgwyr mewn mentrau a darllen er pleser yn gyffredinol

Rhwystrau

3.179 Un rhwystr mawr i ennyn diddordeb dysgwyr mewn mentrau llythrennedd oedd sgiliau darllen sylfaenol gwan, yn enwedig lle rhoddwyd llyfrau i ddysgwyr y tu hwnt i'w hoedran darllen presennol neu lefel hyder. Dywedodd dysgwyr eu bod yn cael *"llyfrau anoddach"* cyn iddynt deimlo'u bod yn barod, a oedd yn arwain at fod *"ddim eisiau darllen neu roi'r gorau iddi."* Pan ofynnwyd iddynt am ba raddau y maent yn mwynhau darllen ar eu pen eu hunain, dywedodd dysgwyr ysgol gynradd mai rhwystr i hyn oedd nad oedd ganddynt rywun yn gwrando a allai dynnu sylw at y camgymeriadau neu esbonio geiriau mwy cymhleth. Roedd rhanddeiliaid yn tynnu sylw hefyd at bwysigrwydd dealltwriaeth, gan nodi nad oedd gallu dadgodio geiriau bob amser yn ddigon i wneud darllen yn bleserus na'n ystyrlon. Fel yr esboniodd un rhanddeiliad cwmpasu: *"Gall dysgwyr ymddieithrio os gallant ddadgodio testun ond nad ydynt yn ei ddeall, sy'n lleihau mwynhad a chymhelliant."* Nodwyd hyder isel disgyblion hefyd fel rhwystr, gydag ymarferwyr yn awgrymu bod rhai dysgwyr yn osgoi llyfrau er mwyn peidio â *"teimlo'n dwp*" (ymarferydd).

3.180 Nodwyd y disgwyliad y dylai darllenwyr mwy abl symud ymlaen i lyfrau hirach neu fwy cymhleth hefyd fel ffactor a allai danseilio ymlyniad. Esboniodd un rhiant: *"pan fydd eu darllen [dysgwyr] yn gwella, mae llyfrau ... yn mynd yn fwy"* ac y gallant ddod *yn "llethol"* (rhiant). Mae hyn yn awgrymu nad oedd dilyniant mewn darllen bob amser yn cael ei brofi'n gadarnhaol gan ddysgwyr, yn enwedig lle roedd anhawster cynyddol yn gysylltiedig â thestunau hirach yn hytrach na bod mwynhad, dewis neu hyder yn parhau. Nodwyd teimlad o gywilydd ynghylch cael trafferth gyda darllen neu ofyn am help hefyd fel rhwystr, gydag un ymarferydd yn nodi bod *"darllenwyr sy'n cael trafferth yn cysylltu darllen â methiant"* (ymarferydd).

3.181 Adroddodd dysgwyr y gallai diffyg cefnogaeth gan rieni neu athrawon – yn enwedig pan ofynnir iddynt ddarllen llyfr mwy heriol – fod yn rhwystr rhag darllen.

3.182 Adroddwyd hefyd bod gorbwyslais ar ddatblygu sgiliau, ar draul ystyr a mwynhad, yn effeithio ar ddiddordeb y dysgwyr. Disgrifiodd dysgwyr deimlo'u bod yn cael eu " *beirniadu", "rhuthro",* a'u bod *"yn methu dilyn y stori",* a nododd fod *"geiriau newydd neu iaith anodd yn rhwystr [i ddarllen er pleser]."* Awgrymodd rhanddeiliaid yn yr un modd nad yw rhaglenni sy'n canolbwyntio'n rhy gul ar fecanwaith darllen efallai yn helpu i gynnal mwynhad darllen. Fel y dywedodd un rhanddeiliad cwmpasu: *"Lle bo rhaglenni'n canolbwyntio'n rhy gul ar fecanwaith yn hytrach nag ar ystyr a mwynhad, gall dysgwyr wella o safbwynt technegol ond dydyn nhw ddim yn datblygu arferion darllen cadarnhaol."* Roedd hyn yn cael ei weld fel rhywbeth sy'n cyfyngu'r graddau y mae dysgwyr yn datblygu cysylltiadau cadarnhaol gyda darllen, hyd yn oed lle bo sgiliau darllen technegol yn gwella.

3.183 Roedd mynediad at ddeunydd darllen diddorol ac sy'n briodol i'w hoedran yn rhwystr arall wrth ennyn diddordeb dysgwyr. Roedd rhanddeiliaid yn nodi diffyg ffuglen gyfoes sy'n gydnaws â diddordebau dysgwyr, gan gynnwys llyfrau sy'n gysylltiedig â chwaraeon, diwylliant, a phynciau eraill y mae dysgwyr yn eu gweld yn berthnasol i'w bywydau. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i ddysgwyr hŷn, o ystyried bod

rhanddeiliaid wedi adrodd bod cymorth darllen er pleser yn lleihau yn aml ar ôl blynyddoedd cynnar ysgol gynradd, a bod angen i lyfrau addas gyfateb â diddordebau ac aeddfedrwydd dysgwyr. Roedd dysgwyr ysgol gynradd hefyd yn crybwyll llyfrau *"diflas"* neu anniddorol fel rhywbeth a oedd yn eu cadw draw oddi wrth ddarllen. Roedd rhai wedi cael profiad o ddarllen llyfrau a oedd *"wedi dechrau'n dda ond fod y stori wedi troi'n wael wedyn."*

3.184 Roedd colli llyfrgelloedd ysgol a chymunedol hefyd yn cael ei weld fel rhywbeth a oedd yn lleihau cyfleoedd i ddysgwyr *"bori a darganfod llyfrau"* (rhanddeiliad cwmpasu), tra bod oriau agor llyfrgelloedd cyfyngedig, lleoliad gwledig, a defnydd isel o lyfrgelloedd lleol yn cyfyngu ar fynediad y tu allan i'r ysgol. Cyfeiriwyd hefyd at ffynonellau cyfoethogi ehangach, gan gynnwys mynediad cyfyngedig at brofiadau diwylliannol fel drama a theatr, a allai ennyn diddordeb yn anuniongyrchol mewn darllen. Adroddodd dysgwyr hefyd y gallai cael eu gorfodi i *"ddarllen llawer o lyfrau trwy'r amser"* beri iddynt golli diddordeb mewn darllen trwy ddewis, tra bod dysgwyr iau yn pwysleisio pwysigrwydd darluniau i'w helpu i gynnal eu diddordeb. Ar y llaw arall, roedd lleiafrif o ddysgwyr ysgol gynradd o'r farn fod darluniau mewn llyfrau darfu ar eu canolbwyntio wrth iddynt edrych ar y lluniau yn hytrach na darllen y stori.

3.185 Nodwyd cystadleuaeth am amser a sylw dysgwyr hefyd fel rhwystr. Awgrymodd ymarferwyr fod defnydd eang o ffonau a thabledi yn gysylltiedig â *"chyfnodau canolbwyntio byr"* ac awydd am *"foddhad ar unwaith*", a allai danseilio diddordeb mewn darllen parhaus. Roedd hyn yn gysylltiedig â gweithgareddau ehangach ar y sgrin, gan gynnwys gemau, teledu, cyfryngau cymdeithasol, y rhyngrwyd, ac apiau, a allai, ym marn rhanddeiliaid, dynnu sylw dysgwyr a disodli'r amser a dreulir gyda llyfrau. Nododd rhieni hefyd fod ymrwymiadau eraill, yn enwedig gweithgareddau allgyrsiol, yn cyfyngu'r amser sydd ar gael gan rai plant i ddarllen er pleser y tu allan i'r ysgol. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol yn achos rhai bechgyn, lle roedd chwaraeon a gweithgareddau eraill fel pe baent yn cystadlu â darllen am amser a

blaenoriaeth. Mae'n nodedig fod pob un o'r dysgwyr ysgol uwchradd yn teimlo bod cael *"pethau gwell i'w gwneud, fel chwaraeon"* yn rhwystr rhag darllen er pleser. Y farn oedd bod arferion cartref ehangach hefyd yn effeithio ar barodrwydd i ddarllen, gydag ymarferwyr yn adrodd y gallai darllen fod yn llai cyfarwydd lle nad oedd rhieni yn darllen i blant, lle nad oeddent yn darllen eu hunain, neu lle mae amserlenni teuluol prysur yn cyfyngu ar amser ar gyfer darllen.

3.186 Cyfeiriodd dysgwyr hefyd at bethau sy'n tynnu eu sylw oddi wrth ddarllen, gan gynnwys y rhyngrwyd neu apiau (problem yn achos darllen digidol yn enwedig) ond hefyd anawsterau i ganolbwyntio oherwydd pobl sy'n siarad o'u cwmpas, gan eu gwneud yn fwy tebygol o golli eu lle, rhoi'r gorau i ddarllen er mwyn siarad neu wrando ar y bobl eraill neu arwain at iddynt fod yn darllen yr un tudalennau neu linellau dro ar ôl tro. Cyfeiriodd dysgwyr ysgol uwchradd yn arbennig at sŵn uchel o'u cwmpas fel rhywbeth sy'n ei gwneud hi'n anodd darllen.

3.187 Adroddwyd hefyd bod amddifadedd yn effeithio ar ymroddiad dysgwyr, yn enwedig trwy gost llyfrau a dibynnu ar ddeunyddiau a rennir neu ail-law. O'r 11 o ddysgwyr ysgol uwchradd a gymerodd ran yn yr ymchwil, nododd 8 ohonynt fod cost llyfrau yn rhwystr i ddarllen. Roedd ymarferwyr a rhanddeiliaid cwmpasu'n nodi mynediad cyfyngedig at lyfrau fel rhwystr, gyda rhai ymarferwyr yn nodi nad oedd gan deuluoedd ddim, neu fawr ddim, llyfrau gartref ac nad oeddent bob amser yn gallu fforddio prynu llyfrau. Dywedodd un ymarferydd nad oes gan *"[rhai] blant fynediad at lyfrau, teganau",* tra rhanddeiliad cwmpasu yn nodi nad oedd rhai teuluoedd *"yn gallu fforddio £8.99 am lyfr".* Roedd ymarferwyr a rhanddeiliaid cwmpasu yn ystyried hyn fel rhywbeth arbennig o bwysig yn y blynyddoedd cynnar, lle gall llai o brofiadau cynnar a llai o amlygiad i lyfrau gyfrannu at eirfa fwy cyfyngedig, gan ei gwneud hi'n anoddach i ddysgwyr ddeall testunau a lleihau eu parodrwydd i ddarllen a'u mwynhad wrth ddarllen yn ddiweddarach. Felly, y farn oedd bod mynediad at ddeunyddiau darllen o'r cychwyn yn bwysig - nid yn unig er mwyn ennyn eu diddordeb ar y pryd, ond hefyd er mwyn cefnogi hyder a mwynhad darllen dysgwyr yn fwy hirdymor.

3.188 Dywedodd rhai dysgwyr ysgol gynradd y gall angen dal llyfr yn gorfforol fod yn rhwystr rhag darllen, tra bod y Kindle yn cael ei weld. fel yr adnodd darllen gorau, o ystyried ei fod yn hawdd i'w ddefnyddio, y gellir ei ddefnyddio heb afael ynddo a bod ganddo fynediad at amrywiaeth eang o lyfrau ar-lein.

3.189 Roedd iaith yn rhwystr pwysig arall wrth ennyn diddordeb dysgwyr. Disgrifiwyd Saesneg fel iaith ychwanegol fel *"rhwystr mawr"* i ddarllen yn Saesneg, yn enwedig lle roedd dysgwyr yn dysgu trwy iaith *"nad ydynt yn ei siarad gartref"* (ymarferydd). Adroddwyd hefyd bod dysgwyr dwyieithog yn wynebu dewisiadau rhwng darllen yn Saesneg a Chymraeg. Nododd rhanddeiliaid y gall dysgwyr *"newid i ddarllen Saesneg os nad yw llyfrau Cymraeg addas ar gael neu nad ydynt yn apelgar, gan ddarllen llai o Gymraeg*" (rhanddeiliad cwmpasu). Roedd rhai rhieni hefyd yn canfod llyfrau Cymraeg yn *"anoddach"* na llyfrau Saesneg. Mewn cyd-destunau cyfrwng Cymraeg, adroddodd ymarferwyr y gallai diffyg sgiliau Cymraeg gartref gyfyngu ar effaith adnoddau sy'n cael eu hanfon i'w cartref, oherwydd *"efallai na fydd rhieni yn gallu cefnogi darllen gartref, gan gyfyngu ar effaith adnoddau [Cymraeg] a anfonir i'w cartref"* (ymarferydd).

3.190 Nodwyd anghenion dysgu ychwanegol hefyd fel rhywbeth sy'n effeithio ar weithgarwch darllen dysgwyr, gan gynnwys dyslecsia ac ADHD. Awgrymodd rhanddeiliaid y gallai dysgwyr ag anghenion ychwanegol fod angen cymorth mwy penodol i ennyn eu diddordeb mewn mentrau llythrennedd, yn enwedig lle mae darllen eisoes yn gysylltiedig ag anhawster neu rwystredigaeth. Nododd ymarferwyr hefyd oblygiadau ehangach yn yr ystafell ddosbarth, gydag un yn nodi *"[gyda] mwy o blant ar y sbectrwm [ASD] mae'n tynnu sylw oddi wrth gymorth llythrennedd i'r holl blant eraill"* [ymarferydd].

Galluogwyr

3.191 Cafodd sgiliau sylfaenol cryf eu nodi fel galluogwyr wrth ennyn diddordeb dysgwyr. Dywedodd rhanddeiliaid cwmpasu fod dysgwyr yn fwy tebygol o fwynhau darllen pan fydd dadgodio a dealltwriaeth iaith yn

gadarn, a bod darllen er pleser yn anodd "*os na allwch ddarllen*", yn enwedig i ddarllenwyr sy'n cael trafferth (rhanddeiliad cwmpasu). Felly, roedd sicrhau bod dysgwyr yn datblygu sgiliau sylfaenol cryf yn gynnar yn bwysig wrth alluogi iddynt gymryd rhan mewn mentrau. Adroddodd dysgwyr hefyd bwysigrwydd gallu darllen yn dda fel rhag-amod gychwynnol ar gyfer darllen er pleser.

3.192 Caiff ymdeimlad o lwyddiant a chymhelliant dysgwyr ei gefnogi hefyd trwy ddulliau sy'n gwneud i ddarllen deimlo'n gyraeddadwy ac sy'n rhoi boddhad. Gwelwyd bod rhaglenni a helpodd dysgwyr i deimlo'n llwyddiannus, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â sesiynau byrrach, yn cefnogi parodrwydd i ddarllen yn annibynnol. Roedd amryw o ymatebion yn pwysleisio hefyd y gallai cystadleuaeth rhwng cyfoedion ac elfennau o wobrwyo helpu i annog cyfranogiad. Nodwyd brwdfrydedd athrawon hefyd fel rhywbeth pwysig, gydag ymarferwyr yn nodi bod dysgwyr yn ymateb yn gadarnhaol pan fydd athrawon yn amlwg â diddordeb yn y testun neu'r gweithgaredd. Ymddengys fod y dulliau hyn yn fwyaf defnyddiol lle maent yn cefnogi hyder a chymhelliant, yn hytrach nag ychwanegu pwysau neu atgyfnerthu profiadau negyddol o ddarllen.

3.193 Dywedodd dysgwyr ysgol gynradd y gall argymhellion am lyfrau gan athrawon, rhieni a hyd yn oed ffrindiau eu hannog i ddarllen er pleser.

3.194 Cafodd dewis unigol, cynrychiolaeth a diddordebau personol eu nodi fel galluogwyr pwysig darllen er pleser. Roedd caniatáu i ddysgwyr ddewis y pynciau a'r themâu maen nhw'n darllen neu ysgrifennu amdanynt yn cael ei nodi yn aml fel rhywbeth sy'n ei gwneud hi'n haws ennyn eu diddordeb. Adroddodd ymarferwyr hefyd fod dysgwyr yn fwy tebygol o ymwneud â darllen pan maent yn gallu "*gweld eu hunain*" neu adnabod profiadau perthnasol yn yr hyn y maent yn ei ddarllen. Cafodd deunyddiau darllen a oedd yn cynnwys lluniau hefyd eu nodi fel cymorth (hyd yn oed i ddysgwyr hŷn), gan fod y rhain yn ei gwneud hi'n haws i ddysgwyr ddychmygu straeon ac ymwneud â'r deunydd.

3.195 Cafodd darllen gartref hefyd ei nodi fel galluogwr pwysig wrth ennyn diddordeb dysgwyr. Nodwyd bod cymorth rhieni a gofalwyr yn y cartref,

straeon yn cael eu darllen iddynt, a chael eu hannog i ddarllen ac ysgrifennu yn cefnogi perthynas gadarnhaol â llythrennedd. Roedd rhanddeiliaid yn tynnu sylw hefyd at bwysigrwydd oedolion yn gwerthfawrogi unrhyw ddarllen a wneir gartref, hyd yn oed pan nad oedd hwn yn llyfr cynllun darllen a bennwyd gan yr ysgol. Roedd modelu rôl oedolion yn bwysig, gydag un ymarferydd yn nodi mai *"yr hyn y mae plant yn ei weld yw'r hyn maen nhw'n ei wneud".* Nodwyd bod gweithgarwch ar y cyd a pherthynas hefyd yn hanfodol, gydag ymarferwyr yn awgrymu y gallai darllen gydag oedolion, canu gyda'i gilydd, neu edrych dros ddeunyddiau annog brwdfrydedd, yn enwedig lle roedd yn well gan blant ddarllen gydag oedolion yn hytrach nag ar eu pen eu hunain.

3.196 Cafodd technoleg, cyfryngau cymdeithasol, gemau, ac apiau eu nodi fel galluogwyr posibl lle maent yn helpu dysgwyr i ddeall darllen fel rhywbeth ehangach na llyfrau yn unig. Awgrymodd ymarferwyr a rhieni fod dysgwyr yn dangos mwy o ymroddiad pan oedd darllen yn gysylltiedig â fformatau eraill, gan gynnwys gemau, gweithgareddau digidol, a chynnwys sy'n seiliedig ar ddyfeisiau. Canmolwyd fformatau digidol hefyd am alluogi dysgwyr i gyfathrebu a mynegi syniadau mewn gwahanol ffyrdd, gan awgrymu y gall technoleg helpu i gynnwys dysgwyr nad ydynt mor barod i ymwneud â darllen print traddodiadol. Roedd dysgwyr yn eu harddegau eu hunain yn nodi cynllun a chyflymder stori fel rhai o'r rhesymau pam roedd gemau fideo mor ddiddorol.

3.197 Gwelwyd bod perchnogaeth deunyddiau a mynediad rheolaidd at lyfrau ffisegol hefyd yn ei gwneud yn haws ennyn diddordeb. Adroddodd rhanddeiliaid fod plant yn fwy tebygol o ymwneud â darllen lle roedd ganddynt fynediad rheolaidd at lyfrau trwy ysgolion, llyfrgelloedd, neu'r cartref. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i ddysgwyr nad oes ganddynt lawer o lyfrau gartref, gan y gallai darpariaeth ysgolion a llyfrgelloedd ddarparu cyfleoedd i bori, dewis a mynd â llyfrau gartref. Cadarnhawyd hyn gan ddysgwyr a oedd yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymweld â llyfrgelloedd – mewn rhai achosion yn annibynnol – a dewis o

amrywiaeth helaeth o lyfrau. Nododd rhai fod gallu "darllen y broliant" ar y clawr cefn yn eu helpu i ddewis llyfrau y byddent yn eu mwynhau. Roedd perchnogaeth llyfrau hefyd yn cael ei ystyried fel rhywbeth sy'n annog darllen trwy roi rhywbeth i ddysgwyr sy'n teimlo'n bersonol iddynt.

3.198 Soniodd dysgwyr ysgol uwchradd am bwysigrwydd cael amgylchedd priodol ar gyfer darllen, gan gynnwys cael rhywle tawel ac ar eu pen eu hunain a chael diod poeth. Ar y llaw arall, roedd 5 o'r 11 o ddysgwyr ysgol uwchradd yn teimlo y gall gwrando ar gerddoriaeth yn y cefndir ei gwneud hi'n haws darllen er pleser.

3.199 Yn olaf, nodwyd dulliau addysgu amgen fel rhai sy'n galluogi dysgwyr i ymuno â mentrau llythrennedd. Awgrymodd ymarferwyr y gallai newid amgylcheddau, chwarae rhan, trafodaeth, gweithgareddau cydweithredol, drama, canu a pherfformio helpu i wneud darllen yn fwy diddorol. Y farn oedd bod y dulliau hyn yn ddefnyddiol lle maent yn symud llythrennedd y tu hwnt i dasgau darllen unigol ac yn creu llwybrau mwy gweithredol, cymdeithasol a chreadigol i gymryd rhan.

Ffactorau sy'n effeithio ar weithgarwch rhieni/gofalwyr mewn mentrau

3.200 Mae deilliannau'r arolwg yn awgrymu bod canfyddiadau ymarferwyr o weithgarwch rhieni a gofalwyr mewn rhaglenni darllen er pleser yn gymysg, ond yn gyffredinol yn gymedrol. Nid oedd dim un o'r 12 ymarferydd a ymatebodd yn teimlo bod cyfraniad rhieni a gofalwyr yn weithgar iawn na'n hynod o weithgar. Roedd hanner yr ymatebwyr yn disgrifio rhieni a gofalwyr fel rhai sy'n chwarae rhan gymedrol, tra bod 4 yn teimlo eu bod yn chwarae rhan fach a 2 yn dweud nad oeddent yn cyfrannu o gwbl.

Rhwystrau

3.201 Cafodd cost a'r graddau mae adnoddau ar gael eu nodi fel rhwystrau i rieni a gofalwyr gymryd rhan mewn mentrau llythrennedd. Cydnabuwyd mai mynediad cyfyngedig sydd gan rai teuluoedd at ddeunyddiau darllen gartref, a all gyfyngu ar weithgarwch rhieni a gofalwyr yn ogystal â gweithgarwch ehangach dysgwyr gyda llythrennedd. Yn ogystal, mae

cost deunyddiau llythrennedd yn eu rhoi allan o gyrraedd llawer o rieni a gofalwyr. Nodwyd gan randdeiliaid cwmpasu ac ymarferwyr fod llawer o deuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig yn ei chael yn anodd fforddio prynu llyfrau neu offer a dyfeisiau digidol, a bod diffyg darpariaeth llyfrau am ddim yn ei gwneud yn anodd iawn iddynt gyfrannu. Mae hyn yn awgrymu y gall mentrau sy'n dibynnu ar deuluoedd sydd eisoes â'r deunyddiau angenrheidiol fod mewn perygl o eithrio'r rhai a allai elwa fwyaf. Yn ogystal, nodwyd cost adnoddau cyfrwng Cymraeg, a'r graddau'r oeddent ar gael, fel pryder arbennig, gyda llawer o rieni mewn grwpiau ffocws cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn nodi y gall y deunyddiau hyn fod yn ddrutach a heb fod ar gael mor rhwydd.

3.202 Cafodd mynediad ffisegol at adnoddau hefyd ei godi fel rhwystr. Roedd oriau agor cyfyngedig llyfrgelloedd, colli gwasanaethau llyfrgelloedd lleol a'r pellter y mae angen i rai teuluoedd deithio i gyrraedd siopau llyfrau neu lyfrgelloedd i gyd yn cael eu gweld gan sawl rhiant a rhanddeiliaid fel pethau sy'n cyfyngu ar eu cyfleoedd i gyfrannu. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol mewn ardaloedd gwledig, lle gall mentrau sy'n dibynnu ar fynediad rheolaidd i lyfrgell fod yn llai effeithiol os yw teuluoedd yn wynebu anawsterau ymarferol wrth gyrraedd y mannau hyn.

3.203 Roedd rhwystr pellach a nodwyd gan ymarferwyr a rhanddeiliaid cwmpasu yn gysylltiedig â hyder a sgiliau llythrennedd rhieni a gofalwyr eu hunain. Gall llawer o rieni a gofalwyr ei chael mor anodd i ddarllen eu hunain fel eu bod yn ymylu ar anllythrennedd neu gallant fod yn tanbrisio eu lefel darllen eu hunain. Fel y nododd un rhanddeiliad, gall rhai rhieni sydd â phrofiadau ysgol negyddol neu sy'n teimlo'n ansicr am eu sgiliau eu hunain fod yn bryderus am "*addysgu'n anghywir*" neu ddatgelu eu hanawsterau eu hunain. Gall y diffyg hyder hwn wneud rhieni a gofalwyr yn llai tebygol o geisio cymorth neu gymryd rhan mewn mentrau – neu annog eu plentyn i ddarllen er pleser – yn enwedig pan fyddant yn ofni cael eu barnu gan eraill.

3.204 Yn yr un modd, nodwyd graddau dealltwriaeth rhieni a gofalwyr o werth ehangach darllen fel ffactor pwysig sy'n effeithio ar eu parodrwydd i

gyfrannu. Awgrymodd ymarferwyr a rhanddeiliaid cwmpasu nad yw rhai teuluoedd efallai'n sylweddo'n llawn y rôl y gall darllen ei chwarae wrth gefnogi hyder, llesiant, cyrhaeddiad a datblygiad ehangach dysgwyr. Yn yr achosion hyn, gellir gweld darllen gartref fel gweithgaredd ychwanegol cadarnhaol, yn hytrach nag fel rhywbeth y gellir ei ymgorffori mewn arferion teuluol bob dydd. Er enghraifft, gellir trin darllen amser gwely fel gweithgaredd achlysurol yn hytrach nag arfer rheolaidd. Roedd hyn hefyd yn gysylltiedig â pherthynas rhieni a gofalwyr eu hunain â darllen, lle gall oedolion nad ydynt yn mwynhau darllen eu hunain fod yn llai tebygol o ddewis darllen fel gweithgaredd ar y cyd gyda'u plentyn ac yn hytrach gallant flaenoriaethu gweithgareddau sy'n teimlo'n fwy cyfarwydd neu haws.

3.205 Mewn grwpiau ffocws rhieni, roedd cyfranogwyr ar y cyfan yn gwerthfawrogi darllen. Serch hynny, roedd rhieni mewn grwpiau â lefelau is o ymwneud â llythrennedd yn fwy tebygol o fynegi nad oeddent yn gwybod sut i annog eu plentyn i fod ag awydd darllen. Esboniodd un rhiant hefyd sut nad oeddent yn sylweddoli sut y gellid ystyried gweithgareddau eraill nad oedd yn ymwneud â darllen llyfr, fel defnyddio dyfeisiau digidol, hefyd fel darllen er pleser.

3.206 Dywedodd ymarferwyr nad oedd rhieni yn cydnabod eu rôl bwysig eu hunain mewn llythrennedd a darllen, gan deimlo mai addysg oedd "*yr hyn maen nhw'n mynd i'r ysgol amdano*" (ymarferydd). Esboniodd ymarferydd arall sut nad oedd rhieni yn gweld darllen gyda'u plant fel "*eu cyfrifoldeb nhw*".

3.207 Roedd iaith yn rhwystr pwysig arall rhag cyfrannu. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol i randdeiliaid cwmpasu, ac ymarferwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, lle nad yw rhai rhieni a gofalwyr efallai'n siarad Cymraeg eu hunain. Yn yr achosion hyn, gall cefnogi darllen gartref yn Gymraeg fod yn heriol, yn enwedig lle nad yw rhieni yn siŵr sut i ddefnyddio llyfrau na gweithgareddau Cymraeg yn hyderus. Nodwyd heriau tebyg hefyd i rieni a gofalwyr sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol, a allai wynebu anawsterau rhag cymryd rhan mewn

mentrau lle nad yw adnoddau neu gyfathrebu ar gael yn yr ieithoedd y maent yn fwyaf hyderus o'u defnyddio.

3.208 Mae diffyg amser a blaenoriaethau sy'n cystadlu hefyd wedi effeithio ar allu rhieni a gofalwyr i gyfrannu. Nodwyd gan lawer o rieni ac ymarferwyr, mai amser cyfyngedig sydd gan rieni a gofalwyr oherwydd ymrwymiadau gwaith a phwysau ehangach gartref. Hyd yn oed lle mae teuluoedd yn gwerthfawrogi darllen, gall y pwysau hyn ei gwneud hi'n anodd blaenoriaethu arferion darllen rheolaidd. Roedd blinder a straen hefyd yn cyfyngu ar allu rhieni a gofalwyr i ymwneud â gweithgareddau darllen.

3.209 Yn olaf, nodwyd hefyd fod amser sgrin a dyfeisiadau digidol sy'n tynnu sylw oddi wrth lyfrau yn her. Er y gall adnoddau digidol gefnogi llythrennedd mewn rhai cyd-destunau, roedd ymarferwyr yn codi pryderon y gall dewisiadau amgen digidol weithiau ddisodli darllen ar y cyd yn hytrach na'i ategu. Disgrifiodd un ymarferydd flychau sain[4] a sgriniau fel pethau sy'n "*disodli, nid ychwanegu at ddarllen a y cyd*", tra bod eraill yn awgrymu bod arferion digidol yn disodli arferion fel darllen amser gwely.

Galluogwyr

3.210 Cafodd gwell canllawiau ei nodi fel rhywbeth a fyddai'n galluogi gweithgarwch rhieni a gofalwyr mewn mentrau llythrennedd. Gall canllawiau clir ac ymarferol helpu rhieni a gofalwyr i ddeall sut i gefnogi darllen gartref heb deimlo bod angen gwybodaeth llythrennedd arbenigol arnynt. Pwynt a godwyd gan ymarferwyr a rhanddeiliaid cwmpasu oedd y gall rhieni a gofalwyr fod yn fwy tebygol o gyfrannu pan fyddant yn deall bod darllen er pleser yn cefnogi hyder a llesiant dysgwyr yn ogystal â chyrhaeddiad. Gellid cefnogi hyn trwy raglenni sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda rhieni a gofalwyr, law yn llaw â chyfathrebu clir gan ysgolion am sut y gall teuluoedd gefnogi darllen gartref. Pwysleisiodd un rhanddeiliad cwmpasu hefyd fod angen i'r

[4] Dyfais electronig yw blychau Tonie, y gellir eu defnyddio i adrodd straeon yn uchel i blant.

gefnogaeth hon fod yn groesawgar ac yn anfeirniadol, fel bod rhieni a gofalwyr yn teimlo'n gyfforddus.

3.211 Nodwyd mynediad at lyfrau hefyd fel galluogwr pwysig. Yn ôl un rhanddeiliad cwmpasu, roedd i ddysgwyr ddod â llyfrau ffisegol adref yn fwy effeithiol na dibynnu ar dalebau neu ddewisiadau amgen digidol yn unig, gan ei fod yn rhoi rhywbeth uniongyrchol a diriaethol i deuluoedd ei ddefnyddio gyda'i gilydd. Roedd mynediad at lyfrau am ddim yn arbennig o bwysig i rieni er mwyn lleihau rhwystrau i deuluoedd, yn enwedig lle mae ysgolion yn anfon llyfrau adref yn rheolaidd. Nododd un ymarferydd sut mae adnoddau ar gyfer y cartref fel ffolderi darllen, sachau stori a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â llyfrau yn ei gwneud hi'n haws i rieni a gofalwyr wybod beth i'w wneud gartref.

3.212 Y farn oedd bod cymhellion pwysau isel yn cefnogi gweithgarwch. Nododd ymarferwyr a rhanddeiliaid cwmpasu y gall dulliau fel pasbortau, stampiau a thystysgrifau Bookstart ysgogi teuluoedd i barhau i chwarae rhan heb wneud i ddarllen deimlo'n rhy ffurfiol neu rywbeth a gaiff ei asesu.

3.213 Cafodd hyder a gwerthoedd rhieni ei nodi hefyd fel ffactorau pwysig sy'n dylanwadu ar eu gweithgarwch. Gall hyder rhieni a gofalwyr gynyddu pan fyddant yn ymwneud â theuluoedd eraill ac yn cydnabod bod cefnogi darllen, yn ogystal â darparu adnoddau, yn ymwneud hefyd ag annog, gosod trefn a rhyngweithio cadarnhaol. Roedd tystiolaeth hefyd gan grŵp ffocws rhieni y gallai rhieni a gofalwyr sy'n mwynhau darllen eu hunain fod yn fwy tebygol o gyflwyno llyfrau i ddysgwyr ac ymwneud â mentrau darllen. Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd dulliau sy'n cefnogi diwylliant darllen ehangach teuluoedd, yn hytrach na chanolbwyntio ar y dysgwr yn unig.

3.214 Cafodd llyfrgelloedd a mannau cymunedol eu nodi fel rhan o'r ecosystem ddarllen ehangach a all gefnogi mynediad at lyfrau ac annog profiadau darllen cadarnhaol, gan hwyluso gweithgarwch gan rieni a gofalwyr eu hunain. Gallant gefnogi gweithgarwch rhieni a gofalwyr lle mae adnoddau llythrennedd wedi'u cynllunio i deithio y tu hwnt i'r

ystafell ddosbarth, trwy heriau darllen neu ymweliadau â llyfrgelloedd ysgol. Gall mannau anffurfiol a chymunedol hefyd gryfhau gweithgarwch lle maent yn teimlo'n groesawgar a chynnig gweithgareddau, grwpiau a chefnogaeth, yn hytrach na benthyca llyfrau yn unig. Roedd rhanddeiliaid cwmpasu'n pwysleisio bod teuluoedd yn fwy tebygol o ymwneud â mentrau lle cawsant brofiadau cadarnhaol blaenorol o lyfrgelloedd neu weithgareddau darllen cymunedol. Mae hyn yn awgrymu bod yr adnoddau effeithiol yn rhai sy'n gallu cysylltu ag ecosystemau darllen ehangach ymysg teuluoedd, gan gynnwys llyfrgelloedd a mannau cymunedol.

3.215 I un rhanddeiliad cwmpasu roedd rhoi dewis i ddysgwyr yn alluogwr pwysig arall. Lle gall dysgwyr ddewis eu llyfrau eu hunain, gall hyn gefnogi cymhelliant y dysgwr a gweithgarwch rhieni a gofalwyr. Roedd hyn yn arbennig o amlwg lle'r oedd plant yn dod â llyfrau adref, yn siarad yn gadarnhaol am brofiadau darllen yn yr ysgol, neu'n dangos brwdfrydedd dros awduron, pynciau neu ffurfiau penodol.

3.216 Y farn oedd bod adnoddau ar-lein hefyd yn galluogi gweithgarwch mewn rhai cyd-destunau. Roedd rhieni'n rhestru apiau ysgol, adnoddau ar-lein, podlediadau a llyfrau sain fel rhai sy'n gwneud cymorth darllen yn fwy hygyrch, yn enwedig i rieni a gofalwyr sy'n wynebu pwysau amser. Fodd bynnag, yn unol â phryderon a godwyd mewn mannau eraill, mae adnoddau digidol yn ymddangos yn fwyaf defnyddiol lle maent yn ategu darllen ar y cyd ac yn cynnig llwybrau hyblyg i gymryd rhan, yn hytrach na disodli rhyngweithiadau rhwng oedolion a phlant.

3.217 Yn olaf, roedd un rhanddeiliad cwmpasu o'r farn fod cysylltu llyfrau ag addasiadau ffilm neu deledu yn peri i ddarllen deimlo'n fwy hygyrch i rieni a gofalwyr.

Llwyddiant canfyddedig mentrau sy'n hyrwyddo darllen er pleser

3.218 Bu rhanddeiliaid ar draws cyfweliadau a grwpiau ffocws yn ystyried y graddau mae mentrau presennol sy'n hyrwyddo darllen er pleser yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, mae tystiolaeth o'r gwaith maes yn dangos

darlun cymysg ac anwastad, sy'n dibynnu ar gyd-destun lleol, dyluniad rhaglenni, a lefelau cymorth ysgolion, teuluoedd a chymunedau.

3.219 Roedd rhanddeiliaid yn disgrifio llwyddiant mentrau fel rhywbeth dibynnol iawn ar gyd-destun. Thema gyson ar draws cyfweliadau cwmpasu, trafodaethau ymarferwyr a grwpiau rhieni oedd bod deilliannau'n amrywio'n fawr ar sail amodau lleol yn hytrach na bodolaeth rhaglenni eu hunain. Gwelwyd bod ffactorau fel mynediad at lyfrgelloedd lleol, lefel y brwdfrydedd mewn ysgolion unigol, a gallu rhieni yn effeithio ar weithgarwch. Y farn oedd bod mentrau'n fwy llwyddiannus lle mae diwylliant darllen yr ysgol gyfan yn gryf, gyda chefnogaeth darpariaeth strwythuredig a gweithgarwch cyson gan ymarferwyr.

3.220 Fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid yn amlygu hefyd y gall dyluniad rhaglenni gyfyngu ar effeithiolrwydd. Roedd amryw o randdeiliad cwmpasu'n nodi bod mentrau yn aml yn rhagdybio lefel o ddiddordeb gan ddysgwyr, rhieni ac ymarferwyr nad yw bob amser yn bresennol yn ymarferol. O ganlyniad, mae gweithgarwch yn anwastad, gyda rhai grwpiau yn cymryd rhan weithredol tra bod eraill yn ymddieithrio, yn enwedig lle nad yw darllen "*ar eu agenda na'u radar*". Roedd barn bod llawer o fentrau yn fwy effeithiol i'r rhai sydd eisoes yn tueddu i ddarllen, gyda llwyddiant mwy cyfyngedig wrth gyrraedd y rhai nad ydynt eisoes yn mwynhau darllen. Er enghraifft, barn ymarferwyr a rhieni oedd bod Diwrnod y Llyfr yn canolbwyntio mwy ar wisgo i fyny fel cymeriadau nag ar ddarllen ei hun.

3.221 Nodwyd graddfa a hyd mentrau hefyd fel cyfyngiadau. Roedd rhanddeiliad cwmpasu'n disgrifio patrwm o gynlluniau peilot ar raddfa fach a gweithgarwch tymor byr, yn hytrach na darpariaeth barhaus neu genedlaethol, a oedd yn cael ei weld fel rhywbeth sy'n cyfyngu ar effaith hirdymor.

3.222 Er gwaethaf yr heriau hyn, roedd rhanddeiliaid yn nodi meysydd llwyddiant clir. Y farn helaeth oedd bod rhaglenni a ariennir yn gyhoeddus yn bwysig wrth gyrraedd teuluoedd na fyddent fel arall yn

cael mynediad at adnoddau darllen. Disgrifiwyd y rhaglenni hyn fel rhai sy'n galluogi gweithgarwch mewn cymunedau lle nad yw teuluoedd yn gallu fforddio prynu llyfrau, sy'n golygu y byddai darllen yn llai hygyrch heb y cymorth hwn.

3.223 Gwelwyd hefyd fod llwyddiant yn gryfach mewn oedrannau iau, lle mae'r ddarpariaeth yn fwy sefydledig. Roedd rhieni ac ymarferwyr yn tynnu sylw at y ffaith bod cymorth yn tueddu i fod yn fwy cyson mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar a chynradd, gyda gostyngiad canfyddedig mewn mentrau ar gyfer plant hŷn, yn enwedig yn yr ysgol uwchradd.

3.224 Ar yr un pryd, roedd rhanddeiliaid yn awgrymu nad yw darllen er pleser yn cael ei flaenoriaethu'n gyson o fewn y dirwedd llythrennedd ehangach. Roedd ymarferydd yn tynnu sylw at dargedu darpariaeth mewn ffordd anwastad, gyda phwyslais ar ddarllen er pleser mewn ardaloedd mwy cyfoethog a mwy o bwyslais ar lythrennedd sylfaenol yn hytrach na mwynhad darllen mewn ardaloedd dan anfantais economaidd. Dywedwyd hefyd fod llyfrgelloedd weithiau'n blaenoriaethu gweithgareddau eraill, megis clybiau TG neu hamdden, yn hytrach na hyrwyddo darllen.

3.225 Lle roedd canfyddiad fod mentrau yn gweithio'n dda, roedd rhanddeiliaid yn tynnu sylw at sawl ffactor galluogi. Un dylanwad oedd rôl athrawon unigol. Disgrifiwyd llwyddiant fel rhywbeth sy'n dibynnu'n fawr ar ymarferwyr sy'n creu diwylliant darllen ar gyfer pleser, yn enwedig lle maent yn darllen er pleser eu hunain ac yn modelu'r ymddygiad hwn. Cyfeiriodd ymarferwyr hefyd at bwysigrwydd "*staff gweithgar*" sy'n archwilio gwahanol ddulliau, yn defnyddio treialon i ganfod beth sy'n gweithio, a datblygu mentrau sydd wedi'u hymgorffori yng nghyd-destun yr ysgol.

3.226 Roedd mynediad at ddeunyddiau darllen diddorol a pherthnasol hefyd yn cael ei ystyried fel rhywbeth hanfodol. Pwysleisiodd pob math o randdeiliaid bwysigrwydd darparu amrywiaeth o ddewisiadau sy'n adlewyrchu diddordebau dysgwyr ac yn cynnig "*cyd-destun dilys*" y gellir

ei rannu â chyfoedion. Soniwyd hefyd am elfennau cystadleuol a chymhellion gan rieni ac ymarferwyr fel rhywbeth sy'n cefnogi gweithgarwch, law yn llaw â dulliau sy'n cynnwys awduron. Disgrifiwyd mentrau dan arweiniad awduron, gan gynnwys rolau *"noddwr darllen",* fel rhai arbennig o effeithiol, gydag un ymarferydd yn nodi y gall awduron gynnig "*elfen o fri enwogrwydd*" i ddysgwyr.

3.227 Tynnwyd sylw at fentrau llyfrgell hefyd fel enghreifftiau o lwyddiant o dan yr amodau cywir. Disgrifiodd un rhanddeiliad cwmpasu Her Ddarllen yr Haf fel enghraifft o gyfranogiad gwirfoddol uchel, law yn llaw â gweithgareddau blynyddoedd cynnar fel Bounce a Rhyme, lle'r oedd pobl yn dychwelyd dro ar ôl tro a barnwyd bod cefnogaeth gan ymwelwyr iechyd yn cefnogi gweithgarwch.

3.228 Ymhlith ymatebion i'r arolwg, dywedodd hanner yr ymatebwyr (6 o 12) mai'r mentrau mwyaf llwyddiannus oedd heriau darllen ysgol a rhaglenni dan arweiniad llyfrgelloedd, tra bod 5 o bob 12 o'r farn mai rhaglenni darllen cymheiriaid neu fentoriaid oedd y mwyaf llwyddiannus. Dywedwyd mai'r pethau y mae rhaglenni llwyddiannus yn eu gwneud yn dda yw'r rhai sy'n:

- hygyrch i ddysgwyr (9 allan o 12)
- darparu cynnwys diddorol (8 allan o 12)
- hawdd i'w defnyddio gan staff (7 allan o 12)

3.229 Law yn llaw â'r enghreifftiau hyn o lwyddiant, roedd rhanddeiliaid yn nodi rhwystrau parhaus. Adroddodd ymarferwyr mai cyfyngedig yw dealltwriaeth rhai rhieni o ddatblygiad llythrennedd cynnar, a'u bod yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarllen testun yn uchel yn hytrach na rhyngweithiadau ehangach fel trafod lluniau, gofyn cwestiynau neu adeiladu geirfa. Roedd rhieni eu hunain yn tynnu sylw at ofynion cystadleuol ar amser a sylw, yn ogystal â gwahaniaethau mewn mynediad i lyfrgelloedd lleol, fel pethau sy'n cyfyngu ar eu gallu i gefnogi darllen gartref.

3.230 Cafodd diffyg llyfrau apelgar, sy'n briodol i'w hoedran ac yn Gymraeg eu nodi'n gyson fel rhwystr ar draws pob grŵp rhanddeiliaid.

3.231 O fewn ysgolion, awgrymodd ymarferwyr hefyd fod cynlluniau a ddatblygwyd yn allanol yn aml yn ymylol ac nad ydynt wedi'u teilwra i gyd-destunau unigol, gan gyfyngu ar yr effaith y gallant ei gyflawni.

Meysydd i'w gwella wrth hyrwyddo darllen er pleser

3.232 Gofynnwyd i randdeiliaid awgrymu ffyrdd y gellid gwella hyrwyddo darllen er pleser. Roedd cwmpas yr atebion i'r cwestiwn hwn yn ymestyn y tu hwnt i gynlluniau neu fentrau pwrpasol ac yn cynnwys materion ehangach sy'n ymwneud â'r graddau mae deunydd darllen ysbrydoledig ar gael, marchnata, gweithio mewn partneriaeth a datblygiad proffesiynol.

3.233 Roedd y maes i'w wella a grybwyllwyd amlaf yn ymwneud â gwella mynediad at lyfrau o ansawdd da sy'n cwmpasu amrywiaeth o ffurfiau, proffiliau oedran a lefelau darllen. Roedd llawer o ymarferwyr a rhanddeiliaid cwmpasu yn tynnu sylw at bwysigrwydd buddsoddi mewn llyfrgelloedd (mewn ysgolion a'r rhai sy'n agored i'r cyhoedd) i ganiatáu adnewyddu rheolaidd o ran y llyfrau sydd ar gael er mwyn sicrhau amrywiaeth ddigonol o ddiddordebau a galluoedd. Cadarnhawyd hyn gan ddysgwyr ysgolion cynradd ac uwchradd a oedd yn gwerthfawrogi ymweliadau â llyfrgelloedd. Roedd dysgwyr ysgol uwchradd yn teimlo y byddai cyflwyno gwersi llyfrgell (rhywbeth oedd ganddynt yn yr ysgol gynradd ond nid yn yr uwchradd) yn eu helpu i ddarllen mwy.

3.234 Roedd ceisiadau am lenyddiaeth benodol yn cynnwys llyfrau darluniadol sy'n apelio at bobl ifanc yn eu harddegau, mwy o amrywiaeth a gwell cynrychiolaeth (sef o ran tafodiaith, ethnigrwydd, diwylliant ac ati) mewn llyfrau fel bod dysgwyr *yn "gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu"* (rhanddeiliad cwmpasu), llyfrau byrrach ar gael i ddysgwyr hŷn a darparu *"llyfrau Cymraeg hygyrch sy'n sensitif i dafodieithoedd"* (ymarferydd). Galwodd dysgwr ysgol gynradd am lyfrau coginio, llyfrau am anifeiliaid a llyfrau sy'n cynnwys mapiau.

3.235 Wrth gydnabod nad yw cael llyfrgelloedd ym mhob ysgol yn mynd i ddigwydd dros nos, argymhellodd rhai rhanddeiliaid flaenoriaethu dyrannu lle pwrpasol ar gyfer llyfrau ym mhob ysgol, o ystyried y realiti

bod mewn rhai ysgolion *"silffoedd o lyfrau [wedi] cael eu disodli gan dabledi a llyfrau [yn cael] eu cadw mewn cypyrddau ... felly nid yw plant yn eu gweld."* (rhanddeiliad cwmpasu)

3.236 Roedd blaenoriaethu marchnata a hyrwyddo darllen yn cael ei grybwyll gan nifer o randdeiliaid. Roedd galwad eang am ehangu'r diffiniad o ddarllen, i gydnabod comics, isdeitlau, testun digidol, llyfrau sain, drama, cerddoriaeth, rhaglenni digwyddiadau a llythrennedd amlfoddol fel ffurfiau dilys ac ystyrlon o ddarllen y mae plant a phobl ifanc eisoes yn ymwneud â nhw i raddau amrywiol. Yn ogystal ag ehangu'r hyn a ddiffinnir fel 'darllen er pleser' er budd cynhwysiant, nodwyd hefyd bod angen mynd i'r afael â'r teimlad o gywilydd o amgylch llyfrau sy'n *"hen ffasiwn", "posh"* neu'n anodd eu deall; fel y nododd un rhanddeiliad cwmpasu, mae angen *"normaleiddio darllen yn ddiwylliannol, yn ogystal ag yn addysgol",* gan ddysgu o wledydd Sgandinafia, lle mae darllen wedi'i ymgorffori mewn diwylliant a chymdeithas.

3.237 Er bod Diwrnod y Llyfr y Byd wedi'i nodi fel rhywbeth ac iddo rôl mewn hyrwyddo darllen er pleser, roedd llawer o'r farn ei fod yn ddigwyddiad untro, heb fawr o effaith barhaol. Mae angen ymestyn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â Diwrnod y Llyfr y Byd y tu hwnt *i "wisgo i fyny",* gan edrych ar wyliau fel Diwrnod y Llyfrau a Rhosynnau yng Nghatalwnia, Sbaen. Er bod rhai rhieni yn betrusgar ynghylch gweithio gyda dylanwadwyr i gael pobl ifanc yn eu harddegau i ddarllen (o ystyried y risg o fod yn annilys neu'n cael eu hystyried yn felly), roedd eraill yn teimlo y gallai fod gwerth mewn canfod modelau rôl gwirioneddol o feysydd eraill (e.e. chwaraeon) i rannu'r hyn maen nhw'n mwynhau ei ddarllen.

3.238 Soniwyd ei bod yn flaenoriaeth bwysig hefyd sicrhau bod arweinyddiaeth ysgol yn canolbwyntio ar lythrennedd fel bod darllen er pleser yn parhau i fod rhan ganolog o weledigaeth ac arferion dyddiol ysgolion. Awgrymodd un rhanddeiliad cwmpasu y dylai pob ymarferydd ysgol: "*ddangos esiampl o ymddygiadau darllen cadarnhaol … mae athrawon yn siarad am lyfrau a dangos cariad at ddarllen yn helpu i feithrin brwdfrydedd ymysg dysgwyr."* Roedd eraill (gan gynnwys

athrawon) yn mynegi teimlad tebyg, gan gydnabod bod darllen *"er pleser"* yn cael *ei "ddadflaenoriaethu"* mewn rhai ysgolion oherwydd pwysau cystadleuol eraill.

3.239 O ystyried y diffyg ymwybyddiaeth o adnoddau a mentrau sydd ar gael i athrawon i ysbrydoli darllen er pleser, nid yw'n syndod bod galwad ar Adnodd a sefydliadau eraill i ddatblygu *"adnoddau hawdd eu defnyddio y gellir eu codi'n gyflym [a] chronfa o syniadau sy'n gysylltiedig â thestunau [llenyddiaeth], yn hytrach na chynlluniau gwersi sefydlog."* (Ymarferydd)

3.240 Awgrymwyd bod angen buddsoddiad mewn adnoddau mewn amrywiaeth o fformatau (gan gynnwys print a digidol) sy'n cyd-fynd â Chwricwlwm i Gymru. Mae angen i'r adnoddau hyn hefyd adlewyrchu cyd-destunau gwahanol ysgolion ar y sail fod: *"ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgolion trefol amlieithog, ac ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd yn wynebu heriau gwahanol, felly mae angen i adnoddau fod yn rhai y gellir eu haddasu"* (rhanddeiliad cwmpasu)

3.241 Roedd rhanddeiliaid yn galw hefyd am gefnogaeth hirdymor: *"mae rhaglenni llythrennedd yn gofyn am amser arweiniol sylweddol, felly dylai comisiynu ganiatáu cynllunio aml-flwyddyn er mwyn cynnal ansawdd a chysondeb. "* (Rhanddeiliad cwmpasu)

3.242 Wrth fyfyrio ar eu sylwadau cynharach ynglŷn â'r diffyg tystiolaeth ar effeithiolrwydd rhaglenni llythrennedd a darllen presennol, soniodd llawer o randdeiliaid am bwysigrwydd blaenoriaethu gwerthuso sy'n caniatáu cymharu rhwng mentrau a'i gilydd: *"Gwerthuso... mae angen ei gynllunio yn y broses gomisiynu."* (Rhanddeiliaid cwmpasu)

3.243 Cafodd rôl gweithio mewn partneriaeth wrth annog mwy o ddarllen er pleser ei bwysleisio gan nifer o randdeiliaid; nodwyd bod y berthynas rhwng addysg a llyfrgelloedd wedi *"chwalu dros amser"* oherwydd bod angen i ysgolion drefnu cludiant i ymweld â llyfrgelloedd a staff llyfrgelloedd heb yr amser i fynd i ysgolion, a bod hyn yn y gorffennol wedi bod yn ffordd wych o gyflwyno dysgwyr i lyfrgelloedd cyhoeddus

a'r dewis ehangach o lyfrau y maent yn eu cynnig. Roedd dysgwyr ysgolion cynradd yn tynnu sylw at bwysigrwydd creu mannau cyfforddus i ddarllen, gan gynnwys pethau fel "gobennydd", "blancedi" a "bagiau ffa" yn ogystal â silffoedd llyfrau.

3.244 Cafwyd galwadau hefyd i flaenoriaethu ymweliadau gan awduron Cymreig ag ysgolion, ar y sail bod ysgolion wedi adrodd profiad cadarnhaol iawn o fod yn rhan o'r ymweliadau hyn, yn enwedig lle maent yn cael eu cynnal dros gyfnod o wythnosau, gan arwain at fwy o ymrwymiad gan ddysgwyr a chymuned ehangach yr ysgol.

3.245 Er mwyn caniatáu gwell gweithio mewn partneriaeth, roedd rhai rhanddeiliaid cwmpasu yn pwysleisio'r angen i sicrhau *nad yw "jargon addysg"* yn eithrio sefydliadau celfyddydol ac awduron ac i ddarparu llwybrau ac arweiniad cliriach i sefydliadau anaddysgol ar y rhan y gallant ei chwarae o fewn hyrwyddo darllen er pleser.

3.246 O ystyried y diffyg cefnogaeth a adroddwyd o ran hyrwyddo darllen er pleser i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, nid yw'n syndod bod rhai ymarferwyr wedi gofyn am adnoddau sy'n addas i ddysgwyr ag ADY ac i wahaniaethu'n gliriach rhwng adnoddau a fwriedir ar gyfer dysgwyr â gwahanol ADY, er enghraifft, anawsterau dysgu dwfn a lluosog, anawsterau dysgu lluosog a dysgwyr hŷn ag ADY.

3.247 Un maes olaf ar gyfer gwella neu ddatblygiad a awgrymwyd gan randdeiliaid oedd cynnig symbyliad diriaethol i ddysgwyr ar gyfer darllen, ar ffurf cymhellion neu wobrau i *"roi hwb i werthfawrogiad o ddarllen".* Roedd y syniadau a awgrymwyd gan rieni yn cynnwys heriau wythnosol o amgylch *"munudau darllen"* gan gynnwys tystysgrifau a gwobrau (ee ar ffurf tocynnau llyfrau) i ysgogi dysgwyr. Roedd dysgwyr ysgolion uwchradd hefyd yn teimlo y byddai gwobrau am ddarllen y nifer mwyaf o lyfrau neu eiriau yn eu hannog i ddarllen mwy.

4. Casgliadau ac Argymhellion

4.1 Nod yr ymchwil hwn oedd cefnogi comisiynu adnoddau llythrennedd Adnodd yn y dyfodol trwy ddatblygu sylfaen dystiolaeth ar ddulliau llythrennedd effeithiol, deall sut mae adnoddau a mentrau yn cael eu profi yn ymarferol, a nodi'r rhwystrau a'r galluogwyr sy'n dylanwadu ar ennyn diddordeb ymhlith ymarferwyr, dysgwyr a theuluoedd.

4.2 Mae'r canfyddiadau'n dangos bod gwella deilliannau llythrennedd yng Nghymru yn gofyn am ddull cytbwys ac integredig sy'n mynd i'r afael â sgiliau llythrennedd craidd a'r amodau ehangach sy'n galluogi plant a phobl ifanc i ymwneud â darllen ac ysgrifennu mewn ffyrdd ystyrlon a chynaliadwy.

4.3 Mae'r adolygiad tystiolaeth strwythuredig wedi canfod corff cryf o dystiolaeth ryngwladol a DU ar ddulliau llythrennedd effeithiol. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd addysgu penodol, strwythuredig sgiliau llythrennedd craidd, megis ffoneg, dealltwriaeth darllen, geirfa ac ysgrifennu, law yn llaw â chyfleoedd ar gyfer ymarfer, cymhwyso a dilyniant ar draws grwpiau oedran. Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos yn gyson bod darllen er pleser, cymhelliant a gweithgarwch â chysylltiad agos â gwell deilliannau llythrennedd.

4.4 Mae'r ymchwil i brofiad defnyddwyr yn ategu hyn trwy ddangos sut mae adnoddau a mentrau llythrennedd yn cael eu profi yn ymarferol. Mae ennyn diddordeb yn dibynnu ar gyfuniad o ansawdd adnoddau, gallu ymarferwyr, mynediad at ddeunyddiau, a ffactorau cymdeithasol a chyd-destunol ehangach, gan gynnwys cymorth i deuluoedd a seilwaith lleol. Mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd llunio darpariaeth llythrennedd sydd, yn ogystal â bod yn seiliedig ar dystiolaeth, hefyd yn ymarferol, yn hygyrch ac yn gydnaws â lleoliadau byd go iawn yng Nghymru.

4.5 Yn y ddwy elfen o'r ymchwil, daeth set gyson o rwystrau a galluogwyr i'r amlwg. Mae'r rhwystrau yn cynnwys amser a chapasiti cyfyngedig o fewn ysgolion, mynediad anghyson at lyfrau o ansawdd uchel a

chyfredol, cyfyngiadau costau, ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r mentrau sydd ar gael, a heriau sy'n gysylltiedig ag iaith a hygyrchedd. Mae'r galluogwyr yn cynnwys adnoddau clir ac addasadwy, cymorth cryf gan arweinwyr, mynediad at ddysgu proffesiynol, deunyddiau diddorol ar gael, a chysondeb cryf â'r Cwricwlwm i Gymru.

Llythrennedd fel deilliant aml-ddimensiwn

4.6 Un casgliad pwysig o'r ymchwil yw bod deilliannau llythrennedd yn ymestyn y tu hwnt i hyfedredd technegol. Er bod cywirdeb darllen, rhuglder, dealltwriaeth ac ysgrifennu yn dal i fod yn ganolog, mae'r dystiolaeth yn dangos bod deilliannau ehangach, megis cymhelliant, hyder, hunaniaeth, arferion darllen a mynediad at adnoddau, yn hanfodol i gynnal datblygiad llythrennedd yn barhaus.

4.7 Ar draws pob oedran, mae datblygiad llythrennedd yn dibynnu ar y rhyngweithio rhwng sgiliau, ymddygiadau a chyd-destun. Mae darpariaeth blynyddoedd cynnar yn canolbwyntio ar adeiladu iaith, arferion darllen ar y cyd a hyder rhieni. Mewn addysg gynradd, mae dulliau effeithiol yn cyfuno addysgu strwythuredig â mwynhad darllen, mynediad at lyfrau a chymorth cynhwysol. Mewn lleoliadau uwchradd, mae'r her yn symud i gynnal diddordeb wrth ddatblygu sgiliau llythrennedd mwy datblygedig a phenodol i bwnc.

4.8 Mae'r dilyniant hwn yn amlygu pwysigrwydd parhad mewn cymorth llythrennedd, yn enwedig wrth gynnal diddordeb mewn darllen er pleser wrth i blant dyfu'n hŷn.

Ennyn diddordeb a darllen er pleser

4.9 Mae'r canfyddiadau'n dangos bod ennyn diddordeb yn sbardun allweddol o ran deilliannau llythrennedd. Fodd bynnag, nid yw ennyn diddordeb yn rhywbeth y gellir ei briodoli i un ffactor yn unig. Drwy'r holl adolygiad tystiolaeth a'r ymchwil profiad defnyddwyr, mae'n adlewyrchu rhyngweithio rhwng pum maes rhyng-gysylltiedig:

- Cymhelliant – p'un a yw dysgwyr yn gweld darllen fel rhywbeth ystyrlon, pleserus a pherthnasol

- Hygyrchedd allanol – y graddau mae deunyddiau deniadol, sy'n briodol i'w hoedran ac sy'n berthnasol yn ddiwylliannol ar gael
- Hygyrchedd cynhenid – hyder a gallu dysgwyr i gael mynediad at destunau a'u deall
- Cymorth cymdeithasol a pherthnasau – anogaeth, modelu ac argymhellion gan rieni, ymarferwyr a chyfoedion
- Amgylchedd ac amodau – amser, lle a gofynion cystadleuol sy'n effeithio ar gyfleoedd i ddarllen

4.10 Mae'r meysydd hyn yn atgyfnerthu ei gilydd, a gall cyfyngiadau mewn unrhyw un maes gyfyngu ar gyfranogiad cyffredinol (Gweler atodiad A am fwy o fanylion).

4.11 Mae hyn yn helpu i esbonio canfyddiadau o'r ymchwil. Er enghraifft, gall dysgwyr gael eu cymell ond nad oes deunyddiau priodol ar gael iddynt; efallai fod ganddynt fynediad at ddeunyddiau ond diffyg hyder i fanteisio arnynt; neu efallai y byddant yn cael eu cefnogi gan ymarferwyr ond wedi'u cyfyngu gan amser, gweithgareddau cystadleuol neu gyfleoedd cyfyngedig i ddarllen. Yn yr un modd, mae cyfraniad ymarferwyr a theuluoedd yn chwarae rhan hanfodol wrth ddylanwadu ar gymhelliant a chynnal ymddygiadau darllen dros amser.

4.12 Mae'r ymchwil hefyd yn dangos dirywiad cyson mewn mwynhad darllen wrth fynd yn hŷn, law yn llaw â chanfyddiadau rhanddeiliaid bod y ddarpariaeth yn aml yn dameidiog, tymor byr ac yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau yn hytrach nag ennyn diddordeb parhaus. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd dulliau sy'n mynd i'r afael â phob agwedd ar ennyn diddordeb, yn hytrach na chanolbwyntio ar fynediad neu sgiliau ar wahân.

Tegwch, mynediad a chyd-destun Cymru

4.13 Casgliad pwysig arall yw bod mynediad at gyfleoedd llythrennedd yn anghyson ac wedi'i ddylanwadu gan ffactorau strwythurol a chyd-destunol. Mae anghydraddoldeb yn fwyaf amlwg mewn perthynas â

mynediad at ddeunyddiau darllen priodol, gan gynnwys llyfrau ar gael mewn cartrefi, ysgolion a chymunedau, a gallu ysgolion a theuluoedd i fforddio neu gynnal darpariaeth.

4.14 Mae'r materion hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y tirwedd rhaglenni, lle mae llawer o adnoddau yn cael eu datblygu'n fasnachol ac angen mynediad taledig. Mae hyn yn creu'r potensial ar gyfer amodau annheg o ran mynediad, yn enwedig i ysgolion a theuluoedd sydd heb adnoddau digonol.

4.15 Mae'r ymchwil hefyd yn amlygu heriau penodol yng nghyd-destun Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys y graddau cyfyngedig mae adnoddau Cymraeg ar gael mewn rhai ardaloedd ac ar gyfer rhai grwpiau oedran, bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, a heriau wrth gefnogi dilyniant llythrennedd dwyieithog. Nodwyd yn gyson hefyd bryderon sy'n ymwneud ag ansawdd, amrywiaeth a phriodoldeb oedran testunau Cymraeg, yn enwedig i ddysgwyr hŷn.

4.16 Ar yr un pryd, mae tystiolaeth yn dangos y gall dwyieithrwydd gefnogi datblygiad llythrennedd pan fydd adnoddau a dulliau wedi'u cynllunio'n briodol. Mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd ymgorffori dwyieithrwydd Cymraeg-Saesneg o fewn datblygiad adnoddau llythrennedd, gan sicrhau bod deunyddiau'n hygyrch, yn berthnasol yn ddiwylliannol ac yn cyd-fynd â phrofiadau ieithyddol dysgwyr.

Rhaglenni a'r dirwedd cyflawni

4.17 Wrth fapio rhaglenni, gwelwn dirwedd sy'n seiliedig ar ysgolion yn bennaf ac fel y nodwyd eisoes, wedi'i ddatblygu'n fasnachol ac yn aml yn dibynnu ar fynediad taledig. Mae'r ddarpariaeth yn canolbwyntio i raddau helaeth ar y blynyddoedd cynnar a'r cyfnodau cynradd, gyda dewis mwy cyfyngedig ar gael i ddysgwyr oedran uwchradd.

4.18 Roedd rhanddeiliaid yn disgrifio'r dirwedd hon fel un cymhleth ac anodd ei ddeall, heb fawr o gydlynu a diffyg tystiolaeth glir, gymharol ar yr hyn sy'n gweithio fwyaf effeithiol wrth hyrwyddo darllen er pleser. Mae cyffredinrwydd mentrau tymor byr neu beilot yn cyfyngu

ymhellach ar gyfleoedd i adeiladu gweithgarwch parhaus neu gynhyrchu tystiolaeth gadarn o effaith.

4.19 Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu y bydd angen i benderfyniadau comisiynu yn y dyfodol ystyried sut mae adnoddau a mentrau unigol yn cyfrannu at system fwy cydlynol a chynaliadwy o gymorth llythrennedd ledled Cymru.

Bylchau mewn tystiolaeth a goblygiadau ar gyfer comisiynu

4.20 Mae'r ymchwil yn canfod sawl bwlch yn y sylfaen dystiolaeth bresennol. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg gwerthusiadau hirdymor ar raddfa fawr o fentrau darllen er pleser, tystiolaeth gyfyngedig sy'n benodol i Gymru, a diffyg dadansoddiad cymharol o wahanol ddulliau. Cyfyngedig hefyd yw'r ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio fwyaf effeithiol i grwpiau penodol, gan gynnwys dysgwyr mewn cyd-destunau difreintiedig a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

4.21 Ar y cyfan, mae'r canfyddiadau'n awgrymu y bydd angen dull mwy cydgysylltiedig o ymdrin â darpariaeth llythrennedd effeithiol yng Nghymru, a fydd yn:

- cydbwyso datblygu sgiliau ag ennyn diddordeb a chymhelliant parhaus
- gwella mynediad at ddeunyddiau darllen o ansawdd uchel, amrywiol a pherthnasol
- ymdrin â thegwch a chynhwysiant, gan gynnwys cost a hygyrchedd
- cefnogi ymarferwyr, teuluoedd a chymunedau trwy ganllawiau a dysgu proffesiynol
- cyd-fynd yn glir â'r Cwricwlwm i Gymru
- cryfhau'r sylfaen dystiolaeth trwy werthuso mwy cyson.

4.22 Ar draws pob oedran, y dulliau mwyaf effeithiol yw'r rhai sy'n ymdrin â chymhelliant, mynediad, gallu, cefnogaeth ac amodau mewn ffordd gydgysylltiedig.

4.23 Mae gwella deilliannau llythrennedd felly yn dibynnu nid yn unig ar allu dysgwyr ddarllen ac ysgrifennu'n effeithiol, ond ar gael eu cefnogi i ymwneud â llythrennedd, cael mynediad cyfartal at adnoddau priodol, teimlo'n hyderus wrth eu defnyddio, ac ar allu adeiladu arferion darllen parhaus ar draws y cyd-destunau lle maent yn byw ac yn dysgu.

Ystyriaethau ac argymhellion i Adnodd a phartneriaid

Datblygu dull cenedlaethol cydlynol ar gyfer llythrennedd a darllen er pleser

4.24 Mae angen dull cenedlaethol ar gyfer llythrennedd a darllen er pleser sy'n cwmpasu datblygu sgiliau a hybu diddordeb. Dylai'r dull ddarparu cyfeiriad cyffredin a fydd yn sicrhau mwy o gydgysylltu a gwell aliniad rhwng lleoliadau addysgol, llyfrgelloedd a lleoliadau cymunedol, gan hyrwyddo negeseuon cyson, cymorth a mwy o ymwybyddiaeth i ddysgwyr, teuluoedd a rhanddeiliaid.

Argymhelliad 1: Dylai Adnodd weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i sefydlu dull cenedlaethol mwy cydlynol ar gyfer hybu llythrennedd a darllen er pleser, gan sicrhau bod y ddarpariaeth yn llai tameidiog a rhoi mwy o eglurder i ymarferwyr a theuluoedd.

Datblygu sail dystiolaeth fwy cadarn am yr hyn sy'n gweithio yng Nghymru.

4.25 Mae angen buddsoddiad pellach mewn ymchwil hydredol sy'n benodol i Gymru er mwyn datblygu sail dystiolaeth fwy cadarn am ddulliau effeithiol o hybu llythrennedd a darllen er pleser. Dylid rhoi blaenoriaeth i ddeall beth sy'n gweithio i ddysgwyr difreintiedig, mewn cyd-destunau dwyieithog, ac ymhlith dysgwyr oedran uwchradd.

Argymhelliad 2: Dylid ymgorffori gofynion gwerthuso yn y broses o lunio a chomisiynu rhaglenni ac adnoddau llythrennedd. Dylai'r gwaith gwerthuso gynnwys:

- damcaniaethau newid clir
- deilliannau (byrdymor, tymor canolig a hirdymor) diffiniedig

- dangosyddion cyffredin, y cytunwyd arnyn nhw, ar gyfer ymddygiadau darllen, cymhelliant a lefelau diddordeb, ochr yn ochr â deilliannau cyrhaeddiad
- asesiad o'r effaith ar grwpiau blaenoriaeth
- cynlluniau ar gyfer rhoi gwybodaeth ar waith a mecanweithiau ar gyfer lledaenu'r hyn a ddysgwyd

Sicrhau bod gan ymarferwyr yr wybodaeth a'r arweiniad angenrheidiol i hybu llythrennedd a darllen er pleser yn effeithiol

4.26 Nid yw bodolaeth adnoddau llythrennedd i ddysgwyr ar ei phen ei hun yn ddigon. Mae angen i ymarferwyr fod yn ymwybodol o adnoddau a bod yn hyderus o ran y ffordd orau o'u defnyddio.

Argymhelliad 3: Dylai Adnodd ystyried gweithio gyda Dysgu a phartneriaid eraill i ddarparu canllawiau clir a hawdd i'w defnyddio i ymarferwyr er mwyn hybu llythrennedd a darllen er pleser. Gallai'r canllawiau gynnwys:

- sut i ddefnyddio adnoddau yn effeithiol
- sut i hyrwyddo darllen er pleser yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt
- sut i addasu adnoddau ar gyfer dysgwyr gwahanol gan gynnwys dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a dysgwyr dwyieithog
- sut i ddefnyddio adnoddau yn effeithiol mewn gwahanol leoliadau
- sut i integreiddio llythrennedd drwy'r holl Gwricwlwm i Gymru
- sut i hybu diwylliant darllen drwy'r ysgol gyfan
- darllen er pleser a chymhelliant

Gwella'r gallu i gael gafael ar adnoddau cynhwysol o ansawdd da

4.27 Mae angen gwella gallu ysgolion a theuluoedd i gael gafael ar lyfrau a deunyddiau darllen. Mae angen i'r deunyddiau hyn adlewyrchu

hunaniaethau, diddordebau a phrofiadau amrywiol, a chynnwys fformatau sy'n ymestyn y tu hwnt i lyfrau traddodiadol. Dylai hyn gynnwys ystyried cymorth parhaus i lyfrgelloedd ysgolion, partneriaethau â llyfrgelloedd cyhoeddus, cynlluniau wedi'u targedu ar gyfer anrhegu llyfrau, a chynlluniau i hybu darllen yn y cartref.

Argymhelliad 4: Dylid rhoi blaenoriaeth i gomisiynu adnoddau llythrennedd hygyrch o ansawdd da y gellir eu haddasu. Dylai'r adnoddau hyn:

- fod ar gael am ddim neu'n rhad i ysgolion a theuluoedd
- adlewyrchu amrywiaeth o hunaniaethau, diddordebau a phrofiadau
- gael eu cyflwyno mewn gwahanol fformatau (e.e. sain, print, digidol, amlfoddol)

Mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog

4.28 Mae bylchau yn y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog, yn enwedig o ran amrywiaeth genres a pha mor addas yw adnoddau ar gyfer gwahanol oedrannau. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd a'r rheini ag anghenion dysgu ychwanegol.

Argymhelliad 5: Dylai Adnodd roi blaenoriaeth i gomisiynu adnoddau Cymraeg a dwyieithog sydd:

- wedi'u llunio a'u datblygu'n benodol ar gyfer cyd-destunau Cymreig
- yn cefnogi cynnydd yn y Gymraeg a'r Saesneg yn unol â Chod Cynnydd Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac adran 12 o Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025
- yn adlewyrchu ehangder tafodieithoedd, hunaniaethau a phrofiadau byw
- yn diwallu anghenion dysgwyr ym mhob grŵp oedran, gan gynnwys dysgwyr oedran uwchradd a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol

- yn darparu amrywiaeth eang o genres, fformatau a lefelau her sy'n addas ar gyfer gwahanol oedrannau a galluoedd

Gwella darpariaeth ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd

4.29 Mae angen i gymorth ar gyfer llythrennedd a darllen er pleser i ddysgwyr oedran uwchradd fod yn flaenoriaeth. Mae angen dulliau cynaliadwy o feithrin diddordeb mewn darllen, sy'n cydnabod pwysigrwydd llythrennedd drwy'r holl gwricwlwm ac yn hyrwyddo darllen er pleser.

Argymhelliad 6: Dylai Adnodd ystyried comisiynu a chaffael adnoddau a chynlluniau i helpu i ddatblygu llythrennedd dysgwyr oedran uwchradd, gan gynnwys:

- testunau diddorol, addas i'r oedran sy'n cyfoethogi dysgu
- fformatau y gellir uniaethu â nhw sy'n addas ar gyfer arferion darllen pobl ifanc
- dulliau sy'n cymell y dysgwyr ac yn berthnasol iddyn nhw
- dulliau sy'n annog darllen er pleser

Cryfhau cyfranogiad teuluoedd a'r gymuned mewn llythrennedd

4.30 Gall canllawiau ac adnoddau y tu allan i ysgolion fod yn ffactor pwysig wrth hybu diddordeb mewn llythrennedd.

Argymhelliad 7: Dylai Adnodd weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i ystyried, canfod a, lle bo'n briodol, gomisiynu adnoddau ar gyfer rhieni a gofalwyr sydd:

- yn ymarferol ac yn hygyrch
- yn rhoi pwyslais ar weithgareddau darllen bob dydd (nid darllen ffurfiol yn unig)
- ar gael mewn sawl iaith a fformat

Goblygiadau ar gyfer y dyfodol


4.31 Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at bwysigrwydd mabwysiadu dull mwy cydlynol a chyd-drefnus o hybu llythrennedd a diddordeb mewn darllen yng Nghymru. Mae'r ymchwil yn amlygu'r angen i symud y tu hwnt i dirwedd dameidiog o raglenni drwy sicrhau mwy o gydgysylltu, gwella'r gallu i gael gafael ar adnoddau addas a pherthnasol, a sicrhau bod y ddarpariaeth yn weladwy ac yn ddefnyddiadwy yn y cartref, yr ysgol, y llyfrgell ac mewn cyd-destunau cymunedol. Mae mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog, yn ogystal â'r ddarpariaeth gyfyngedig iawn a ganfuwyd ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd, yn parhau i fod yn bwysig.

4.32 Mae'r canfyddiadau hefyd yn pwysleisio'r angen i gryfhau'r cymorth sydd ar gael i ymarferwyr, ehangu gwaith i ymwneud â theuluoedd a chymunedau, a datblygu'r sail dystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys gwerthuso rhaglenni'n fwy systematig a meithrin dealltwriaeth well o'r hyn sy'n gweithio'n ymarferol. Gellir cyflawni'r nodau hyn drwy ymgorffori gwerthuso yn fwy cyson a thrwy fynd i'r afael â'r cyfyngiadau presennol mewn tystiolaeth sy'n benodol i Gymru.

4.33 Er mwyn hybu llythrennedd a diddordeb mewn darllen, nid yn unig y mae angen sicrhau bod modd cael gafael ar adnoddau, ond mae angen darparu adnoddau sy'n hygyrch, yn berthnasol, ac yn ddwyieithog. Mae angen i ymarferwyr a theuluoedd allu helpu i ddefnyddio'r adnoddau hyn; mae angen i'r adnoddau fod yn gyson rhwng lleoliadau; ac mae angen eu gwerthuso mewn ffyrdd sy'n cryfhau'r ddealltwriaeth o ddulliau effeithiol yng Nghymru. Drwy wneud hyn, gall Cymru helpu i sicrhau bod gan ein holl blant a phobl ifanc y cymorth, y gallu i gael gafael ar adnoddau, a'r cymhelliant sydd eu hangen arnyn nhw i ddod yn ddarllenwyr hyderus a galluog drwy gydol eu hoes.

Atodiad A Y pum maes darllen er pleser

Ffigur A: Meysydd darllen er pleser



1. Cymhelliant

Mae cymhelliant yn cyfeirio at y cwestiwn a yw dysgwyr yn gweld darllen fel rhywbeth ystyrlon, pleserus a pherthnasol.

Mae hyn yn cynnwys:

- diddordeb mewn pwnc neu fformat
- dewis ac ymreolaeth
- cynrychiolaeth a hunaniaeth
- perthnasedd canfyddedig i fywyd bob dydd

Mae cymhelliant yn amod hanfodol ar gyfer gweithgarwch. Hebddo, efallai na fydd hyd yn oed darpariaeth dda o adnoddau yn arwain at ymddygiadau darllen parhaus.

2. Hygyrchedd allanol

Mae hygyrchedd allanol yn cyfeirio at allu dysgwyr i gael deunyddiau addas i'w darllen.

Mae hyn yn cynnwys:

- llyfrau a deunyddiau darllen eraill ar gael yn y cartref, yr ysgol ac yn y gymuned
- mynediad i ysgolion a llyfrgelloedd cyhoeddus
- cynlluniau rhoddion llyfrau a darparu adnoddau
- deunyddiau ar gael yn Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd perthnasol eraill
- mynediad at fformatau digidol ac amlfoddol

Mae mynediad at ddeunyddiau yn angenrheidiol, ond nid yn ddigonol ar ei ben ei hun i gefnogi darllen er pleser.

3. Hygyrchedd cynhenid

Mae mynediad cynhenid yn cyfeirio at allu dysgwyr i ymwneud yn llwyddiannus â darllen unwaith y bydd deunyddiau ar gael.

Mae hyn yn cynnwys:

- hyder a hunan-ganfyddiad wrth ddarllen
- datgodio, rhuglder a dealltwriaeth
- geirfa a hyfedredd iaith
- addasrwydd lefel a fformat testun
- hygyrchedd i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu gefndiroedd ieithyddol gwahanol

Mae mynediad cynhenid yn bwysig oherwydd bod darllen er pleser yn dibynnu ar fod darllen yn teimlo'n gyraeddadwy ac o dan reolaeth.

4. Cymorth cymdeithasol a chydberthnasol

Mae cymorth cymdeithasol a chydberthnasol yn cyfeirio at rôl teulu a chyfeillion wrth annog a chynnal darllen.

Mae hyn yn cynnwys:

- anogaeth a modelu gan rieni, gofalwyr a theuluoedd
- cefnogaeth, arweiniad a brwdfrydedd ymarferwyr
- dylanwad cyfoedion a phrofiadau darllen ar y cyd
- cefnogaeth gan lyfrgelloedd, sefydliadau cymunedol a rhwydweithiau ehangach

Mae'r maes hwn yn cydnabod bod ymddygiadau darllen yn aml yn cael eu dylanwadu gan ryngweithio, argymhelliad a phrofiadau ar y cyd.

5. Amgylchedd ac amodau

Mae amgylchedd ac amodau yn cyfeirio at yr amgylchiadau ymarferol sy'n galluogi neu'n cyfyngu ar ddarllen mewn bywyd bob dydd.

Mae hyn yn cynnwys:

- amser sydd ar gael i ddarllen
- lle ac amgylchedd ffisegol
- gofynion cystadleuol (e.e. gwaith ysgol, defnyddio sgrin, gweithgareddau allgyrsiol)
- gweithdrefnau ac arferion
- amodau aelwydydd neu gymunedol ehangach

Mae'r maes hwn yn wahanol i gymhelliant, mynediad a chefnogaeth, gan ei fod yn canolbwyntio ar y graddau mae darllen yn ymarferol bosibl o fewn cyd-destunau bob dydd.

Rhyngweithiau rhwng meysydd

Mae'r 5 maes yn rhyng-ddibynnol. Mae gweithgarwch effeithiol yn fwyaf tebygol o ddigwydd lle maent yn gweithredu gyda'i gilydd.

Er enghraifft:

- Gall dysgwr gael ei ysgogi i ddarllen ond heb ddeunyddiau priodol ar gael iddo
- Gall fod llyfrau ar gael i ddysgwr ond fod ganddo diffyg hyder i wneud defnydd ohonynt
- Gall dysgwr fod â mynediad a chymhelliant ond mai cyfyngedig yw'r amser neu gyfle i ddarllen
- Gall dysgwr ddibynnu ar anogaeth gymdeithasol i gynnal ymddygiadau darllen dros amser

Mae'r rhyngweithio hwn yn amlygu bod mynd i'r afael ag un ffactor ar ei ben ei hun yn annhebygol o fod yn ddigonol i gefnogi darllen parhaus er pleser.

Goblygiadau ar gyfer datblygu a chomisiynu adnoddau

Mae'r fframwaith yn cefnogi'r dehongliad o'r canfyddiadau yn y prif adroddiad ac yn tynnu sylw at ystyriaethau ar gyfer datblygu a chomisiynu adnoddau.

Yn benodol, mae'n dangos y dylai dulliau effeithiol o hyrwyddo darllen er pleser wneud y canlynol:

- cyfuno cynnwys diddorol a pherthnasol â lefelau priodol o her
- sicrhau cyfle teg am ddeunyddiau o ansawdd uchel ym mhob lleoliad
- cefnogi hyder a gallu dysgwyr i ymwneud â thestunau
- cynnwys ymarferwyr, teuluoedd a chymunedau i gefnogi darllen
- ystyried yr amodau ymarferol sy'n galluogi darllen rheolaidd

Mae'r ystyriaethau hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun Cymru, lle mae angen i adnoddau gefnogi datblygiad llythrennedd dwyieithog, adlewyrchu hunaniaethau amrywiol dysgwyr, ac y gellir eu defnyddio mewn amgylcheddau cartref, ysgol a chymunedol.

Atodiad B Matrics adolygu llenyddiaeth

Gweler y ddogfen allanol.

01873 851880

info@miller-research.co.uk

miller-research.co.uk/

MILLER

Research Evaluation Consulting